# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **Bil yr Amgylchedd (Llywodraethiant, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth)** |
| **Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):** | **Matt Edwards, Karen Stothard** |
| **Adran:** | **Tirweddau, Natur a Choedwigaeth a Pholisi Bioamrywiaeth** |
| **Pennaeth yr Is-adran/Yr Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):** | **Naomi Matthiessen, Dirprwy Gyfarwyddwr, Tirweddau, Natur a Choedwigaeth**<br>**Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd Amgylcheddol** |
| **Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:** | **Huw Irranca Davies (AS) Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd** |
| **Dyddiad Dechrau:** | **Mehefin 2025** |

## CYNNWYS

ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?.... 3

ADRAN 2. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT CYMDEITHASOL? .... 17

ADRAN 3. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT DIWYLLIANNOL A'R GYMRAEG? .... 23

ADRAN 4. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT ECONOMAIDD? .... 24

ADRAN 5. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT AMGYLCHEDDOL? .... 26

ADRAN 6. BETH FYDD YR EFFAITH AR ANFANTAIS ECONOMAIDD GYMDEITHASOL? .... 30

ADRAN 7. COFNOD O'R ASESIADAU EFFAITH LLAWN GOFYNNOL .... 31

ADRAN 8. CASGLIAD .... 33

ADRAN 9. DATGANIAD .... 37

Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant .... 38

Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb .... 49

ATODIAD C ASESIAD EFFAITH PRAWF GWLEDIG .... 66

Atodiad D SGRINIO ASESIAD O'R EFFAITH AR DDIOGELU DATA .... 84

Atodiad E – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg .... 85

Atodiad F - Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth .... 92

Atodiad G - ASESIAD O'R DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL .... 111

## ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

**Ar ffurf naratif, disgrifiwch y mater a'r camau gweithredu a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Sut ydych chi wedi / y byddwch yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r camau gweithredu a gynigir yn y polisi a'r cylch cyflenwi drwyddo draw?**

1a. NODAU

Nod cyfunol Bil yr Amgylchedd (Llywodraethiant, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) yw cryfhau a gwella ein hymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Mae'r Bil yn cefnogi'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i "weithio tuag at sefydlu Corff Llywodraethiant Amgylcheddol, dyletswydd statudol a thargedau ar gyfer diogelu ac adfer bioamrywiaeth".

Bydd effeithiau a manteision y darpariaethau hyn yn disgyn ar draws sawl sector a byddant yn gwella ein gallu cyfunol i fynd i'r afael â'r heriau hinsawdd a natur sydd o'n blaenau ac ymateb iddynt.

Mae'r Bil yn cwmpasu tri maes allweddol sydd i gyd yn cyfrannu at gyflawni ein huchelgais i gynnal a gwella bioamrywiaeth, cynyddu ei broffil ac annog ei integreiddio i'r gwaith o wneud penderfyniadau. Y tri maes allweddol yn y Bil yw:

**a. Gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i roi egwyddorion amgylcheddol ar waith wrth lunio polisi, ac ar awdurdodau cyhoeddus wrth gynnal Asesiadau Amgylcheddol Strategol (yr Egwyddorion).**

Y pedair egwyddor amgylcheddol yw:

- yr egwyddor ataliol;
- yr egwyddor ragofalus;
- yr egwyddor cywiro yn y ffynhonnell; a
- yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu.

Mae'r egwyddor ragofalus wedi'i chynllunio i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau ystyried rheoli risg megis cymryd mesurau amddiffynnol hyd yn oed mewn sefyllfaoedd lle nad yw'n glir y gallai polisi achosi niwed. Yn yr un modd, mae'r egwyddor ataliol yn ymwneud â chymryd mesurau ataliol i osgoi niwed i'r amgylchedd cyn iddo ddigwydd. Mae'r egwyddor cywiro yn y ffynhonnell yn ei gwneud yn ofynnol bod llygredd yn cael ei drin lle mae'n digwydd, ac mae'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu yn rhoi'r cyfrifoldeb am y gost o gywiro'r difrod ar y sefydliad/unigolyn a'i hachosodd.

Bydd y ddyletswydd i roi'r egwyddorion ar waith yn cael ei chefnogi gan ddyletswydd bellach i integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth lunio polisi. Bydd hyn yn pwysleisio ymhellach arwyddocâd yr amgylchedd ac, ochr yn ochr â rhoi'r egwyddorion eu hunain ar waith, yn rhoi amddiffyn yr amgylchedd wrth wraidd y gwaith o lunio polisi.

Mae'r defnydd o'r egwyddorion amgylcheddol yn cael ei fframio gan 'Amcan Amgylcheddol', sydd wedi'i gynllunio i sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn gweithio tuag at gyflawni lefel uchel o ddiogelu a gwella'r amgylchedd yng Nghymru. Mae'r amcan hwn hefyd yn pwysleisio agweddau allweddol sy'n rhyngweithio â'r egwyddorion, gan gynnwys cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'u manteision, yn ogystal â chyfrannu at atal a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth.

**b. Sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol parhaol, Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru, a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan gyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Rydym yn rhagweld y bydd gan Lywodraethiant Amgylcheddol Cymru swyddogaethau craffu, cynghori, cwyno a gorfodi**

Fel rhan o'r UE, roedd Cymru yn ddarostyngedig i gorff goruchwylio ar gyfer cydymffurfio a gorfodi Cyfraith Amgylcheddol yr UE. Ymgymerwyd â'r gwaith hwn gan Gomisiwn yr UE ac roedd yn cynnwys monitro gweithrediad cyfraith amgylcheddol, derbyn cwynion gan y cyhoedd a, lle bo angen, cymryd camau gorfodi yn erbyn Aelod-wladwriaethau a oedd yn torri eu rhwymedigaethau. Ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, nid oedd Cymru bellach yn ddarostyngedig i gorff o'r fath, felly i fynd i'r afael â hyn, penodwyd Asesydd Interim

Diogelu’r Amgylchedd Cymru ym mis Mawrth 2021 i fynd i’r afael â’r bwlch hwn dros dro. Ei rôl yw ystyried materion mewn perthynas â gweithredu cyfraith amgylcheddol yng Nghymru a chyflwyno adroddiadau ar faterion o’r fath i Weinidogion Cymru yn nodi ei argymhellion. Fodd bynnag, mae ei gylch gorchwyl yn fwy cyfyng na’r trefniadau a oedd yn bodoli cyn ymadael â’r UE, er enghraifft, nid oes gan yr Asesydd bwerau ymchwilio a gorfodi cyfreithiol ac felly ni all ystyried cwynion am gydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus.

Felly, mae’r Bil yn ceisio mynd i’r afael â hyn trwy sefydlu Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru a fydd yn meddu ar fwy o bwerau na’r Asesydd, yn enwedig i gymryd camau gorfodi yn erbyn diffyg cydymffurfio.

Pwrpas Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru fydd cynyddu effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol yng Nghymru, gan arwain at lefelau uwch o ddiogelu a gwella’r amgylchedd. Bydd Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn cael ei llunio mewn ffordd sy’n caniatáu iddo ddal Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus i gyfrif am weithredu cyfraith amgylcheddol yng Nghymru a chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol. Drwy gyflawni’r swyddogaethau hyn, bydd Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn ceisio sicrhau bod manteision arfaethedig cyfraith amgylcheddol yn cael eu gwireddu’n llawn a bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus yn atebol am effeithiau eu penderfyniadau a’u polisïau ar yr amgylchedd.

Pwrpas Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru fydd cyfrannu tuag at gyflawni’r amcan amgylcheddol wrth arfer ei swyddogaethau. Mae’r amcan hefyd yn pwysleisio cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a’u manteision, ynghyd â chyfrannu at atal a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth. Fel rhan o hyn, bydd gan Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru rôl wrth oruchwylio targedau amgylcheddol, gan gynnwys y targedau bioamrywiaeth o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth hon.

**c. Sefydlu fframwaith gosod targedau ar gyfer targedau bioamrywiaeth (y targedau).**

Amcan cyffredinol y rhan hon o’r Bil yw rhoi’r pwerau i Weinidogion Cymru sefydlu targedau bioamrywiaeth. Bydd hyn yn cynnwys pŵer cyffredinol i osod targedau mewn perthynas ag unrhyw fater sy’n ymwneud â bioamrywiaeth, sy’n cynnwys mynd i’r afael â

phwysau a sbardunau colli bioamrywiaeth yng Nghymru ac, wrth wneud hynny, cyfrannu tuag at atal a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth yng Nghymru. Bydd yn cyflwyno dyletswydd ar Weinidogion Cymru i fodloni'r targedau bioamrywiaeth newydd ac i gyflwyno targedau mewn meysydd blaenoriaeth o fewn cyfnod penodol o amser.

Pwrpas y targedau bioamrywiaeth yw diffinio llwybr dewisedig i atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth yng Nghymru a chyfrannu at y ddyletswydd yn adran 6(1) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Dylai pob targed gyfrannu at atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth trwy gyfrannu at o leiaf un o'r canlynol:

- cynyddu toreithrwydd rhywogaethau
- gwella gwytnwch ecosystemau (fel y caiff ei fesur gan fframwaith DECCA),
- cynyddu amrywiaeth genetig.

Rhaid i weinidogion osod o leiaf un targed ym mhob un o'r pedwar maes blaenoriaeth o fewn 3 blynedd i'r Bil dderbyn Cydsyniad Brenhinol. Datblygwyd y meysydd blaenoriaeth hyn yn dilyn blaenoriaethu helaeth o dargedau'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, gan sicrhau bod ystod o dargedau wedi'u gosod i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth. Gall Gweinidogion osod targedau pellach ar wahanol bynciau yn y dyfodol. Mae'r meysydd blaenoriaeth hyn fel a ganlyn:

- lleihau'r risg o ddifodiant rhywogaethau brodorol;
- rheoli ecosystemau yn effeithiol;
- lleihau llygredd;
- ansawdd yr wybodaeth am fioamrywiaeth, argaeledd yr wybodaeth honno a'r defnydd ohoni.

Er mai ar ysgwyddau Gweinidogion Cymru y bydd y cyfrifoldeb am fodloni'r targedau, mae angen gweithredu gan bob rhan o gymdeithas ac er mwyn annog hyn bydd y Bil hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddynodi targedau unigol i awdurdodau cyhoeddus perthnasol. Bydd angen i awdurdodau cyhoeddus dynodedig nodi eu cyfraniad at dargedau yn eu hadroddiad adran 6. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd ymgynghori â'r awdurdod cyhoeddus y maent yn bwriadu ei ddynodi.

Yn ogystal, bydd y Bil yn gosod dyletswydd newydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth a'r bygythiadau i fioamrywiaeth.

**Hirdymor**

**Pa dueddiadau, heriau a chyfleoedd hirdymor a allai effeithio ar y cynnig?**

Gan gydnabod y bygythiadau dybryd a achosir gan newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth, fe wnaeth Llywodraeth Cymru a'r Senedd ddatgan argyfwng hinsawdd yn 2019 ac argyfwng natur yn 2021. Er mwyn mynd i'r afael â'r argyfyngau deuol hyn, gosododd Llywodraeth Cymru dargedau uchelgeisiol fel allyriadau nwyon tŷ gwydr sero-net erbyn 2050 ac ymrwymo i'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang. Mae hefyd wedi gweithredu mentrau amrywiol i amddiffyn bioamrywiaeth ac adfer cynefinoedd naturiol. Nod yr ymdrechion hyn yw cydbwyso heriau byrdymor â gwella'r amgylchedd yn yr hirdymor.

Ers datgan argyfwng natur, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r argyfwng bioamrywiaeth, gan gynnwys:

- Gweithredu argymhellion yr archwiliad dwfn bioamrywiaeth a oedd yn canolbwyntio ar ymateb Cymru i'r targed byd-eang '30x30' er mwyn amddiffyn a rheoli 30% o'n tir, ein dyfroedd croyw a'n moroedd erbyn 2030.
- Datblygu a gweithredu'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur sy'n ceisio gwella cyflwr a chysylltedd ein safleoedd gwarchodedig. Mae'r rhaglen hon hefyd yn annog ymgysylltu â'r gymuned a chynyddu'r gallu i ddatblygu amrywiaeth o brosiectau i alluogi ein cynefinoedd a'n rhywogaethau mwyaf gwerthfawr i ffynnu.
- Mae mentrau fel y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, Natur am Byth a'r Goedwig Genedlaethol i gyd yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfwng natur yn ogystal â'r argyfwng hinsawdd sy'n sbardun allweddol i golli bioamrywiaeth.
- Cyflwyno amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy sy'n cynnwys cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau – elfen allweddol o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy sydd i fod i gael ei lansio yn 2026.
- Diweddaru Polisi Cynllunio Cymru i ddarparu eglurder pellach ar sicrhau budd net ar gyfer bioamrywiaeth trwy gymhwyso'r dull fesul cam, pwyslais cryfach ar

ddefnyddio dull rhagweithiol o ymdrin â seilwaith gwyrdd a dull cryfach o ddiogelu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).

- Cynllun Grant Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig, sy'n cefnogi cynigion i wella dealltwriaeth o bwysau a chyflwyno mesurau i wella rheolaeth o'n rhwydwaith, gan gyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfwng natur.

Mae'r Bil hefyd yn ceisio cydbwyso'r heriau byrdymor a hirdymor a achosir gan y ddau argyfwng hyn.

Mae'r ddyletswydd i roi'r egwyddorion ar waith yn cau unrhyw fylchau yn y Fframwaith Llywodraethiant Amgylcheddol a grëwyd wrth i'r DU ymadael â'r UE. Wrth wneud hynny, bydd y fframwaith newydd yn ysgogi gwelliant amgylcheddol yn yr hirdymor. Bydd hyn yn pwysleisio ymhellach arwyddocâd diogelu'r amgylchedd ac, ochr yn ochr â defnyddio'r egwyddorion eu hunain, yn ei roi wrth wraidd llunio polisi.

Bydd sefydlu Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru, corff pwrpasol i Gymru, yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu yn y tymor byr, trwy allu cymryd camau gorfodi i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio. Ar yr un pryd, bydd Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru mewn sefyllfa dda i gynnig dealltwriaeth ac arbenigedd penodol yn yr hidymor i lywio polisi amgylcheddol a phenderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn y dyfodol.

Drwy roi'r pŵer cyffredinol i Weinidogion Cymru osod targedau mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, mae'r Bil yn ceisio mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth a sbardunau'r golled hon yng Nghymru. Yn yr hirdymor, bydd y Bil yn cyfrannu tuag at atal a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth yng Nghymru.

**Atal**

- *Sut mae'r cynnig yn cefnogi torri cylchoedd negyddol fel tlodi, iechyd gwael, difrod amgylcheddol a cholli bioamrywiaeth?*

Bydd cymryd camau ataliol i leihau effeithiau difrod amgylcheddol, yn ogystal ag adfer bioamrywiaeth o fudd i iechyd y cyhoedd, yr amgylchedd naturiol a'r gymdeithas ehangach.

Yn benodol, bydd y Bil hwn yn mynd i'r afael â chylchoedd negyddol yn ymwneud â difrod amgylcheddol a cholli bioamrywiaeth trwy:

a. gwreiddio egwyddorion amgylcheddol wrth lunio polisi, gan sicrhau bod diogelu'r amgylchedd wrth wraidd penderfyniadau Gweinidogion Cymru.
b. bydd sefydlu'r corff yn ystyried gweithrediad cyfraith amgylcheddol yn ogystal â chymryd camau angenrheidiol yn erbyn y rhai nad ydynt yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan gyfraith amgylcheddol, llawer ohonynt wedi'u cynllunio i wella a diogelu'r amgylchedd naturiol.
c. cyflwyno targedau bioamrywiaeth gyda'r nod o atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

- *A yw'r cynnig yn trin symptom neu'r achos sylfaenol? Os felly sut? Os yw'n trin symptom, beth ellir ei wneud am yr achos sylfaenol?*

- Mae'r Bil hwn yn ceisio mynd i'r afael â symptomau ac achosion sylfaenol materion sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd.
- Bwriad gwreiddio egwyddorion amgylcheddol craidd yn llyfr statud Cymru yw creu sail ar gyfer llunio polisi yn y dyfodol, ac mae'n cefnogi deddfwriaeth gyfredol fel Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Bwriad Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yw trin 'symptomau' sy'n cyfrannu at gylchoedd negyddol yn ymwneud â cholli bioamrywiaeth a diogelu'r amgylchedd, drwy sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus perthnasol Cymru yn cael eu dwyn i gyfrif am unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol a sefydlwyd i gryfhau amddiffyniadau a gwrthdroi tueddiadau negyddol.
- Bydd y targedau bioamrywiaeth yn cael eu sefydlu i fynd i'r afael yn uniongyrchol ag achos sylfaenol colli bioamrywiaeth yng Nghymru drwy osod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus i gymryd camau gweithredol i wrthdroi'r duedd hon.

- *Sut y gallai'r cynnig leihau ei effeithiau negyddol ei hun e.e. lleihau'r defnydd o wastraff ac adnoddau, allyriadau a'r effaith ar ansawdd aer, effaith negyddol ar gydlyniant cymdeithasol / cymunedol?*

Bydd y Bil yn pennu cyfres o egwyddorion amgylcheddol sydd wedi llywio'r gyfraith a'r broses o lunio polisïau yn yr UE a Chymru ers 40 mlynedd a mwy. Mae pwyslais yr egwyddorion amgylcheddol ar atal niwed amgylcheddol. Bydd y Bil hefyd yn cyflwyno Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru, a fydd yn helpu i sicrhau nad yw hawliau amgylcheddol yn atchwelyd ac i wella mynediad dinasyddion at gyfiawnder trwy ddal y

llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus i gyfrif mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol. Bydd cyflwyno targedau bioamrywiaeth yn cyflawni effeithiau sy'n atal ac yn gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth. Yn ei dro, bydd pob un o'r mesurau hyn yn cefnogi gweithrediad iach ecosystemau a'u gallu i barhau i ddarparu gwasanaethau ecosystem hanfodol neu fuddion i'n llesiant. Er enghraifft, mae lleihau llygredd a fydd yn cefnogi gwella ansawdd aer yn faes targed â blaenoriaeth.

Mae canlyniadau ariannol ynghlwm wrth y Bil, sy'n cael eu hystyried ymhellach o fewn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**Integreiddio**

*Sut y gallai'r cynnig hwn gysylltu a chyfrannu at wahanol agendâu polisi cyhoeddus a chynhyrchu buddion lluosog e.e. sut y gall prosiect trafnidiaeth gefnogi gwelliannau mewn iechyd, diwylliant neu ddiweithdra?*

Mae cysylltiad cryf rhwng ansawdd yr amgylchedd ac iechyd pobl. Er enghraifft, gall llygredd aer gyfrannu at broblemau iechyd anadlol a chardiofasgwlaidd. Gall llygredd dŵr arwain at heintiau a chlefydau fel colera a theiffoid. Mae polisïau amgylcheddol Llywodraeth Cymru, a'r ddeddfwriaeth sy'n cefnogi'r polisïau hyn, eisoes yn ymroi i fynd i'r afael â'r effeithiau hyn, a bydd darpariaethau'r Bil yn cryfhau'r rhain ymhellach. Er enghraifft, bydd y Bil yn cryfhau Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd Cymru. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i holl Swyddogaethau'r Gweinidogion a phob awdurdod cyhoeddus. Bydd cryfhau Adran 6 yn darparu mwy o fanteision ar draws yr ystod eang o agendâu polisi cyhoeddus.

O ran yr economi, mae dull Llywodraeth Cymru o weithredu datblygu cynaliadwy yn ceisio cydbwyso'r angen i warchod ein hamgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn erbyn cyfleoedd ar gyfer datblygu economaidd. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu nifer o bolisïau sy'n ceisio creu economi werdd sy'n amgylcheddol gynaliadwy a ffyniannus. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo coedwigaeth ac amaethyddiaeth gynaliadwy, datblygu mentrau economi gylchol gyda'r nod o leihau gwastraff a defnydd o adnoddau, yn ogystal â swyddi a busnesau newydd yn yr economi werdd.

Yn gyffredinol, mae polisi amgylcheddol Llywodraeth Cymru yn cael llawer o effeithiau cadarnhaol ar feysydd eraill o bolisi cyhoeddus. Mae'n helpu i wella iechyd y cyhoedd, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, a chreu economi fwy cynaliadwy. Mae'r Bil yn ceisio cefnogi'r meysydd integredig hyn yn uniongyrchol trwy gryfhau diogelu'r amgylchedd drwy'r egwyddorion, gwella cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol drwy Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru, yn ogystal â hyrwyddo adfer bioamrywiaeth ledled Cymru.

- *Pa gamau ymarferol ydych chi wedi'u cymryd i integreiddio'ch cynnig â'r Rhaglen Lywodraethu, amcanion a chynlluniau llesiant, yn ogystal â rhai cyrff cyhoeddus eraill a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, i wneud y mwyaf o gyfraniad y cynnig ar draws y saith nod llesiant?*

Mae'r Bil yn adlewyrchu ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i gyflwyno deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd hon i sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol i Gymru a chyflwyno dyletswydd a thargedau statudol i ddiogelu ac adfer bioamrywiaeth.

Yn fwy strategol, bydd y Bil yn cefnogi nod y Rhaglen Lywodraethu o *'ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn'* trwy roi egwyddorion amgylcheddol wrth wraidd penderfyniadau Gweinidogion Cymru, gan sicrhau bod modd cymryd camau yn erbyn y rhai nad ydynt yn cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, yn ogystal â chyflwyno targedau sydd â'r nod uniongyrchol o ddiogelu ac adfer natur.

**Cydweithio**

- *Pwy yw'r partneriaid sydd â budd cyffredin yn y cynnig hwn?*
- *Sut y mae'r partneriaid hynny wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynnig a chynllunio'r modd y caiff ei gyflawni, a beth fydd eu cyfraniad ato?*

Mae'r Bil hwn yn cefnogi polisi strategol Llywodraeth Cymru a ffurfiwyd i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Datblygwyd y Bil mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid a grwpiau mewnol ac allanol. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn 2019 ar Egwyddorion a threfniadau llywodraethiant amgylcheddol i Gymru ar ôl ymadael â'r UE, ac roedd yn gyfle da i randdeiliaid ar draws y sbectrwm gyfrannu syniadau cychwynnol.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, fe wnaeth Gweinidogion Cymru gynnull Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid ar Lywodraethiant amgylcheddol ('y Grŵp Gorchwyl') a oedd yn cynnwys

rhanddeiliaid allweddol i weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i ddatblygu ein syniadau ymhellach. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a chan y grŵp gorchwyl wedi bod yn sail i'r cynigion ynghylch yr egwyddorion amgylcheddol a'r corff llywodraethiant.

Er nad oes gan Gymru gorff llywodraethiant amgylcheddol parhaol ar waith hyd yma, penodwyd Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru ar 1 Mawrth 2021. Rôl yr Asesydd yw ystyried materion yn ymwneud â gweithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru a chyflwyno adroddiadau ar faterion o'r fath i Weinidogion Cymru yn nodi ei argymhellion. Mae'r Asesydd hefyd yn darparu dull i aelodau'r cyhoedd allu cyflwyno sylwadau am weithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru, ac mae wedyn yn ystyried dilysrwydd y sylwadau hynny a gall argymell unrhyw gamau y mae'n angenrheidiol i Weinidogion Cymru eu cymryd yn nhyb yr Asesydd. Mae profiad rhanddeiliaid a'r Asesydd wedi'i adlewyrchu yn y cynigion cyffredinol ar gyfer y corff llywodraethiant.

Yn 2024, cyhoeddwyd Papur Gwyn Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy: Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach.

Roedd y Papur Gwyn yn nodi cynigion i gwmpasu'r tri maes allweddol ac yn gwahodd barn gan bartïon â buddiant ar y canlynol:

i. Gwreiddio egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru;
ii. Llywodraethiant Amgylcheddol, gan gynnwys sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol i Gymru, a
iii. Fframwaith targedau statudol i ddiogelu ac adfer bioamrywiaeth yng Nghymru.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 30 Ebrill, a daeth cyfanswm o 1171 o ymatebion i law. Roedd y rhain yn cynnwys 161 o ymatebion ar-lein, 5 ymateb i'r fersiwn hawdd ei ddarllen a 1005 o ymatebion i'r ymgyrch.

Cyhoeddwyd dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Ceir crynodeb o'r ymatebion ar wefan Llywodraeth Cymru.[1]

---

[1] Egwyddorion amgylcheddol, trefniadau llywodraethu a thargedau bioamrywiaeth: Papur Gwyn | LLYW.CYMRU

Yn ystod ymgynghoriad 2024, cynhaliodd swyddogion Llywodraeth Cymru gyfres o weithdai a sgwrs un i un gyda rhanddeiliaid. Cynhaliwyd deuddeg o sesiynau un i un gyda rhanddeiliaid allweddol i drafod cynigion polisi. Daeth cyfranogwyr yn y gweithdai o ystod eang o gymdeithas, gan gynnwys rhai a allai deimlo dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Cynhaliwyd dau weithdy polisi i drafod strwythur y corff a'r pwerau gorfodi arfaethedig, a dau weithdy arall gydag awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus i drafod yr Egwyddorion a'r Targedau.

Drwy gydol y gwaith o ddatblygu polisi, mae cyfres o grwpiau rhanddeiliaid allanol wedi'u sefydlu i drafod meysydd polisi penodol. Roedd y rhain yn cynnwys y Grŵp Rhanddeiliaid Llywodraethiant Amgylcheddol, yn ogystal â defnyddio fforymau rhanddeiliaid presennol gan gynnwys y Grŵp Craidd Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth, gweithgor y Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP) a gweithgor Adran 6.

**Cyfranogiad**

- *Sut mae pobl y mae'r cynnig wedi effeithio arnynt wedi bod yn rhan o'i ddatblygu?*

- Ym mis Ionawr 2024, cyhoeddwyd y Papur Gwyn Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy: Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach. Mae'r papur gwyn hwn yn datblygu gwaith ymgysylltu blaenorol a gynhaliwyd trwy ymgynghoriad 2019; ymatebion pwyllgor; grwpiau gorchwyl rhanddeiliaid ac adroddiadau a gyhoeddwyd gan Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru.
- Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid Llywodraethiant Amgylcheddol ('y Grŵp Gorchwyl') yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn 2019 i ddarparu argymhellion pellach er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch llywodraethiant yng Nghymru.
- Yn ystod haf 2022, bu'r Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd yn gweithio gyda grŵp o arbenigwyr ac ymarferwyr allweddol i gynnal Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth[2]. Ffocws

[2] Roedd yr archwiliad dwfn yn cynnwys cynrychiolaeth allanol gan Cyfoeth Naturiol Cymru, RSPB Cymru, Prifysgol Abertawe, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Prifysgol Bangor, Dŵr Cymru, Prifysgol Caerdydd, Environment Systems, Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur, Prifysgol Hull, Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru a'r Grŵp Tirweddau Byw.

yr archwiliad dwfn oedd datblygu argymhellion i gynorthwyo i ddiogelu a rheoli'n effeithiol o leiaf 30% o'n tir, ein dŵr croyw a'n môr ar gyfer natur erbyn 2030.

- Argymhelliad tymor hwy allweddol gan y grŵp oedd *"datblygu deddfwriaeth sylfaenol i osod targedau adfer natur cyffredinol a sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol i'w gosod mor gynnar â phosibl yn nhymor y Senedd hon, a chyfres o dargedau adfer natur statudol manylach sy'n canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau amgylcheddol a sicrhau cyfraniad Cymru at y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang ôl-2020"*.
- Mae'r Bil yn ceisio cyflawni'r argymhelliad hwn.

- *Beth sy'n bwysig i'r bobl y mae'r cynnig yn effeithio arnynt a sut y gallent fod yn rhan o'i gyflawni?*

Gallai'r Bil effeithio ar lawer o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, yn y ffyrdd canlynol:

1. Dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru i roi'r Egwyddorion Amgylcheddol ar waith wrth lunio polisi.
2. Dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i roi'r egwyddorion ar waith wrth gynnal Asesiadau Amgylcheddol Strategol.
3. Dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus Cymru i gydymffurfio â'r corff, gan gynnwys mewn perthynas â dyletswydd gyffredinol i gydymffurfio, darparu gwybodaeth pan ofynnir amdani, a dilyn hysbysiadau cyfarwyddyd i gydymffurfio.
4. Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gyfrannu at gyflawni'r targedau bioamrywiaeth .

Mae ymgysylltu uniongyrchol ag awdurdodau sy'n cael eu heffeithio gan y polisi wedi digwydd trwy gydol y cyfnod ymgynghori. Cefnogwyd yr ymgysylltu hwn gan eu hymatebion i'r ymgynghoriad papur gwyn ei hun.

Mae awdurdodau lleol a chyhoeddus yn cynrychioli cymuned sylweddol o ddiddordeb. Mae ymgysylltu helaeth â'r grwpiau hyn wedi cael ei gynnal trwy gydol y gwaith o ddatblygu polisi. Mae hyn yn cynnwys cyfres o gyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae gweithio'n agos gyda'r grwpiau hyn wedi galluogi gwell dealltwriaeth o effaith bosibl darpariaethau'r Bil ar y cymunedau hyn.

*Yn ogystal â'r pum ffordd o weithio uchod, ystyriwch y meysydd canlynol:*

**Effaith**

- *Beth yw'r prif ddadleuon o blaid ac yn erbyn y cynnig? Cyfeiriwch at dystiolaeth; cydnabod bylchau sylweddol yn ein gwybodaeth a disgrifio unrhyw gynlluniau i'w llenwi.*

- **Mae corff sylweddol o ymchwil a thystiolaeth** o ffynonellau ar lefel Cymru, y DU a rhyngwladol sy'n dangos yn glir y berthynas rhwng yr amgylchedd naturiol a llesiant. Mae adolygiad ar economeg bioamrywiaeth dan arweiniad yr Athro Syr Partha Dasgupta yn crynhoi'r cyd-destun hwn i'r dim, gan ddweud:

  *Nature is essential for human existence and good quality of life. Most of nature's contributions to people are not fully replaceable, and some are irreplaceable.*

  *Nature across most of the globe has now been significantly altered by multiple human drivers, with the great majority of indicators of ecosystems and biodiversity showing rapid decline.*

  *Biodiversity is declining faster than at any time in human history. Current extinction rates, for example, are around 100 to 1,000 times higher than the baseline rate, and they are increasing. Such declines are undermining Nature's productivity, resilience and adaptability, and are in turn fuelling extreme risk and uncertainty for our economies and well-being.*

- Hefyd, mae gennym dystiolaeth sylweddol o'r angen i fynd i'r afael â'r niwed amgylcheddol a achosir gan ffynonellau niferus, gan gynnwys rhai amaethyddol, masnachol, domestig, diwydiannol a thrafnidiaeth. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb datganoledig i gyflawni targedau statudol yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, a sicrhau bod pawb yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth sydd ar waith i gyflawni'r nodau hyn a bod y ddeddfwriaeth honno'n parhau i fod yn effeithiol.
- Mae corff cryf o dystiolaeth hefyd i gefnogi'r gwaith o gyflwyno fframwaith llywodraethiant amgylcheddol i sicrhau bod datblygiad cyfreithiol a pholisi wedi'u hangori ynddo ac yn ceisio hyrwyddo nodau amgylcheddol.

- *'Strong Environmental Laws and Governance are paramount in protecting and restoring our planet and forging a Sustainable tomorrow'.*[3]

  - *Pa mor eang ydych chi wedi archwilio'r dadleuon hyn trwy gymryd rhan a chydweithio?*

- Mae datblygiad y Bil wedi'i seilio ar ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid trwy gydol y gwaith o ddatblygu polisi.
- Ar ôl cau'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhanddeiliaid un i un, ochr yn ochr â gweithdai a oedd yn canolbwyntio ar agweddau penodol ar y cynigion.
- Roedd y gweithdai yn cynnwys cynrychiolaeth gan randdeiliaid allweddol, gan gynnwys cyrff amgylcheddol anllywodraethol, awdurdodau lleol ac awdurdodau cyhoeddus.

  - Gweithdy 1 – Trafodaeth am y broses orfodi arfaethedig sydd ar gael i'r Corff Llywodraethiant Amgylcheddol
  - Gweithdy 2 – Trafodaeth am strwythur y Corff Llywodraethiant Amgylcheddol
  - Gweithdy 3 – Deall effaith y cynigion ar awdurdodau lleol
  - Gweithdy 4 – Deall effaith cynigion ar awdurdodau cyhoeddus Cymru

- Ochr yn ochr â'r gweithdai, ymgysylltwyd yn rheolaidd trwy'r Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid ar Lywodraethiant amgylcheddol, y Grŵp Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth a Phanel Cynghori Targedau Bioamrywiaeth sydd newydd ei sefydlu.

**Costau ac Arbedion**

Mae costau ac arbedion y cynigion wedi cael eu hasesu fel rhan o Ddadansoddiad Cost a Budd ac Asesiad Effaith Rheoleiddio, sydd wedi cael ei gyhoeddi i ategu cyflwyno'r Bil.

**Mecanwaith**

[3] Environmental Law and Governance | UNEP – UN Environment Programme

Y cynnig yw cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac Asesiad Effaith Integredig wedi'u cwblhau a byddant yn cael eu cyhoeddi i ategu cyflwyno'r Bil.

## ADRAN 2. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT CYMDEITHASOL?

### 2.1 Pobl a Chymunedau

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar bobl a chymunedau?**

Gyda'i gilydd, bydd y cynigion yn sbarduno gweithredu wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur trwy sbarduno gwelliant amgylcheddol o'r adeg y caiff polisïau eu hargymell a'u creu hyd at ddarparu trosolwg o'r holl ddeddfwriaeth amgylcheddol.

Bydd sefydlu Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru a chyflwyno egwyddorion amgylcheddol yn chwarae rhan bwysig wrth leihau peryglon amgylcheddol presennol ochr yn ochr ag atal baich peryglon newydd. Bydd ystyried yr egwyddorion amgylcheddol wrth lunio polisi neu Asesiadau Amgylcheddol Strategol yn sicrhau y diogelir yr amgylchedd, a'r manteision y mae'n eu darparu i bobl a chymunedau, ac yn rhan o'r ystyriaeth sylfaenol o unrhyw bolisi sydd ag effaith amgylcheddol. Bydd Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn darparu goruchwyliaeth gryfach ar gyfer torri cyfraith amgylcheddol gan ddarparu mwy o gymhelliant i gyrff cyhoeddus ganolbwyntio a chadw at ganlyniadau amgylcheddol cadarnhaol. Wrth wneud hynny, dylai baich peryglon amgylcheddol leihau. Un o brif swyddogaethau'r corff fydd deall lle mae'r gyfraith amgylcheddol bresennol yn methu â dal Gweinidogion Cymru i gyfrif i sicrhau gwelliannau i gyfraith amgylcheddol. Wrth wneud hynny, dylai peryglon newydd, a'r beichiau ynghlwm wrthynt, leihau.

Mae bioamrywiaeth yn sail i weithrediad ecosystemau ac mae cael lefelau iach o fioamrywiaeth yn sicrhau bod ecosystemau'n darparu'r gwasanaethau[4] (e.e. rheoleiddio cylch dŵr neu iechyd pridd) yr ydym i gyd yn dibynnu arnynt. Nod terfynol y cynigion o fewn adran targedau bioamrywiaeth y Bil, yw cynyddu bioamrywiaeth ledled Cymru. Mae'n

[4]Biodiversity and ecosystem services: a multilayered relationship

debygol y bydd pobl ledled Cymru yn elwa yn gadarnhaol ar amgylchedd iachach ac ecosystemau sy’n gweithredu’n well. Mae amgylchedd iachach yn gwella mynediad pobl i fyd natur trwy ddarparu aer glanach, dŵr mwy diogel a mannau gwyrdd wedi’u cynnal yn dda, gan annog gweithgareddau awyr agored a meithrin cysylltiad dyfnach â’r byd naturiol. Gall gwell mynediad i fannau gwyrdd o ansawdd uchel wella cysylltiadau â manteision llesiant, e.e. lefelau straen is a gwell iechyd meddwl.[5]

### 2.2 Hawliau Plant

Mae’r cynigion yn y Bil yn rhan o strategaeth ehangach Llywodraeth Cymru i fynd i’r afael â’r argyfyngau hinsawdd a natur, a bydd methu â gwneud hynny yn effeithio’n sylweddol ar blant a chenedlaethau’r dyfodol.

Mae plant yn agored i niwed mewn ffordd unigryw o ran effeithiau niwed amgylcheddol a newid hinsawdd. Wrth i’w cyrff a’u hymennydd ddatblygu, gallant fod yn fwy agored i effeithiau niweidiol llygredd a digwyddiadau tywydd eithafol. Yn ogystal, mae plant yn treulio mwy o amser yn yr awyr agored nag oedolion, sy’n cynyddu eu cysylltiad â pheryglon amgylcheddol.[6]

Bydd defnyddio’r egwyddorion amgylcheddol yn sicrhau bod unrhyw bolisïau newydd sydd ag effaith amgylcheddol yn rhoi sylw arbennig i’r egwyddorion, a’r manteision y mae diogelu’r amgylchedd yn eu darparu, gan gynnwys i blant. Mae gan Lywodraeth Cymru eisoes ystod o bolisïau a deddfwriaeth i gipio’r manteision hyn, yn ogystal â mynd i’r afael â’r argyfwng hinsawdd a natur a lliniaru risgiau cysylltiedig. Rôl Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru fydd sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol ehangach, yn ogystal â goruchwylio gweithrediad ac effeithiolrwydd ehangach y gyfraith.

Yn yr un modd, mae gan blant a phobl ifanc ddiddordeb hefyd mewn deall yr ymrwymiad i adfer bioamrywiaeth yng ngoleuni’r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae gosod targedau bioamrywiaeth yn darparu marcwyr o fwriad nid yn unig i ddangos cryfder y gefnogaeth i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth, ond ymrwymiad cyhoeddus – a gofyniad cyfreithiol – i weithredu..

Gweler yr Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant llawn yn Atodiad A am ragor o fanylion.

### 2.3 Cydraddoldeb

---

[5] Nature and mental health: An ecosystem service perspective | Science Advances

[6] EPA – Climate Change and the Health of Children

Mae'r Bil yn ceisio cefnogi dyheadau Llywodraeth Cymru ynghylch diogelu'r amgylchedd a gwrthdroi colli bioamrywiaeth. Wrth wneud hynny, byddant yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar ddinasyddion ledled Cymru, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. Bydd hefyd yn cefnogi datblygiad pellach Llywodraeth Cymru yn anuniongyrchol i sicrhau 'pontio teg' oddi wrth economi'r gorffennol a'i thanwydd ffosil i ddyfodol carbon isel newydd, lle rydym yn symud i Gymru lanach, gryfach, decach heb adael neb ar ôl.

Ni fydd y risgiau iechyd a achosir gan newid hinsawdd yn digwydd yn gyfartal ledled y DU, o ran lleoliad a chenhedlaeth. Bydd y risgiau hyn yn gwaethygu gwahaniaethau ac anghydraddoldebau iechyd sy'n bodoli eisoes. Pobl sydd â rheolaeth gyfyngedig dros eu hamgylchedd, eu gallu i addasu neu allu i ymateb i fygythiadau newydd fydd yn wynebu'r perygl mwyaf, gan gynnwys plant, pobl hŷn, pobl ag anableddau, y rhai sy'n profi digartrefedd, ac unigolion sy'n byw mewn lleoliadau penodol fel carchardai, ysgolion, llety'r lluoedd arfog a chyfleusterau gofal cymdeithasol.[7]

Rydym wedi ystyried manteision y cynigion yn y cyd-destun hwn, a chredwn y byddant yn arbennig o ddifrifol o ran iechyd unigolion, buddion i bobl sy'n gweithio yng Nghymru, yn ogystal â chydlyniant cymunedol a chymdeithasol cyffredinol.

Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn yn Atodiad B am ragor o fanylion.

### 2.4 Prawfesur Gwledig

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar unigolion a chymunedau gwledig?**

- Drwy ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru roi sylw arbennig i'r egwyddorion wrth lunio polisi, bydd hyn yn sicrhau y bydd agweddau allweddol ar ddiogelu'r amgylchedd yn cael eu hystyried fel rhan greiddiol o lunio polisïau. Bydd yn sicrhau bod yr holl bolisïau yn cael eu datblygu mewn ffordd sy'n

[7] Health Effects of Climate Change in the UK: state of the evidence 2023 (publishing.service.gov.uk)

ceisio osgoi niwed amgylcheddol, fel nad ydynt yn cyfrannu'n andwyol at yr argyfyngau hinsawdd a natur. Nid oes gwahaniaethau disgwyliedig o ran effeithiau a manteision i'r rhai mewn cymunedau gwledig o'u cymharu â chymunedau eraill ar draws Cymru.

- Prif bwrpas Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yw cynyddu effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru trwy sicrhau bod ei buddion arfaethedig yn cael eu gwireddu'n llawn. Yn ogystal â sicrhau bod deddfwriaeth yn cael ei gweithredu'n briodol, bydd hefyd yn nodi problemau gyda gweithrediad cyfraith amgylcheddol ac yn cynghori Gweinidogion Cymru ar sut i'w cywiro, atal torri'r gyfraith trwy gael presenoldeb goruchwylio gweladwy fel bod awdurdodau cyhoeddus yn gwybod y byddant yn cael eu dal i gyfrif. Nid oes gwahaniaethau disgwyliedig o ran effeithiau a manteision i'r rhai mewn cymunedau gwledig o'u cymharu â chymunedau eraill ar draws Cymru.
- Bydd gosod targedau bioamrywiaeth yn ceisio cynyddu bioamrywiaeth ledled Cymru. Mae'n debygol y bydd pobl wledig yn elwa yn gadarnhaol ar amgylchedd iachach ac ecosystemau sy'n gweithredu'n well. Mae amgylchedd iachach yn gwella mynediad pobl i fyd natur trwy ddarparu aer glanach, dŵr mwy diogel a mannau gwyrdd wedi'u cynnal yn dda, gan annog gweithgareddau awyr agored a meithrin cysylltiad dyfnach â'r byd naturiol. Gall gwell mynediad i fannau gwyrdd o ansawdd uchel wella cysylltiadau â manteision llesiant, e.e. lefelau straen is a gwell iechyd meddwl[8]. Bydd hefyd yn arwain at wasanaethau ecosystem gwell y mae llawer o ddiwydiannau amaethyddol yn dibynnu arnynt[9].
- Gweler yr Gweler yr Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig llawn yn Atodiad C am ragor o fanylion llawn yn Atodiad C am ragor o fanylion.

## 2.5 Iechyd

### 2.5a Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/gymedrol/fach), y bydd y cynnig yn effeithio ar benderfynyddion iechyd?

---

[8] Nature and mental health: An ecosystem service perspective | Science Advances

[9] Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020: Asesu bioamrywiaeth

Ni fydd y risgiau iechyd a achosir gan newid hinsawdd yn digwydd yn gyfartal ledled y DU, o ran lleoliad a chenhedlaeth. Gallai rhai bygythiadau, fel clefydau newydd a gludir gan fector, sychder, a thanau gwyllt, daro rhanbarthau deheuol yn gyntaf. Bydd eraill, fel cynnydd yn lefel y môr a llifogydd, yn effeithio'n bennaf ar drefi arfordirol, ardaloedd isel, a gorlifdiroedd. Bydd poblogaeth sy'n heneiddio yn cynyddu bregusrwydd cenedlaethol ymhellach i faterion iechyd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn y degawdau nesaf. Bydd y risgiau hyn yn gwaethygu gwahaniaethau ac anghydraddoldebau iechyd sy'n bodoli eisoes.

Mae'r cynigion yn y Bil yn ceisio cefnogi dyheadau Llywodraeth Cymru ynghylch diogelu'r amgylchedd a gwrthdroi colli bioamrywiaeth, gan fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Wrth wneud hynny, byddant yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar ddinasyddion ledled Cymru, ar draws nifer o benderfynyddion iechyd.

Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiad B am ddadansoddiad pellach ar effaith y Bil hwn ar wahanol grwpiau a phenderfynyddion iechyd.

**2.5b. A allai fod effaith iechyd wahaniaethol ar grwpiau penodol?**

Pobl sydd â rheolaeth gyfyngedig dros eu hamgylchedd, eu gallu i addasu neu allu i ymateb i fygythiadau newydd fydd yn wynebu'r perygl mwyaf, gan gynnwys plant, pobl hŷn, pobl ag anableddau, y rhai sy'n profi digartrefedd, ac unigolion sy'n byw mewn lleoliadau penodol fel carchardai, ysgolion, llety'r lluoedd arfog a chyfleusterau gofal cymdeithasol.[10] Cydnabyddir mai'r rhai sydd dan anfantais gymdeithasol/economaidd sy'n cyfrannu leiaf at sbardunau newid hinsawdd ond maent yn debygol o gael eu heffeithio fwyaf. Yn yr un modd, grwpiau incwm is sy'n talu fwyaf, fel cyfran o'r incwm, tuag at weithredu ymatebion polisi penodol ac yn elwa leiaf ar y polisïau hynny; ac mae tueddiad i'w lleisiau beidio â chael eu clywed wrth wneud penderfyniadau[11].

[10] Health Effects of Climate Change in the UK: state of the evidence 2023 (publishing.service.gov.uk)

[11] Climate change and social justice: an evidence review | Joseph Rowntree Foundation

Mae aelwydydd sy’n dioddef amddifadedd yn debygol o’i chael hi’n anos gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol, er enghraifft, methu â fforddio addasiadau priodol yn eu cartrefi neu symud o ardal sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd. Unigolion mewn amddifadedd iechyd sy’n wynebu’r risg fwyaf yn sgil ansawdd aer gwael. Bydd y Bil yn cyfrannu at fynd i’r afael â’r argyfyngau hinsawdd a natur, ac yn cael effaith gadarnhaol bwysig ar y rhai sy’n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol yn ein cymdeithas.

Gweler yr Asesiad o’r Effaith Economaidd-Gymdeithasol llawn yn Atodiad G.

### 2.6 Preifatrwydd

#### Fel rhan o’r cynnig, a fydd angen prosesu gwybodaeth a allai gael ei defnyddio i adnabod unigolion?

Nid yw’r cynnig hwn yn bodloni’r meini prawf ar gyfer ymgymryd ag Asesiad o’r Effaith ar Ddiogelu Data a bennir gan Erthygl 35(1), 35(3) a 35(4) o GDPR y DU.

## ADRAN 3. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT DIWYLLIANNOL A'R GYMRAEG?

### 3.1 Lles Diwylliannol

**3.1a Sut gall y cynnig gyfrannu'n weithredol at y nod o hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth ac annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden? (Ar gyfer y Gymraeg gweler adran 3.2)**

Bydd rhoi'r egwyddorion ar waith yn cryfhau diogelu'r amgylchedd, ac mae ein hamgylchedd wedi'i blethu'n ddwfn â threftadaeth ddiwylliannol Cymru, gan chwarae rhan hanfodol yn hanes, traddodiadau a hunaniaeth y genedl. Drwy gryfhau'r mesurau sy'n diogelu'r amgylchedd, bydd y cynigion hyn yn helpu i warchod treftadaeth naturiol Cymru a thrwy wneud hynny, byddant yn sicrhau bod ein treftadaeth ddiwylliannol hefyd yn cael ei chadw, a fydd o fudd anuniongyrchol i'r Gymraeg.

Bydd sefydlu Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru hefyd yn cryfhau diogelu'r amgylchedd yn y modd hwn, ond yn cael yr effaith gadarnhaol ychwanegol trwy ddarparu cyfathrebu dwyieithog a chynnwys o leiaf un aelod sy'n rhugl mewn cyfathrebu Cymraeg ar y bwrdd.

Drwy greu targedau uchelgeisiol ar gyfer bioamrywiaeth, bydd y darpariaethau yn cynyddu camau adfer amgylcheddol ledled Cymru. Bydd y gwasanaethau ecosystem a ddaw yn sgil amgylchedd iachach yn cael effaith gadarnhaol ar ein cymunedau lleol. Gall y manteision hyn gynnwys gwell llesiant, dyfroedd glanach, gwell iechyd y pridd a mwy o beillwyr, a fydd o fudd anuniongyrchol i'r Gymraeg drwy wella ansawdd bywyd yn ein cymunedau lleol.

**3.1b A yw'n bosibl y gallai'r cynnig gael effaith negyddol ar hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth, neu allu pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden? Os felly, pa gamau y gallwch eu cymryd i osgoi neu leihau'r effaith honno (er enghraifft drwy ddarparu cyfleoedd eraill)?**

Er bod y Bil yn anelu at wella amgylchedd naturiol Cymru a chefnogi gwasanaethau ecosystemau hanfodol fel dŵr croyw, nid yw'r Bil yn cyflwyno unrhyw wasanaethau newydd. Bydd unrhyw wasanaethau, a'u heffeithiau, yn cael eu creu trwy'r is-ddeddfwriaeth a gyflwynir gan bwerau'r Bil hwn a byddant yn cael eu hystyried yn y ddogfennaeth ategol. Bydd adolygiad a diweddariad o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg hwn yn cael ei gynnal wrth i'r polisi sydd ynghlwm wrth y Bil hwn ddatblygu.

### 3.2 Y Gymraeg

**Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg llawn yn Atodiad E.**

## ADRAN 4. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT ECONOMAIDD?

Mae cefnogi twf yn economi Cymru, a thrwy hynny drechu tlodi, wrth wraidd Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.

### 4.1 Busnes, y cyhoedd ac unigolion

Mae costau ac arbedion y cynigion wedi cael eu hasesu fel rhan o Ddadansoddiad Cost a Budd ac Asesiad Effaith Rheoleiddio, sydd wedi cael ei gyhoeddi i ategu cyflwyno'r Bil.

Bydd ymgynghoriad pellach yn cael ei gynnal wrth osod y targedau bioamrywiaeth drwy is-ddeddfwriaeth. Bydd yr Asesiad o'r Effaith hwn yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu effaith economaidd y targedau bioamrywiaeth penodol.

Bydd ymgysylltu pellach yn digwydd wrth sefydlu Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru; fodd bynnag, cylch gwaith y corff fydd sicrhau bod Gweinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol.

### 4.2 Y sector cyhoeddus gan gynnwys llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar y sector cyhoeddus?**

Mae costau ac arbedion y cynigion wedi cael eu hasesu fel rhan o Ddadansoddiad Cost a Budd ac Asesiad Effaith Rheoleiddio, sydd wedi cael ei gyhoeddi i ategu cyflwyno'r Bil.

Bydd ymgysylltu pellach yn digwydd wrth osod targedau bioamrywiaeth trwy is-ddeddfwriaeth a gweithredu Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru. Bydd yr Asesiad Effaith hwn yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r ymgysylltiad.

### 4.3 Trydydd Sector

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar sefydliadau'r trydydd sector a'u gwaith?**

Mae costau ac arbedion y cynigion wedi cael eu hasesu fel rhan o Ddadansoddiad Cost a Budd ac Asesiad Effaith Rheoleiddio, sydd wedi cael ei gyhoeddi i ategu cyflwyno'r Bil.

Mae cynrychiolwyr y Trydydd Sector wedi chwarae rhan ganolog wrth lunio’r cynigion polisi sydd wedi llywio’r Bil hwn (gweler Adran A – Cydweithio) ac ni fydd y cynigion yn effeithio’n negyddol arnynt.

### 4.4 Effaith ar Gyfiawnder

Atebwch y canlynol mewn perthynas â’ch cynnig:

- **A ydych yn cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol newydd?**

**Ydym**

- **A ydych yn creu, yn dileu neu’n diwygio trosedd?**

**Nac ydym**

- **A allai eich cynnig gael unrhyw effaith arall ar y system gyfiawnder e.e. yn sgil mwy o ymgyfreitha, yr angen am gymorth cyfreithiol, apelio yn erbyn penderfyniad corff cyhoeddus?**

**Gallai**

## ADRAN 5. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT AMGYLCHEDDOL?

O dan Adran 9 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi, cyhoeddi a gweithredu polisi adnoddau naturiol a chymryd pob cam rhesymol i'w weithredu gan annog eraill i gymryd camau o'r fath. Cyhoeddwyd y Polisi Adnoddau Naturiol ym mis Awst 2017.

**Bydd angen i chi ystyried a mynd ati, yn ôl yr angen, i gwblhau'r asesiadau canlynol** er mwyn sicrhau bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd:

| | | |
|---|---|---|
| **Gofynnol ar gyfer pob cynnig:** | • Blaenoriaethau cenedlaethol, heriau a chyfleoedd y Polisi Adnoddau Naturiol | 5.1a<br>5.1b |
| **Gofynnol ar gyfer pob cynnig** | • Bioamrywiaeth | 5.2 ac Atodiad F |
| **Gofynnol ar gyfer pob cynnig** | • Newid Hinsawdd | 5.3 |
| Cynlluniau a rhaglenni penodol sydd angen Asesiad Amgylcheddol Strategol o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 | • Asesiad Amgylcheddol Strategol | 5.4 a chanllawiau'r Asesiad Effaith Integredig |
| Cynigion a allai effeithio ar Ardal Cadwraeth Arbennig neu Ardal Gwarchodaeth Arbennig (ACA/AGA): | • Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | 5.5 a chanllawiau'r Asesiad Effaith Integredig |

| | | |
|---|---|---|
| Prosiectau penodol sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref; trafnidiaeth; amaethyddiaeth; coedwigaeth; y môr; draenio tir a thrydan lle bo angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol o dan y Rheoliadau amrywiol | • Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol | 5.6 a chanllawiau'r Asesiad Effaith Integredig |

**5.1 Adnoddau Naturiol**

**5.1a Sut y bydd y cynnig yn cyflawni un neu fwy o'r blaenoriaethau cenedlaethol yn y Polisi Adnoddau Naturiol (PAN)?**

- Cyflawni atebion seiliedig ar natur;
- Cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau; a thrwy wneud hynny,
- Mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar le.

**5.1b A yw'r cynnig yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd cenedlaethol canlynol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?**

Gan fod y Bil yn cyflwyno deddfwriaeth i wreiddio egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru, cryfhau llywodraethiant amgylcheddol yng Nghymru a chyflwyno fframwaith targedau bioamrywiaeth i fynd i'r afael â'r argyfwng natur parhaus, mae bioamrywiaeth wedi'i ymgorffori trwy'r cynigion.

Mae'r darpariaethau yn nodi, pan fydd targedau yn cael eu gosod, bod yn rhaid i weinidogion ystyried yr egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Mae'r rhain yn cynnwys hyrwyddo ac ymgysylltu â chydweithrediad a chydweithio, gwneud trefniadau priodol ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau, ac ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth o ran unrhyw ansicrwydd. Bydd yr egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn sicrhau bod y targedau yn seiliedig ar dystiolaeth.

Bydd yr egwyddorion amgylcheddol a Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn ymwneud â'r gyfraith amgylcheddol ehangach a pholisi amgylcheddol, nid dim ond bioamrywiaeth, ond rhan allweddol o'r cynigion hyn fydd yr effaith gadarnhaol a gânt ar fioamrywiaeth.

### 5.2 Bioamrywiaeth

Bydd gosod targedau cyfreithiol rhwymol yn cael effaith sylweddol ar wreiddio bioamrywiaeth. Bydd y Bil yn gweithio ochr yn ochr ag adnewyddu ein polisi adnoddau naturiol a chyhoeddi cynllun Adran 6 Gweinidogion Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod mecanweithiau cyflawni polisïau yn eu lle i gyrraedd ein targedau domestig newydd ac i annog integreiddio ein polisïau i wneud y mwyaf o'r manteision i fioamrywiaeth.

Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth llawn yn Atodiad F.

### 5.3 Newid Hinsawdd

#### 5.3a Carbon

**Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar allyriadau nwyon tŷ gwydr?**

Ewch i dudalen mewnrwyd Asesiad Effaith Newid Hinsawdd i'ch helpu i ateb yr adran hon o'r Asesiad Effaith Integredig.

Ar ôl i chi gwblhau'r holiadur sgrinio (a'r asesiad carbon llawn os yw'n briodol), dewiswch a chwblhewch un o'r paragraffau canlynol:

- **Paragraff A – Dim newid sylweddol mewn allyriadau**
  Mae swyddogion wedi ystyried effaith y cyngor hwn ar garbon. Nid ydym wedi mesur yr allyriadau sy'n gysylltiedig ag ef am ein bod yn disgwyl iddynt ostwng islaw'r trothwy ar gyfer dadansoddiad meintiol. Rydym yn hyderus iawn fod ein hasesiad yn gywir.

#### 5.3b Y gallu i wrthsefyll newid hinsawdd

Ewch i dudalen mewnrwyd Asesiad Effaith Newid Hinsawdd i'ch helpu i ateb yr adran hon o'r Asesiad Effaith Integredig.

- A fydd unrhyw un o'r risgiau a nodir yn Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU yn effeithio ar y cynnig hwn? Na fydd

### 5.4 Asesiad Amgylcheddol Strategol

**Nid** yw'r Bil yn cynnwys unrhyw un o'r meini prawf a restrir isod. Bydd yr ymateb hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru wrth i'r polisi sydd ynghlwm wrth y Bil hwn ddatblygu.

- Adeiladu, mwyngloddio, gwaith echdynnu neu waredu gwastraff ar y tir neu'r môr (gan gynnwys datblygu trefol, priffyrdd, porthladdoedd, ynni, amaethyddiaeth a ffermio pysgod);
- Newid defnydd tir
- Coedwigo neu ddatgoedwigo
- Gwaith gwella amaethyddol ar dir heb ei drin neu mewn ardaloedd lled-naturiol;
- Ailstrwythuro daliadau tir gwledig
- Echdynnu dŵr neu ddraenio tir.

### 5.5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Ni fydd y Bil yn effeithio ar safleoedd gwarchodedig. Bydd yr ymateb hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru wrth i'r polisi sydd ynghlwm wrth y Bil hwn ddatblygu.

### 5.6 Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

**Nid** yw'r Bil yn cynnwys unrhyw un o'r meini prawf a restrir isod. Bydd yr ymateb hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru wrth i'r polisi sydd ynghlwm wrth y Bil hwn ddatblygu.

- Adeiladu, mwyngloddio, gwaith echdynnu neu waredu gwastraff ar y tir neu'r môr (gan gynnwys datblygu trefol, priffyrdd, porthladdoedd, ynni, amaethyddiaeth a ffermio pysgod);
- Newid defnydd tir
- Coedwigo neu ddatgoedwigo
- Gwaith gwella amaethyddol ar dir heb ei drin neu mewn ardaloedd lled-naturiol;
- Ailstrwythuro daliadau tir gwledig
- Echdynnu dŵr neu ddraenio tir.

## ADRAN 6. BETH FYDD YR EFFAITH AR ANFANTAIS ECONOMAIDD GYMDEITHASOL?

### 6.1 Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

Mae'r cynigion yn y Bil yn ceisio cefnogi dyheadau Llywodraeth Cymru ynghylch diogelu'r amgylchedd a gwrthdroi colli bioamrywiaeth. Wrth wneud hynny, byddant yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar ddinasyddion ledled Cymru, gan gynnwys y rhai a allai ddioddef o anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd y cynigion hefyd yn cefnogi datblygiad pellach Llywodraeth Cymru yn anuniongyrchol i sicrhau 'pontio teg' oddi wrth economi'r gorffennol a'i thanwydd ffosil i ddyfodol carbon isel newydd, lle rydym yn symud i Gymru lanach, gryfach, decach heb adael neb ar ôl.[12]

Gweler yr Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol llawn yn Atodiad G.

[12] Crynodeb o'r Fframwaith Pontio | LLYW.CYMRU

## ADRAN 7. COFNOD O'R ASESIADAU EFFAITH LLAWN GOFYNNOL

Rydych wedi penderfynu erbyn hyn pa feysydd sydd angen asesiad effaith manylach. Rhestrwch nhw isod.

| **Asesiad Effaith** | **Ie/Na** | **Os ie, mae angen:** |
|---|---|---|
| Hawliau Plant | Ie | Cwblhau yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant isod |
| Cydraddoldeb | Ie* | Cwblhau yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb isod |
| Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol | Ie | Cwblhau yr Asesiad o'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol isod |
| Prawfesur Gwledig | Ie | Cwblhau yr Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig isod |
| Iechyd | Na | Cyfeirio at ganllawiau Asesiadau Effaith Integredig |
| Preifatrwydd | Na | Cwblhau yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data isod |
| Y Gymraeg | Ie | Cwblhau yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg isod |
| Economic / RIA | Ie | Cyfeirio at ganllawiau Asesiadau Effaith Integredig |
| Cyfiawnder | Ie | Cwblhau ffurflen Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder ar y fewnrwyd |
| Bioamrywiaeth | Ie* | Cwblhau yr Asesiad Effaith isod |
| Newid Hinsawdd | Na | Cyfeirio at ganllawiau Asesiadau Effaith Integredig |
| Asesiad Amgylcheddol Strategol | Na | Cyfeirio at ganllawiau Asesiadau Effaith Integredig |
| Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | Na | Cyfeirio at ganllawiau Asesiadau Effaith Integredig |

| | | |
|---|---|---|
| Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol | Na | Cyfeirio at ganllawiau Asesiadau Effaith Integredig |

* Mae'r asesiadau hyn yn orfodol ar gyfer pob cynnig er mwyn bodloni'r rhwymedigaethau statudol.

Cyfeiriwch at y wybodaeth ategol a geir ar dudalen Asesiad Effaith Integredig ar y fewnrwyd. Mae'r dudalen hon yn cynnwys arweinwyr ac arbenigwyr meysydd polisi Asesiadau Effaith Integredig sy'n cynnig cymorth ar gyfer asesu effaith. Bydd sgwrs gynnar gyda chynghorydd arbenigol mewnol yn sicrhau eich bod chi ar y llwybr cywir.

## ADRAN 8. CASGLIAD

### 8.1 Sut mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys wrth ei ddatblygu?

9 Ym mis Mawrth 2019, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar **Egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu yng Nghymru ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd** (ymgynghoriad 2019).

10 Mae canlyniad ymgynghoriad 2019, grŵp gorchwyl 2020 ac ymgysylltiad cyffredinol â rhanddeiliaid trwy gydol 2021-2023 yn sail i'r cynigion ynghylch egwyddorion amgylcheddol a'r corff llywodraethiant amgylcheddol.

11 Yn ystod haf 2022, bu'r Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd yn gweithio gyda grŵp o arbenigwyr ac ymarferwyr allweddol i gynnal Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth. Awgrym tymor hwy allweddol gan y grŵp oedd *"datblygu deddfwriaeth sylfaenol i osod targedau adfer natur cyffredinol a sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol i'w gosod mor gynnar â phosibl yn nhymor y Senedd hon, a chyfres o dargedau adfer natur statudol manylach sy'n canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau amgylcheddol a sicrhau cyfraniad Cymru at y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang ôl-2020"*. Mae'r Bil yn ceisio cyflawni'r argymhelliad hwn.

12 Yn 2024, cyhoeddwyd Papur Gwyn Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy: Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 30 Ebrill, a daeth cyfanswm o 1171 o ymatebion i law. Roedd y rhain yn cynnwys 161 o ymatebion ar-lein, 5 ymateb i'r fersiwn hawdd ei ddarllen a 1005 o ymatebion i'r ymgyrch. Cyhoeddwyd dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Ceir crynodeb o'r ymatebion ar wefan Llywodraeth Cymru.[13]

13 Drwy gydol y gwaith o ddatblygu polisi, mae cyfres o grwpiau rhanddeiliaid allanol wedi'u sefydlu i drafod meysydd polisi penodol.

### 8.2 Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, yn rhai cadarnhaol a negyddol?

---

[13] Egwyddorion amgylcheddol, trefniadau llywodraethu a thargedau bioamrywiaeth: Papur Gwyn | LLYW.CYMRU

Mae'r Bil yn ceisio cefnogi dyheadau Llywodraeth Cymru ynghylch diogelu'r amgylchedd a gwrthdroi colli bioamrywiaeth. Wrth wneud hynny, byddant yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bobl a chymunedau, yn enwedig o ran iechyd unigolion, manteision i bobl sy'n gweithio yng Nghymru, yn ogystal â chydlyniant cymunedol a chymdeithasol cyffredinol.

Bydd effeithiau'r Bil yn dangos ymhellach gyfraniad Gweinidogion Cymru at egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, ac mae polisïau wedi'u seilio ar y saith nod llesiant yn y ddeddf.

Mae dau ymgynghoriad ac ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid wedi dangos cefnogaeth glir i weithredu pellach ar draws pob un dri maes y Bil.

Bydd gweithredu'r Bil yn gofyn am flaenoriaethu cyllid mewn trafodaethau cyllideb yn y dyfodol. Mae costau ac arbedion y cynigion wedi cael eu hasesu fel rhan o Ddadansoddiad Cost a Budd ac Asesiad Effaith Rheoleiddio, sydd wedi cael ei gyhoeddi i ategu cyflwyno'r Bil.

Bydd yr ymateb hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru wrth i'r polisi sydd ynghlwm wrth y Bil hwn ddatblygu.

**8.3 Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

- **Cymru gydnerth**: Bydd y Bil yn sbarduno effaith sylweddol a chadarnhaol ar amgylchedd a gweithrediad ecosystemau Cymru yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, drwy gryfhau cydymffurfiaeth a gweithredu cyfraith amgylcheddol bresennol, yn ogystal â chyflwyno targedau penodol i wella'r ecosystem.
- **Cymru lewyrchus**: Bydd cryfhau trefniadau llywodraethu ac adfer bioamrywiaeth yn cefnogi nifer o bolisïau i geisio creu economi werdd sy'n amgylcheddol gynaliadwy a ffyniannus. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo coedwigaeth ac amaethyddiaeth gynaliadwy, datblygu mentrau economi gylchol gyda'r nod o leihau gwastraff a defnydd o adnoddau, yn ogystal â swyddi a busnesau newydd yn yr economi werdd. Gall

diogelu ac adfer ecosystemau ddarparu bywoliaeth gynaliadwy i gymunedau sy'n dibynnu ar adnoddau naturiol ar gyfer incwm a diogelwch bwyd. Gall ecosystemau iach helpu i amddiffyn cymunedau rhag effeithiau trychinebau naturiol, megis llifogydd, stormydd a sychder.

- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**: Bydd diogelu'r amgylchedd naturiol ac adfer bioamrywiaeth yn gwella cyfoeth diwylliannol Cymru ac yn rhoi cyfle pellach ar gyfer gweithgareddau awyr agored. Byddwn yn sicrhau safonau cyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg drwy weithredu'r darpariaethau sydd yn y Bil, gan gynnwys wrth ystyried penodiadau i Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru.
- **Cymru iachach**: Bydd y Bil yn cyfrannu at Gymru iachach drwy wella cydymffurfiaeth â deddfwriaeth, gan sbarduno gwelliannau i ansawdd aer a dŵr. Yn ei dro, bydd hyn yn arwain at ostyngiad mewn clefydau anadlol a chardiofasgwlaidd, yn ogystal â phroblemau iechyd eraill sy'n gysylltiedig ag amlygiad i lygredd, gyda lleihad mewn llygredd yn un o feysydd blaenoriaeth y targedau bioamrywiaeth. Ymhellach, bydd adfer a gwella natur yn darparu mynediad i fannau gwyrdd, gan annog pobl i fod yn fwy egnïol, a gallai hyn leihau'r risg o ordewdra, clefyd y galon, a chyflyrau iechyd cronig eraill.
- **Cymru sy'n fwy cyfartal**: Bydd atgyfnerthu mesurau diogelu amgylcheddol ac adfer bioamrywiaeth yn gwella iechyd a lles i bawb, gyda'r effaith fwyaf yn debygol o gael ei theimlo gan y rhai sy'n profi effeithiau llygredd yn anghymesur oherwydd rhesymau iechyd neu economaidd-gymdeithasol.
- **Cymru o gymunedau cydlynus**: Gall cysylltu â natur a chymryd rhan mewn gweithgareddau amgylcheddol feithrin ymdeimlad o werthoedd cymunedol cyffredin ymhlith preswylwyr. Mae mannau gwyrdd yn rhoi cyfle i bobl ymgynnull, cymdeithasu ac adeiladu perthnasoedd ac mae cysylltiad â byd natur yn gallu hyrwyddo gwytnwch yn wyneb adfyd a chreu ymdeimlad o obaith ac optimistiaeth.
- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**: Mae'r Bil yn dangos ymrwymiad Gweinidogion Cymru tuag at yr amgylchedd a bioamrywiaeth fyd-eang, gan atgyfnerthu ymhellach safle Cymru yn y gymuned ryngwladol fel gwlad sy'n ymroddedig i gynaliadwyedd a gweithredu amgylcheddol.

### 8.4 Sut y bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo a phan ddaw i ben?

Bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal adolygiad ar ôl gweithredu o'r ddeddfwriaeth heb fod yn hwyrach na phum mlynedd ar ôl iddi ddod i rym. Rhagwelir y bydd yr adolygiad yn asesu effeithiolrwydd y polisi o ran cyflawni ei amcanion o wella canlyniadau amgylcheddol trwy gyflawni'r canlynol

i. Gwreiddio egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru;
ii. Llywodraethiant Amgylcheddol, gan gynnwys sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol i Gymru; a
iii. Fframwaith targedau statudol i ddiogelu ac adfer bioamrywiaeth yng Nghymru.

Mae manylion llawn yr adolygiad i'w penderfynu.

## ADRAN 9. DATGANIAD

**Datganiad**

Rwy'n fodlon bod effaith y cam gweithredu arfaethedig wedi'i hasesu a'i chofnodi yn ddigonol.

Enw'r Uwch Swyddog Cyfrifol / Dirprwy Gyfarwyddwr:

Adran:

Dyddiad:

# ATODIAD A – ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

## 1. Amcanion polisi

Mae Bil yr Amgylchedd (Llywodraethiant, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) yn ategu'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu, sef "gweithio tuag at sefydlu Corff Llywodraethu Amgylcheddol, dyletswydd statudol a thargedau ar gyfer diogelu ac adfer bioamrywiaeth."

Amcanion polisi'r Bil yw ategu a gwella'r fframwaith polisi a deddfwriaeth presennol trwy wneud y canlynol:

I. Gwreiddio cyfres o egwyddorion amgylcheddol sylfaenol yng nghyfraith Cymru; bydd yr egwyddorion hyn wrth galon a chraidd penderfyniadau polisi a chynigion deddfwriaethol.
II. Sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol newydd, a fydd yn dwyn awdurdodau cyhoeddus Cymru i gyfrif am beidio â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, yn cynnwys cymryd camau gorfodi yn eu herbyn.
III. Creu fframwaith gosod targedau, a fydd yn cynnwys targedau bioamrywiaeth pellgyrhaeddol a osodir trwy is-ddeddfwriaeth a chynllun adrodd a gwerthuso trylwyr; gan sicrhau ein bod yn cymryd camau gweithredol i ddiogelu ac adfer bioamrywiaeth ledled Cymru.

Ar y cyd, bydd y cynigion yn sbarduno gweithredu i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur trwy ysgogi gwelliannau amgylcheddol yr holl ffordd o'r adeg y ffurfir polisïau hyd at oruchwylio pob deddfwriaeth amgylcheddol.

## 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Bydd y cynigion a nodir yn y Bil wedi cael eu datblygu yng ngoleuni'r adborth a gafwyd i'r ymgynghoriad 'Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy: Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach'[14], a lansiwyd yn 2024.

---

[14] Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, lluniodd swyddogion ddogfennau hawdd eu deall a chyhoeddwyd cyfres o negeseuon cyfathrebu penodol yng nghylchlythyr Rhaglen Addysg Amgylcheddol Eco-sgolion Llywodraeth Cymru ac ar y cyfryngau cymdeithasol, er mwyn ceisio barn pobl ifanc[15] yng Nghymru. Llwyddodd y cylchlythyr i gyrraedd 90% o'r ysgolion, gan annog nifer ohonynt i ymateb i ymgynghoriad y Papur Gwyn. Cyflwynodd cyfanswm o bedair ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd ymatebion i'r Papur Gwyn. Ystyriwyd yr ymatebion hyn fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion a gafwyd gan bobl ifanc yn cefnogi'r cynigion yn frwd, gan gydnabod bod angen mynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd. Mynegodd pobl ifanc bryderon ynglŷn â'r amserlen ar gyfer cyflawni targedau erbyn 2030, fel y nodir yn y Papur Gwyn, a dywedasant eu bod o blaid cymryd camau'n ddi-oed i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Adlewyrchir yr adborth hwn yn y Bil terfynol.

- **Pa waith yn cynnwys plant a phobl ifanc ydych chi wedi'i ddefnyddio i lywio eich polisi? Os nad ydych wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, esboniwch pam.** [1]

Gwnaethom ymgysylltu'n uniongyrchol â Swyddfa'r Comisiynydd Plant wrth ddatblygu cynigion y Bil, er mwyn ceisio adborth a safbwyntiau. Bydd angen ymgysylltu rhagor â'r Comisiynydd wrth osod targedau bioamrywiaeth ac wrth sefydlu Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru. Byddwn yn parhau i ddwysáu'r gydberthynas weithio hon wrth i ni fwrw ymlaen â'r gwaith o gyflwyno'r Bil ac wrth i ni nesáu at ei weithredu. Bydd yn hanfodol i ni ymgysylltu â'r Comisiynydd Plant wrth ddiffinio'r targedau bioamrywiaeth penodol yn yr is-ddeddfwriaeth. Yr adeg honno, bydd ymgynghoriad arall yn cael ei gynnal a'n bwriad yw ymgysylltu â'r Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant a'r Comisiynydd Plant yn gynnar yn y broses.

## 3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

Mae cynigion y Bil yn rhan o strategaeth ehangach Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur; os methir â gwneud hyn, bydd effaith sylweddol yn siŵr o ddod i ran plant a chenedlaethau'r dyfodol.

---

[15] Ein cynllun i sicrhau dyfodol cynaliadwy yng Nghymru - Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl – Hawdd i'w Ddarllen

Mae plant yn unigryw o agored i effeithiau niwed amgylcheddol a newid hinsawdd. Mae eu cyrff a'u hymennydd, sy'n dal i ddatblygu, yn fwy agored i effeithiau niweidiol llygredd a digwyddiadau tywydd eithafol. Ymhellach, mae plant yn treulio mwy o amser yn yr awyr agored o gymharu ag oedolion, ac mae hyn yn golygu eu bod yn dod i fwy o gysylltiad â pheryglon amgylcheddol.[16] Mae'r risgiau penodol yn cynnwys y canlynol:

- Mae plant yn fwy tebygol o ddatblygu cyflyrau anadlol, fel asthma a niwmonia, yn sgil llygredd aer.[17]
- Gall newid hinsawdd darfu ar y gwaith o gynhyrchu a dosbarthu bwyd, gan arwain at ddiffyg diogeledd bwyd a chamfaethiad. Efallai na fydd plant yn cael y maethynnau sydd eu hangen arnynt i dyfu a datblygu'n iawn, a gall hyn esgor ar ganlyniadau gydol oes o ran eu hiechyd a'u llesiant.[18]
- Gall digwyddiadau tywydd eithafol ddifrodi ysgolion a tharfu ar addysg. Efallai y bydd plant yn methu mynd i'r ysgol am nifer o resymau, yn cynnwys ysgolion wedi cau[19], llwybrau teithio anhygyrch i/o'r ysgol[20], gorfod helpu eu teuluoedd neu orfod chwilio am loches ddiogel. Gall hyn arwain at golli cyfleoedd dysgu a gall lesteirio cynnydd addysgol.
- Mae plant yn fwy tebygol o ddioddef straen seicolegol sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd. Efallai y byddant yn teimlo ofn, gorbryder ac anobaith ynglŷn â'r dyfodol. [21] Yna, gallai'r problemau emosiynol hyn amharu ar eu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol.

Eisoes, mae gan Lywodraeth Cymru ystod o bolisïau a deddfwriaethau i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur ac i liniaru'r risgiau hyn. Er enghraifft, Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024[22] a Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn Neddf

[16] EPA - Climate Change and the Health of Children

[17] Air quality and respiratory health in children - PMC (nih.gov)

[18] Maternal and Child Nutrition (thelancet.com)

[19] Dozens of school closures in Wales as snow and ice hit again - Wales Online

[20] Severe winter weather and flooding in schools and colleges | National Education Union

[21] Climate anxiety in children and young people and their beliefs about government responses to climate change: a global survey - The Lancet Planetary Health

[22] Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024

Amaethyddiaeth (Cymru) 2023[23]. Fodd bynnag, os na fydd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus Cymru yn bodloni eu dyletswyddau statudol mewn perthynas â'r amgylchedd, gellid achosi niwed amgylcheddol, a gallai hynny arwain at fethu â lliniaru'r risgiau hyn mwyach. O'r herwydd, byddai gan bobl ifanc fuddiant yn y modd y caiff awdurdodau cyhoeddus eu dwyn i gyfrif am gydymffurfio â'u dyletswyddau statudol mewn perthynas â'r amgylchedd.

Rôl Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru fydd sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, yn ogystal â goruchwylio'r gyfraith honno o ran y modd y'i rhoddir ar waith ac o ran ei heffeithiolrwydd.

Yn yr un modd, mae gan bobl ifanc fuddiant mewn deall yr ymrwymiad i adfer bioamrywiaeth yng ngoleuni'r argyfyngau hinsawdd a natur. Trwy osod targedau bioamrywiaeth, dangosir pa mor gryf yw'r gefnogaeth ar gyfer gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth, a hefyd dangosir ymrwymiad cyhoeddus – a gofyniad cyfreithiol – i weithredu.

Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ddiweddaru wrth i'r polisi gael ei roi ar waith. Isod, ystyrir yr effeithiau hyn ymhellach yn erbyn pob nodwedd warchodedig.

- **Sut mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y nodir yn erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotocolau Dewisol? Cyfeiriwch at yr erthyglau i weld pa rai sy'n berthnasol i'ch polisi eich hun.**

Rydym wedi ystyried y modd mae'r Bil yn effeithio ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Credwn fod Erthyglau 3, 6, 12, 13, 15, 23, 27, 31 a 36 yn berthnasol i'r Bil hwn. Aseswyd nad yw gweddill yr Erthyglau'n berthnasol.

Nid ydym wedi pennu unrhyw effeithiau negyddol uniongyrchol ar blant a phobl ifanc yn sgil y cynigion a nodir yn y Papur Gwyn, ond byddwn yn parhau i archwilio hyn yn ystod y cam gweithredu ac wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth i ategu cynigion y Bil.

---

[23] Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

| **Erthyglau neu Brotocol Dewisol y Confensiwn** | **Yn Gwella (X)** | **Yn Herio (X)** | **Esboniad** |
|---|---|---|---|
| 3 – Dylai pob Sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio tuag at yr hyn sydd orau i bob plentyn. | X | | Mae'r cynigion yn ceisio hyrwyddo llesiant plant yn anuniongyrchol trwy gryfhau cyfraith amgylcheddol a thrwy adfer bioamrywiaeth. |
| Erthygl 6 – Mae gan bob plentyn hawl i fywyd. Dylai Llywodraethau sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach. | X | X | Mae'r cynigion yn ceisio hyrwyddo iechyd plant yn anuniongyrchol trwy gryfhau'r modd y cydymffurfir â chyfraith amgylcheddol a thrwy sicrhau y bydd Gweinidogion Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau cyhoeddus eraill (wrth gynnal Asesiadau Amgylcheddol Strategol) yn gweithredu'r pedair egwyddor amgylcheddol ac yn integreiddio mesurau diogelu amgylcheddol yn eu polisïau. Bydd hyn yn cael effaith arbennig o gadarnhaol ar blant trwy ategu a chryfhau polisïau amgylcheddol pan geir effaith anghymesur ar iechyd plant – yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd aer a dŵr.<br><br>Yr heriau i'r Bil fydd rheoli'r disgwyliadau o ran pa mor bell y gall y Bil hwn (ynghyd ag is-ddeddfwriaeth ddilynol a pholisïau sy'n gysylltiedig â'r Bil) fynd yn uniongyrchol tuag at gyflawni'r erthygl hon ar ei ben ei hun. Mae gwaith ehangach ledled y Llywodraeth mewn perthynas â diogelwch plant a datblygu plant a phobl ifanc iach yn ymwneud yn fwy uniongyrchol â chyflawni'r erthygl hon mewn modd mwy cyfannol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Erthygl 12: Mae gan blant yr hawl i ddweud yr hyn a ddylai ddigwydd yn eu tyb nhw, pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac mae ganddynt yr hawl i fynnu bod eu barn yn cael ei hystyried. | X | X | Mae'r Bil yn cynnwys cynigion i sicrhau y caiff y cyhoedd gyflwyno sylwadau mewn modd dirwystr a theg i Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru. Yn ystod y cam gweithredu, byddwn yn disgrifio camau pellach y byddwn yn eu cymryd i sicrhau bod pobl ifanc yn gwybod am y prosesau sydd ar gael iddynt a'u bod yn gwybod sut i gael gafael ar y prosesau hynny.<br><br>Cafodd plant a phobl ifanc gyfle i gyfrannu at y cynigion hyn yn ystod y broses ymgynghori. Bydd plant a phobl ifanc yn cael cyfle arall i gyfrannu at ddatblygu'r is-ddeddfwriaeth ar gyfer targedau bioamrywiaeth a chanllawiau ar yr Egwyddorion Amgylcheddol.<br><br>Her allweddol wrth ddatblygu'r polisi hwn fydd rheoli'r disgwyliadau o ran pryd yn union y bydd angen pwysoli awgrymiadau gan blant a phobl ifanc yn erbyn ystyriaethau ehangach. Wrth i'r Bil a'r polisïau ddatblygu, bydd modd lliniaru'r her hon trwy gyfathrebu'n effeithiol ac mewn modd amserol fel rhan o'r cynllun Cyfathrebu ehangach sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn.<br><br>Wrth i ni ddatblygu'r is-ddeddfwriaeth, bydd rhagor o waith ymgysylltu'n cael ei wneud gyda phlant a phobl ifanc er mwyn sicrhau y bydd eu lleisiau'n rhan o'r broses benderfynu. Bydd yr asesiad effaith yn cael ei ddiweddaru yng ngoleuni'r ymgysylltu hwn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Erthygl 13: Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth, cyn belled na fydd yr wybodaeth yn niweidiol iddyn nhw neu i eraill. | X | X | Cafodd plant a phobl ifanc gyfle i gyfrannu at y cynigion hyn yn ystod y broses ymgynghori. Bydd plant a phobl ifanc yn cael cyfle arall i gyfrannu at ddatblygu'r is-ddeddfwriaeth ar gyfer targedau bioamrywiaeth.<br><br>Wrth i'r Bil a'r polisïau cysylltiedig ddatblygu, byddwn yn cadw mewn cof y modd y rhannwn wybodaeth mewn modd addas a hygyrch gyda phlant a phobl ifanc (yn cynnwys dogfennau hawdd eu deall), er mwyn sicrhau y bydd yr wybodaeth yn cael ei chyfathrebu mewn modd addas a heb fod yn rhy gymhleth. Bydd hyn yn cynnwys meddwl sut gellir rhannu gwybodaeth trwy gyfrwng deunyddiau nad ydynt yn ysgrifenedig er mwyn sicrhau y cyflwynir yr wybodaeth mewn ffordd mor ddiddorol â phosibl. |
| 15 – Mae gan blant hawl i gyfarfod gyda'i gilydd a hawl i ymuno â grwpiau a sefydliadau, cyn belled na fydd hyn yn rhwystro pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau. | X | | Trwy ysgogi'r arfer o gydymffurfio'n well â chyfraith amgylcheddol, ynghyd ag adfer bioamrywiaeth, bydd modd gwella mannau gwyrdd. Trwy warchod a gwella mannau gwyrdd, bydd plant a phobl ifanc yn cael cyfle i archwilio'u hamgylchedd naturiol. Hefyd, bydd plant yn cael cyfle i gyfarfod gyda'i gilydd ac archwilio'u hamgylchedd naturiol. |
| Erthygl 23: Dylai plant ag anabledd o unrhyw fath gael gofal a chymorth arbennig er mwyn iddynt allu byw bywydau llawn ac annibynnol. | X | X | Dengys tystiolaeth y gall plant, yn enwedig plant sy'n anabl oherwydd cyflyrau yn cynnwys cyflyrau anadlol a chyflyrau awto-imiwn, ddioddef canlyniadau iechyd negyddol anghymesur sy'n gysylltiedig â llygredd. Trwy integreiddio mesurau diogelu amgylcheddol mewn polisïau a thrwy weithredu'r egwyddorion amgylcheddol, ochr yn ochr â chryfhau'r modd y cydymffurfir â |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | chyfraith amgylcheddol, gellir cynorthwyo mwy ar y grwpiau hyn.[24]<br><br>Yr heriau i'r Bil fydd rheoli'r disgwyliadau o ran pa mor bell y gall y Bil hwn (ynghyd ag is-ddeddfwriaeth ddilynol a pholisïau sy'n gysylltiedig â'r Bil) fynd yn uniongyrchol tuag at gyflawni'r erthygl hon ar ei ben ei hun. Mae gwaith ehangach ledled y Llywodraeth mewn perthynas ag iechyd a llesiant plant (e.e. ffactorau sy'n ysgogi'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Rhaglen Plant Iach Cymru) yn ymwneud yn fwy uniongyrchol â chyflawni'r erthygl hon mewn modd mwy cyfannol. Byddwn yn parhau i ddiweddaru ac asesu'r asesiad effaith wrth i bolisïau'r is-ddeddfwriaeth gael eu datblygu. |
| 27 – Mae gan blant hawl i safonau byw sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r llywodraeth helpu teuluoedd na allant fforddio i ddarparu hyn. | X | | Trwy integreiddio mesurau diogelu amgylcheddol mewn polisïau, trwy weithredu'r egwyddorion amgylcheddol, trwy ysgogi cydymffurfiaeth bellach â chyfraith amgylcheddol a thrwy adfer bioamrywiaeth, bydd modd gwella mannau gwyrdd a chynnig cyfleoedd pellach i blant ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. |
| 31 – Mae gan bob plentyn hawl i ymlacio a chwarae, ynghyd â hawl i ymuno ag amrywiaeth eang o weithgareddau. | X | | Trwy integreiddio mesurau diogelu amgylcheddol mewn polisïau, trwy weithredu'r egwyddorion amgylcheddol, trwy ysgogi cydymffurfiaeth bellach â chyfraith amgylcheddol a thrwy adfer bioamrywiaeth, bydd modd gwella mannau gwyrdd a chynnig |

[24] Air pollution in the UK - position statement | RCPCH

Outdoor Air Pollution and Childhood Respiratory Disease: The Role of Oxidative Stress - PMC

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cyfleoedd pellach i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau natur. |
| 36 – Dylai plant gael eu hamddiffyn rhag gweithgareddau a allai niweidio eu datblygiad. | X | | Dengys tystiolaeth y gall plant, yn enwedig plant sy’n anabl oherwydd cyflyrau yn cynnwys cyflyrau anadlol a chyflyrau awto-imiwn, ddioddef canlyniadau iechyd negyddol anghymesur sy’n gysylltiedig â llygredd. Trwy integreiddio mesurau diogelu amgylcheddol mewn polisïau a thrwy weithredu’r egwyddorion amgylcheddol, ochr yn ochr â chryfhau’r modd y cydymffurfir â chyfraith amgylcheddol, gellir cynorthwyo mwy ar y grŵp hwn. |

## 4. Cyngor Gweinidogol a Phenderfyniad y Gweinidog

Bydd canfyddiadau a dadansoddiad yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael eu hintegreiddio yn ein cyngor gweinidogol er mwyn llywio penderfyniad y Gweinidog. Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Bil drafft fel rhan o gyfres o ddogfennau i ategu'r Bil. Hefyd, bydd canfyddiadau'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael eu hadlewyrchu ym Memorandwm Esboniadol y Bil, pan fo hynny'n briodol.

## 5. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

**Os ydych wedi gofyn am farn plant a phobl ifanc ynghylch eich cynnig, sut y byddwch yn rhoi gwybod iddynt am y canlyniad?**

Yn ystod y broses ymgynghori, aethom ati i ofyn am farn plant a phobl ifanc, a chyflwynwyd nifer fawr o safbwyntiau ganddynt. Lluniwyd fersiwn hawdd ei deall o'r ymgynghoriad er mwyn sicrhau bod y cynigion yn ddealladwy i bawb[25]. Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yn cynnwys adrannau'n ymwneud yn benodol ag ymatebion a gafwyd gan blant a phobl ifanc[26]. Yn ystod y camau cyhoeddus sy'n berthnasol i gyflwyno'r Bil, bwriadwn gyhoeddi cyfres o negeseuon cyfathrebu a fydd yn esbonio'r Bil arfaethedig a'i effeithiau. Bydd rhai o'r negeseuon hyn yn cael eu targedu at blant a phobl ifanc. Rydym yn bwriadu defnyddio rhaglenni, fel y Rhaglen Addysg Amgylcheddol Eco-sgolion, i gyfathrebu'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc trwy gyfrwng eu hysgolion, a hefyd bwriadwn ymgysylltu â'r Bwrdd Cynghori ar Hawliau Plant.

## 7. Monitro ac Adolygu

---

[25] Ein cynllun i sicrhau dyfodol cynaliadwy yng Nghymru - Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl – Hawdd i'w Ddarllen

[26] Egwyddorion amgylcheddol, trefniadau llywodraethu a thargedau bioamrywiaeth: Papur Gwyn | LLYW.CYMRU

Bydd y Bil hwn yn cael ei gyflwyno yn y Senedd yn ystod y tymor presennol. Ar ôl rhoi'r Bil ar waith, bydd yn cael ei fonitro, ei werthuso a'i adolygu'n rheolaidd. Hefyd, bydd y Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant yn cael gwybod y diweddaraf er mwyn adlewyrchu unrhyw is-ddeddfwriaeth neu ganllawiau a gyflwynir.

Ymhellach, mae'r Bil yn cyflwyno adroddiad gwerthuso (Adran X) sy'n canolbwyntio ar asesu'r polisïau a bennir gan Weinidogion Cymru yn eu cynllun a gyhoeddwyd o dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Wrth asesu'r polisïau, bydd yr adroddiad yn ystyried sut cyflawnwyd y polisïau, pa mor effeithiol fuont o ran cyflawni'r targedau bioamrywiaeth, a pha un a ydynt yn cyflawni'r gwerth gorau am arian. Wrth gynnal yr asesiadau hyn, bydd swyddogion hefyd yn ystyried sut mae'r polisïau'n effeithio ar blant a phobl ifanc. Bydd canfyddiadau'r adroddiad hwn – sef adroddiad a lunnir bob tair blynedd – yn helpu i lywio gwaith asesu'n ymwneud â'r modd mae'r fframwaith targedau bioamrywiaeth yn effeithio ar blant a phobl ifanc.

# ATODIAD B – ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

1. **Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.**

Mae'r Bil yn ceisio ategu dyheadau Llywodraeth Cymru ynglŷn â diogelu'r amgylchedd a gwrthdroi colledion bioamrywiaeth. Wrth wneud hynny, bydd modd cael effaith gadarnhaol fawr ar ddinasyddion ledled Cymru, yn cynnwys y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Hefyd, yn anuniongyrchol, bydd hyn oll yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i 'bontio'n deg' oddi wrth economi'r gorffennol sy'n dibynnu ar danwyddau ffosil tuag at ddyfodol carbon isel newydd, lle byddwn yn symud tuag at Gymru lanach, gryfach a thecach, heb adael neb ar ôl.

Mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir bod Cymru yn teimlo effeithiau mawr yn sgil newid hinsawdd a digwyddiadau tywydd eithafol. Mae arbenigwyr yn cydnabod nad ffenomenon unigol yw newid hinsawdd; yn hytrach, ceir cysylltiad agos rhwng newid hinsawdd a systemau eraill y blaned, fel bioamrywiaeth, cylchoedd dŵr a defnydd tir.[27]

Ni fydd y risgiau iechyd a ddaw yn sgil newid hinsawdd yn cael eu dosbarthu'n deg ledled y DU, o ran lleoliad na chenhedlaeth. Efallai y bydd rhai bygythiadau, fel clefydau newydd a gludir gan fectorau, sychder a thanau gwyllt, yn taro rhanbarthau deheuol yn gyntaf. Bydd bygythiadau eraill, fel llifogydd a chynnydd yn lefel y môr, yn effeithio'n bennaf ar drefi arfordirol, ardaloedd tir isel a gorlifdiroedd. Bydd poblogaeth sy'n heneiddio yn dwysáu mwy fyth ar ba mor agored i niwed yw'r wlad i broblemau iechyd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd dros y degawdau nesaf. Bydd y risgiau hyn yn gwaethygu gwahaniaethau ac anghydraddoldebau iechyd sydd eisoes yn bodoli. Pobl â rheolaeth gyfyngedig dros eu

---

[27] PHW-Climate-Change-HIA-Summary-Report-Cymraeg-Final-10_2023.pdf

hamgylchedd, pobl â gallu cyfyngedig i addasu, neu bobl â gallu cyfyngedig i ymateb i fygythiadau newydd, yw'r rhai a fydd yn wynebu'r risg fwyaf, yn cynnwys plant, pobl hŷn, pobl anabl, pobl ddigartref ac unigolion sy'n byw mewn lleoliadau penodol fel carchardai, ysgolion, llety'r lluoedd arfog a chyfleusterau gofal cymdeithasol.[28]

O fewn y cyd-destun hwn yr aethom ati i ystyried manteision y cynigion – cynigion y credwn y bydd eu heffaith yn ddirfawr o ran iechyd unigolion a manteision i bobl sy'n gweithio yng Nghymru, yn ogystal â'r gymuned gyffredinol a chydlyniant cymdeithasol. Nid yw cydweddiad y manteision a nodir isod yn gyfyngedig o gofio natur hollbresennol y manteision a ddaw yn sgil amgylchedd iach.

Plant, pobl ifanc a phobl hŷn

- Trwy adfer a gwella natur, bydd modd darparu mynediad at fannau gwyrdd, gan annog pobl i fod yn fwy egnïol; yn ei dro, gall hyn leihau risgiau gordewdra, clefyd y galon a chyflyrau iechyd cronig eraill[29]
- Trwy gysylltu gyda natur a thrwy gymryd rhan mewn gweithgareddau amgylcheddol, gellir meithrin ymdeimlad o gymuned a gwerthoedd cyffredin ymhlith preswylwyr[30]
- Trwy gael mwy o wyrddni ac ansawdd aer gwell, gellir cynorthwyo i wella canlyniadau iechyd i bobl ifanc[31].

Aelwydydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol a theuluoedd un rhiant

---

[28] Health Effects of Climate Change in the UK: state of the evidence 2023 (publishing.service.gov.uk)

[29] (PDF) Urban green spaces and health - a review of evidence (researchgate.net)

[30] Interrelations between sense of place, organizational commitment, and green neighbourhoods - ScienceDirect

[31] Air pollution in the UK - position statement | RCPCH

- Cydymffurfio'n well â'r ddeddfwriaeth, gan ysgogi gwelliannau mewn ansawdd aer a dŵr; yn ei dro, bydd hyn yn arwain at leihau clefydau anadlol a chardiofasgwlaidd, ynghyd â phroblemau iechyd eraill sy'n gysylltiedig â dod i gysylltiad â llygredd[32]
- Trwy ddiogelu ac adfer ecosystemau, gellir darparu bywoliaeth gynaliadwy i gymunedau sy'n dibynnu ar adnoddau naturiol ar gyfer eu hincwm a'u diogeledd bwyd[33]
- Gall ecosystemau iach glustogi cymunedau rhag effeithiau trychinebau naturiol fel llifogydd, stormydd a sychder[34]. Er enghraifft, trwy leihau digwyddiadau llifogydd a ddaw i ran pobl, gellir lleihau costau yswiriant, a gall hynny arwain at effaith gadarnhaol ar aelwydydd â chyllideb gyfyngedig [35].
- Creu swyddi gwyrdd: trwy fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy, pysgodfeydd, coedwigaeth ac amaethyddiaeth gynaliadwy, ynghyd â diwydiannau ecogyfeillgar eraill, gellir creu swyddi newydd a rhoi hwb i dwf economaidd[36]

Pobl anabl

- Gellir dangos bod treulio amser yng nghanol natur yn helpu i leihau lefelau straen, ynghyd â lleihau gorbryder a gwella hwyliau – pethau sy'n arbennig o berthnasol i bobl anabl[37][38]

---

[32] Health matters: air pollution - GOV.UK (www.gov.uk)

[33] Economics of Ecosystems and Biodiversity teebweb.org

[34] download (undrr.org)

[35] JRC Publications Repository - Flood protection gap: evidence for public finances and insurance premiums

[36] Final Report - The Economics of Biodiversity: The Dasgupta Review - GOV.UK (www.gov.uk)

[37] Nature and mental health: An ecosystem service perspective | Science Advances

[38] Nurtured by nature

- Mae dod i gysylltiad â natur yn hyrwyddo manteision iechyd meddwl. Gall pobl ag anableddau symud elwa ar ymyriadau goddefol neu weithredol ac ymyriadau adsefydlu sy'n cynnwys rhyngweithio â natur.[39]

Cyflwynodd y Bil 'fframwaith gosod targedau' a fydd yn cyfrannu at ymateb Llywodraeth Cymru i Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal. Mae'r Fframwaith hwn yn mynd ati'n benodol i hyrwyddo cydraddoldeb, yn arbennig trwy gyfrwng ei nod i 'Rannu Manteision yn Deg', lle tynnir sylw at ddulliau teg o rannu'r manteision ariannol ac anariannol sy'n deillio o fioamrywiaeth.

Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ddiweddaru wrth i'r polisi gael ei roi ar waith. Isod, ystyrir yr effeithiau hyn ymhellach yn erbyn pob nodwedd warchodedig.

## 2. **Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig**:

### Oedran

Ar gyfer plant 0-18 oed a phobl ifanc 19-25 oed, awgryma'r dystiolaeth[40] eu bod yn unigryw o agored i effeithiau niwed amgylcheddol a newid hinsawdd. Mae eu cyrff a'u hymennydd, sy'n dal i ddatblygu, yn fwy agored i effeithiau niweidiol llygredd a digwyddiadau tywydd eithafol. Ymhellach, mae plant yn treulio mwy o amser yn yr awyr agored o gymharu ag oedolion, ac mae hyn yn golygu eu bod yn dod i fwy o gysylltiad â pheryglon amgylcheddol. Mae'r risgiau penodol yn cynnwys y canlynol:

---

[39] Access to Nature for People with Disabilities: Barriers, Challenges, and Opportunities | Center for Urban Policy Research - CUPR

[40] Climate change and child health: a scoping review and an expanded conceptual framework - The Lancet Planetary Health

- Mae plant yn fwy tebygol o ddatblygu cyflyrau anadlol, fel asthma a niwmonia, yn sgil llygredd aer[41]
- Gall newid hinsawdd darfu ar y gwaith o gynhyrchu a dosbarthu bwyd, gan arwain at ddiffyg diogeledd bwyd a chamfaethiad. Efallai na fydd plant yn cael y maethynnau y maent eu hangen i dyfu a datblygu'n iawn, a gall hyn esgor ar ganlyniadau gydol oes o ran eu hiechyd a'u llesiant[42]
- Gall digwyddiadau tywydd eithafol ddifrodi ysgolion a tharfu ar addysg. Efallai y bydd plant yn methu mynd i'r ysgol am nifer o resymau, yn cynnwys ysgolion wedi cau[43], llwybrau teithio anhygyrch i/o'r ysgol[44], gorfod helpu eu teuluoedd neu orfod chwilio am loches ddiogel. Gall hyn arwain at golli cyfleoedd dysgu a gall lesteirio cynnydd addysgol.
- Mae plant yn fwy tebygol o ddioddef straen seicolegol sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd. Efallai y byddant yn teimlo ofn, gorbryder ac anobaith ynglŷn â'r dyfodol.[45] Yna, gallai'r problemau emosiynol hyn amharu ar eu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol.

Gweler yr Asesiad llawn o'r Effaith ar Hawliau Plant yn Atodiad A i gael asesiad pellach o effeithiau'r darpariaethau ar blant.

Eisoes, mae gan Lywodraeth Cymru ystod o bolisïau a deddfwriaethau i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur ac i liniaru'r risgiau hyn. Mae'r cynigion i gymhwyso'r egwyddorion yn cryfhau mwy fyth ar y cyfle i roi mesurau diogelu amgylcheddol wrth galon a chraidd penderfyniadau a lliniaru mwy fyth ar y risgiau.

---

[41] Air quality and respiratory health in children - PMC (nih.gov)

[42] Maternal and Child Nutrition (thelancet.com)

[43] Dozens of school closures in Wales as snow and ice hit again - Wales Online

[44] Severe winter weather and flooding in schools and colleges | National Education Union

[45] Climate anxiety in children and young people and their beliefs about government responses to climate change: a global survey - The Lancet Planetary Health

Rôl Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru fydd sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol ehangach, yn ogystal â goruchwylio'r gyfraith honno o ran y modd y'i rhoddir ar waith ac o ran ei heffeithiolrwydd. Os na fydd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus Cymru yn bodloni eu dyletswyddau statudol mewn perthynas â'r amgylchedd, gellid achosi niwed amgylcheddol, a gallai hynny arwain at fethu â lliniaru'r risgiau hyn mwyach. O'r herwydd, byddai gan bobl ifanc fuddiant yn y modd y caiff awdurdodau cyhoeddus eu dwyn i gyfrif am gydymffurfio â'u dyletswyddau statudol mewn perthynas â'r amgylchedd.

Yn yr un modd, mae gan bobl ifanc fuddiant mewn deall yr ymrwymiad i adfer bioamrywiaeth yng ngoleuni'r argyfyngau hinsawdd a natur. Trwy osod targedau bioamrywiaeth, dangosir pa mor gryf yw'r gefnogaeth ar gyfer gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth, a hefyd dangosir ymrwymiad cyhoeddus i weithredu.

Ein bwriad yw parhau i gasglu manylion a gwerthuso ein cynnig drwy gydol y broses weithredu. Bydd yr asesiad effaith hwn yn cael ei ddiweddaru pan ddaw tystiolaeth newydd i'r amlwg.

Yn achos y rhai sydd rhwng oedran pobl ifanc ac oedran ymddeol cyfartalog (25-64 oed), bydd y cynigion yn esgor ar fanteision iechyd a manteision cymdeithasol uniongyrchol, tebyg i'r rhai a nodir ar gyfer plant. Ymhellach, gan fod y grŵp hwn yn cynnwys pobl o 'oedran gweithio' yn bennaf, daw manteision arbennig i ran y grŵp hwn, yn cynnwys y canlynol:

- Trwy ddiogelu ac adfer ecosystemau, gellir darparu bywoliaeth gynaliadwy i gymunedau sy'n dibynnu ar adnoddau naturiol ar gyfer eu hincwm a'u diogeledd bwyd[46]
- Gall ecosystemau iach helpu i glustogi cymunedau, bywoliaeth ac asedau unigolion rhag effeithiau trychinebau naturiol, fel llifogydd, stormydd a sychder[47]
- Creu swyddi gwyrdd: Trwy fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy, pysgodfeydd, coedwigaeth ac amaethyddiaeth gynaliadwy, ynghyd â diwydiannau ecogyfeillgar eraill, gellir creu swyddi newydd a rhoi hwb i dwf economaidd[48]

Yn achos pobl hŷn (65 oed a hŷn), yn yr un modd â phlant, gall llygredd aer a dŵr arwain at effeithiau arbennig o niweidiol [49], yn benodol o ran clefydau anadlol a chardiofasgwlaidd. Trwy gryfhau mesurau diogelu amgylcheddol, gellir cael effaith gadarnhaol ar iechyd pobl hŷn. Ymhellach, dengys astudiaethau fod mynediad at fannau gwyrdd yn cynnig cyfle gwell i bobl hŷn ryngweithio'n gymdeithasol, a bod mannau gwyrdd hefyd yn lleihau straen ac yn gwella hwyliau pobl, ynghyd â'u gallu i ganolbwyntio, gan gyfrannu'n fawr at lesiant pobl hŷn.[50]

Nod y cynigion yw cryfhau'r Fframwaith Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru, a mynd i'r afael â cholledion bioamrywiaeth. Yn yr adran flaenorol, nodwyd y manteision a ddarperir gan fioamrywiaeth a'r amgylchedd i bob grŵp oedran yn y gymdeithas. Bydd cyflwyno Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn cynnig llwybr uwchgyfeirio i'r cyhoedd ar gyfer cyflwyno cwynion ynglŷn ag achosion posibl o dorri rheolau amgylcheddol.

---

[46] Economics of Ecosystems and Biodiversity teebweb.org

[47] download (undrr.org)

[48] Final Report - The Economics of Biodiversity: The Dasgupta Review - GOV.UK (www.gov.uk)

[49] The effects of air pollution on hospitalizations for cardiovascular disease in elderly people in Australian and New Zealand cities - PubMed (nih.gov)

[50] Urban Green Space and Subjective Well-Being of Older People: A Systematic Literature Review - PMC (nih.gov)

Hefyd, byddwn yn sicrhau bod yr ymgynghoriad ar gyfer targedau mewn is-ddeddfwriaeth yn gwbl hygyrch i bobl o bob oedran, yn unol â safonau hygyrchedd Llywodraeth Cymru[51].

Anabledd

Gyda'i gilydd, bydd yr Egwyddorion Amgylcheddol a Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn chwarae rôl allweddol o ran sicrhau y caiff deddfwriaeth amgylcheddol ei rhoi ar waith yn briodol yng Nghymru. Mae'r Egwyddorion Amgylcheddol yn llywio'r gwaith o ddatblygu polisïau, gan gyfrannu at amcan cyffredinol Lywodraeth Cymru, sef diogelu'r amgylchedd. Yn ei dro, bydd hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar bobl anabl, fel y nodir isod.

Trwy ddiogelu ansawdd aer a dŵr glân, gellir lleihau problemau anadlol a phroblemau'n ymwneud a'r system imiwnedd; gallai hyn oll fod o fudd mawr i unigolion ag amhariadau neu gyflyrau iechyd sy'n effeithio ar y systemau hynny. Ymhellach, dangosir bod mannau gwyrdd yn helpu i leihau straen, ynghyd â gwella hwyliau a hyrwyddo gweithgarwch corfforol – elfennau sydd o fudd i iechyd corfforol a meddyliol pawb, yn cynnwys pobl anabl.

Bydd yn ofynnol i Lywodraethiant Amgylcheddol Cymru gynnwys amrywiaeth o arbenigwyr â chefndiroedd a safbwyntiau gwahanol. Disgwylir i gadeirydd y corff ddangos ymrwymiad i egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth, a bydd disgwyl iddo gyflawni yn erbyn yr egwyddorion hynny. Wrth benodi'r cadeirydd a'r bwrdd, byddwn yn targedu sectorau a sefydliadau'n rhagweithiol, megis Anabledd Cymru, ac Anabledd Dysgu Cymru, er mwyn tynnu eu sylw at gyfleoedd cyflogaeth. Disgwylir i'r corff gynnal y dull hwn wrth gyflogi pobl ar gyfer y sefydliad. Hefyd, dylid ystyried defnyddio gwasanaethau Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl er mwyn gwella'r dull recriwtio cynhwysol. Disgwylir y bydd y broses penodiadau cyhoeddus yn cael ei defnyddio wrth benodi aelodau'r bwrdd. Mae Llywodraeth Cymru yn Arweinydd Hyderus o ran Anabledd, a thrwy'r broses penodiadau cyhoeddus rydym wedi ymrwymo i gyfweld pob ymgeisydd ag amhariad, pob ymgeisydd â chyflwr iechyd, pob ymgeisydd niwrowahanol neu bob ymgeisydd sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, os byddant yn bodloni meini prawf sylfaenol y rôl.

---

[51] Safonau hygyrchedd ar gyfer LLYW.CYMRU | LLYW.CYMRU

Wrth i'r Bil a'r polisïau perthynol ddatblygu, byddwn yn parhau i ymgysylltu'n rhagweithiol â phobl anabl, gan ddarparu dulliau cyfathrebu hygyrch fel rhan o'n gwaith ymgynghori parhaus gyda'r grŵp allweddol hwn o randdeiliaid. Bydd yr adborth hwn yn llywio'r gwaith o ddatblygu'r asesiad effaith hwn yn y dyfodol.

Ailbennu Rhywedd (y broses o newid rhyw a phobl Drawsryweddol)

Mae diogelu'r amgylchedd yn ategu llesiant pobl drawsryweddol. Bydd pawb, yn cynnwys unigolion trawsryweddol, yn elwa ar y manteision iechyd corfforol a meddyliol sy'n gysylltiedig â mynediad at natur. Gall rhagor o lygredd a newid hinsawdd effeithio'n anghymesur ar gymunedau a ymyleiddiwyd, yn cynnwys unigolion LHDTC+, a all wynebu effeithiau gwaeth yn sgil gwahaniaethau mewn tai[52] neu wahaniaethu mewn cyflogaeth[53]. Trwy ddiogelu a gwella'r amgylchedd, bydd modd lleihau'r risgiau iechyd hyn i bawb, yn cynnwys pobl drawsryweddol.

Sylweddolwn fod profiadau pobl drawsryweddol yn amrywio, ac y gall materion amgylcheddol effeithio arnynt mewn gwahanol ffyrdd gan ddibynnu ar ffactorau fel hil, dosbarth a daearyddiaeth. Fodd bynnag, trwy gydnabod y cydgysylltiad rhwng cyfiawnder amgylcheddol a hawliau LHDTC+, gellir creu cyfleoedd ar gyfer cydsafiad ehangach, gan gydnabod bod yr amgylchedd yn rhywbeth i bawb, ni waeth be fo eich hunaniaeth, eich hil neu eich nodwedd.

Beichiogrwydd a mamolaeth

Bydd mesurau sy'n anelu at ddiogelu mwy ar yr amgylchedd o fudd i bobl feichiog a'u babanod sy'n datblygu, a bydd mesurau o'r fath yn effeithio ar eu hiechyd uniongyrchol nhw ac ar lesiant hirdymor eu plant. Nodir yr effeithiau penodol ar blant yn yr asesiad o'r nodwedd 'oedran'.

---

[52] LGBTQ+ and Homelessness - Statistics and Support | Crisis UK

[53] lgbt_in_britain_work_report.pdf (stonewall.org.uk)

Mae unigolion beichiog yn fwy agored i effeithiau niweidiol llygredd aer a dŵr, a allai arwain at bwysau geni isel a geni cyn amser, yn ogystal â chynyddu'r risg y bydd babanod ar eu prifiant yn dioddef problemau anadlol.[54][55] Mae modd i ddŵr halogedig beri i fenywod beichiog a'u ffetysau ddod i gysylltiad â microblastigau, tocsinau a metelau trwm, gan effeithio ar ddatblygiad y ffetws a chan achosi problemau iechyd fel namau geni[56].

Hil gan gynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid)

Dengys ymchwil Llywodraeth y DU[57] fod pobl mewn grwpiau ethnig 'nad ydynt yn wyn' yn fwy tebygol o fod ar incwm isel parhaus. Yn aml, mae cymunedau ar incwm isel yn wynebu baich anghymesur mewn perthynas â pheryglon amgylcheddol[58], yn cynnwys dod i gysylltiad â llygredd aer a dŵr sy'n deillio o gyfleusterau diwydiannol, byw wrth ymyl safleoedd gwastraff peryglus, a diffyg mynediad at ddŵr yfed glân a mannau gwyrdd. Mae'r ffactorau hyn yn cyfrannu at fwy o broblemau iechyd fel asthma, canser a chlefyd y galon yn y cymunedau hyn. Bydd cyflwyno Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn cynnig llwybr ychwanegol ar gyfer cywiro achosion o dorri cyfraith amgylcheddol, gan gyfrannu at gyfraddau cysylltiad is.

---

[54] Effect of environmental air pollutants on placental function and pregnancy outcomes: a molecular insight | Environmental Science and Pollution Research

[55] Exposure to drinking water pollutants and non-syndromic birth defects: a systematic review and meta-analysis synthesis | BMJ Open

[56] Interactions Between Microplastic and Heavy Metals in the Aquatic Environment: Implications for Toxicity and Mitigation Strategies | Water, Air, & Soil Pollution

[57] Persistent low income - GOV.UK Ethnicity facts and figures (ethnicity-facts-figures.service.gov.uk)

[58] Disparities in the Impact of Air Pollution | American Lung Association

Bydd yr Egwyddorion Amgylcheddol, sy'n llywio datblygiad y polisi, yn helpu Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r orgynrychiolaeth o grwpiau ethnig lleiafrifol yn yr ardaloedd mwyaf amddifad o ran ansawdd aer, mannau gwyrdd a pherygl llifogydd [59]. Trwy wreiddio gofyniad i roi ystyriaeth arbennig i'r egwyddorion wrth droi polisïau'n ddeddfwriaeth, gall Llywodraeth Cymru sicrhau yr ystyrir yr effeithiau ar fesurau diogelu amgylcheddol mor gynnar â phosibl yn y broses, a bydd hyn yn ei dro yn ysgogi canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol fel gwella ansawdd yr aer, cynyddu mynediad at fannau gwyrdd a lliniaru perygl llifogydd. Yn hyn o beth, bydd yr egwyddorion yn hyrwyddo cyfiawnder amgylcheddol ac yn cyfrannu at leihau gwahaniaethau iechyd ymhlith cymunedau ethnig lleiafrifol.

Crefydd, cred a diffyg cred

Mae gwella bioamrywiaeth yn cael effaith fawr ar grefyddau'r Gorllewin, yn enwedig yn y traddodiad Iddewig-Cristnogol. Yn aml, mae'r crefyddau hyn yn pwysleisio'r cysyniad sydd ynghlwm wrth stiwardiaeth, lle ystyrir bod bodau dynol yn 'gofalu' am greadigaeth Duw. Mae gwella bioamrywiaeth, a ysgogir gan ymdrechion adfer taerach a gaiff eu sbarduno gan y fframwaith 'gosod targedau bioamrywiaeth', yn cyd-fynd â'r etheg 'stiwardiaeth'. Mae'r etheg hon yn annog credinwyr i ddiogelu a gwarchod byd natur fel archiad dwyfol.[60] Mae'r safbwynt hwn mewn perthynas â stiwardiaeth yn amlwg mewn amryfal athrawiaethau ac arferion crefyddol sy'n hyrwyddo'r arfer o warchod popeth byw fel ffordd o barchu'r Creawdwr.[61] Bydd yr Egwyddorion Amgylcheddol, sy'n llywio datblygiad y polisi hwn, yn cael effaith gadarnhaol ar stiwardiaeth trwy gyfrannu at amcan cyffredinol

---

[59] Adroddiad tystiolaeth gwrth-hiliol Cymru: profiad o hiliaeth yn ymwneud â newid hinsawdd, yr amgylchedd a materion gwledig [HTML] | LLYW.CYMRU

[60] A Study of Religious Perspectives on Biodiversity and the Environment

[61] Faith and Biodiversity | UNEP - UN Environment Programme

Llywodraeth Cymru, sef diogelu'r amgylchedd. Ymhellach, trwy gynyddu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o fioamrywiaeth – sef rhywbeth y gellir ei wneud trwy godi ymwybyddiaeth o'r fframwaith 'gosod targedau bioamrywiaeth' – bydd modd arwain at gysylltiad ysbrydol dyfnach â natur, gan feithrin ymdeimlad o barch a gwerthfawrogiad sy'n gwbl ganolog i nifer o brofiadau crefyddol[62]. Yn ogystal ag atgyfnerthu ymddygiad amgylcheddol moesegol, mae'r safbwynt cyfannol hwn yn cyfoethogi llesiant ysbrydol unigolion trwy dynnu sylw at y cydgysylltiad rhwng popeth byw.

Daethpwyd o hyd i lenyddiaeth gyfyngedig mewn perthynas ag effeithiau mesurau diogelu amgylcheddol ar gredau crefyddol.

<u>Rhyw a Rhywedd</u>

Disgwylir y bydd y cynigion ar gyfer y fframwaith 'gosod targedau bioamrywiaeth' yn cael effaith gadarnhaol ar ryw a rhywedd, gan gydnabod y gallai effeithiau llygredd anghymesur ddod i ran pobl sy'n gweithio mewn mannau awyr agored.[63] Yn ôl pob tebyg, byddai'r effeithiau hyn yn deillio o'r maes blaenoriaeth 'lleihau llygredd' ar gyfer gosod targedau a gynhwysir yn y ddarpariaeth.

Mae'r Egwyddorion Amgylcheddol yn cynnwys yr egwyddor mai'r 'llygrwr sy'n talu', a bydd hyn yn ysgogi'r arfer o leihau llygredd. Bydd yr egwyddor hon yn berthnasol i lygredd o bob math, a gall wella canlyniadau iechyd yn fawr i fenywod sydd, yn aml, oherwydd ffactorau biolegol ac economaidd-gymdeithasol, yn fwy agored i halogyddion a gludir gan ddŵr. Er enghraifft, gall dŵr glanach leihau'r siawns o ddod i gysylltiad â chemegau sy'n

---

[62] Biodiversity and Spiritual Well-being - SpringerLink

[63] Long-term exposure to NO2 and PM10 and all-cause and cause-specific mortality in a prospective cohort of women - PubMed (nih.gov)

ymyrryd â'r endocrinau – sef cemegion sydd wedi'u cysylltu ag ymyrryd â hormonau a phroblemau iechyd atgenhedlu[64].

Cyfeiriadedd rhywiol (LHDC+)

Bydd y manteision iechyd corfforol a meddyliol sy'n gysylltiedig â mynediad at natur o fudd i bawb, yn cynnwys unigolion lesbiaidd, hoyw a deurywiol. Gall rhagor o lygredd a newid hinsawdd effeithio'n anghymesur ar gymunedau a ymyleiddiwyd, yn cynnwys unigolion LHDTC+, a all wynebu effeithiau gwaeth yn sgil gwahaniaethau mewn tai[65] neu wahaniaethu mewn cyflogaeth[66]. Trwy ddiogelu a gwella'r amgylchedd, bydd modd lleihau'r risgiau iechyd hyn i bawb, yn cynnwys y gymuned LHDTC+.

Sylweddolwn fod profiadau pobl LHDTC+ yn amrywio, ac y gall materion amgylcheddol effeithio arnynt mewn gwahanol ffyrdd gan ddibynnu ar ffactorau croestoriadol fel hil, dosbarth a daearyddiaeth. Fodd bynnag, trwy gydnabod y cydgysylltiad rhwng cyfiawnder amgylcheddol a hawliau LHDTC+, gellir creu cyfleoedd ar gyfer cydsafiad ehangach, gan gydnabod bod yr amgylchedd yn rhywbeth i bawb, ni waeth be fo eich hunaniaeth, eich hil neu eich nodwedd.

Bydd yn ofynnol i Lywodraethiant Amgylcheddol Cymru gynnwys amrywiaeth o arbenigwyr â chefndiroedd a safbwyntiau gwahanol. Disgwylir i gadeirydd y corff ddangos ymrwymiad i egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth, a bydd disgwyl iddo gyflawni yn erbyn yr egwyddorion hynny. Disgwylir y bydd y broses penodiadau cyhoeddus yn cael ei defnyddio wrth benodi aelodau'r bwrdd.

---

[64] Drinking water and the implications for gender equity and empowerment: A systematic review of qualitative and quantitative evidence

[65] LGBTQ+ and Homelessness - Statistics and Support | Crisis UK

[66] lgbt_in_britain_work_report.pdf (stonewall.org.uk)

Priodas a phartneriaeth sifil

Rydym wedi ystyried priodas a phartneriaeth sifil ac ar hyn o bryd nid ydym wedi pennu unrhyw oblygiadau'n ymwneud â gwahaniaethu anghyfreithlon mewn perthynas â phriodas neu bartneriaeth sifil o safbwynt y cynigion. Byddwn yn parhau i fonitro ac asesu'r effeithiau ar briodas a phartneriaethau sifil wrth i'r cynigion hyn gael eu rhoi ar waith.

Aelwydydd incwm isel

Yn aml, mae cymunedau incwm isel yn wynebu baich anghymesur mewn perthynas â pheryglon amgylcheddol[67]. Gall peryglon o'r fath gynnwys dod i gysylltiad â llygredd aer a dŵr sy'n deillio o gyfleusterau diwydiannol, byw wrth ymyl safleoedd gwastraff peryglus, a diffyg mynediad at ddŵr yfed diogel a mannau gwyrdd. Mae'r ffactorau hyn yn cyfrannu at fwy o broblemau iechyd fel asthma, canser a chlefyd y galon yn y cymunedau hyn.

Bydd cryfhau mesurau diogelu amgylcheddol o fudd i'r cymunedau hyn trwy leihau mwy ar effeithiau a thebygolrwydd y peryglon amgylcheddol hyn. Ceir rhagor o fanylion yn yr Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol. Ystyrir effeithiau penodol ar gymunedau gwledig, incwm isel yn yr Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig.

Cyfansoddiad Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru – Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig:

Bydd yn ofynnol i Lywodraethiant Amgylcheddol Cymru gynnwys amrywiaeth o arbenigwyr â chefndiroedd a safbwyntiau gwahanol. Disgwylir i gadeirydd y corff ddangos ymrwymiad

[67] Disparities in the Impact of Air Pollution | American Lung Association

i egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth, a bydd disgwyl iddo gyflawni yn erbyn yr egwyddorion hynny. Disgwylir y bydd y broses penodiadau cyhoeddus yn cael ei defnyddio wrth benodi aelodau'r bwrdd. Byddwn yn targedu sectorau a sefydliadau'n rhagweithiol er mwyn codi eu hymwybyddiaeth a thynnu eu sylw at gyfleoedd cyflogaeth.

## 3. Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

**A fydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl yn eich barn chi?**

Yn ôl ein hasesiad cychwynnol, mae'r cynigion yn cyd-fynd â hawliau confensiwn y Cenhedloedd Unedig ac nid ydynt yn cael effaith negyddol ar hawliau dynol pobl. Yn anuniongyrchol, efallai y bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol mewn perthynas â'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol [68], sy'n cynnwys:

- yr hawl i weithio mewn amodau teg a ffafriol
- yr hawl i gael amddiffyniad cymdeithasol, safonau byw digonol, a'r safonau llesiant corfforol a meddyliol uchaf sydd o fewn cyrraedd;

Yn ein tyb ni, mae'r erthyglau canlynol yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn arbennig o berthnasol, yn y ffyrdd canlynol:

- Erthygl 25 – Iechyd: Effeithiau anuniongyrchol trwy gyfrwng y manteision iechyd a fydd yn deillio o ddarpariaethau'r Bil mewn perthynas â lleihau llygredd, fel y nodwyd eisoes.

[68] http://www.ohchr.org/EN/ProfessionalInterest/Pages/CESCR.aspx

- Erthygl 28 – Safonau Byw Digonol ac Amddiffyniad Cymdeithasol: Effeithiau uniongyrchol yn sgil goruchwyliaeth fanylach ar reoliadau amgylcheddol a gaiff eu creu gan Lywodraethiant Amgylcheddol Cymru.
- Erthygl 30 – Cymryd rhan mewn bywyd diwylliannol, gweithgareddau hamdden a chwaraeon: Effeithiau anuniongyrchol yn sgil y gwelliannau polisi a ysgogir trwy fabwysiadu'r Egwyddorion Amgylcheddol a thrwy'r camau adfer natur a ysgogir gan y fframwaith 'gosod targedau bioamrywiaeth'.

## 4. Hawliau Dinasyddion yr UE/AEE a'r Swistir

**4.1 Preswylio – yr hawl i breswylio a hawliau eraill sy'n ymwneud â phreswylio: hawliau i adael gwlad a dod i mewn iddi, ceisiadau am statws preswylydd, cyfyngiadau ar hawliau i ddod i mewn i wlad a phreswylio;**

Ar hyn o bryd, ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith. Ond bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu drwy gydol y broses weithredu.

**4.2 Cydnabod cymwysterau proffesiynol yn gilyddol – parhau i gydnabod cymwysterau proffesiynol a enillwyd gan ddinasyddion yr UE/AEE/y Swistir yn eu gwledydd (ac a gydnabyddir eisoes yn y DU);**

Ar hyn o bryd, ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith. Ond bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu drwy gydol y broses weithredu.

**4.3 Mynediad at systemau nawdd cymdeithasol – mae'r rhain yn cynnwys budd-daliadau, mynediad at addysg, tai a mynediad at ofal iechyd;**

Ar hyn o bryd, ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith. Ond bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu drwy gydol y broses weithredu.

**4.4 Triniaeth gyfartal – mae hyn yn cwmpasu dim gwahaniaethu, triniaeth gyfartal a hawliau gweithwyr;**

Ar hyn o bryd, ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith. Ond bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu drwy gydol y broses weithredu.

**4.5 Hawliau gweithwyr – Ar y cyfan, gwarantir yr un hawliau i weithwyr a phobl hunangyflogedig sy'n dod o fewn cwmpas y Cytundebau Hawliau Dinasyddion ag a oedd ganddynt pan oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth. Mae ganddynt yr hawl i beidio â dioddef gwahaniaethu oherwydd cenedligrwydd a'r hawl i gael eu trin yn gyfartal â gwladolion y DU.**

Ar hyn o bryd, ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith. Ond bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu drwy gydol y broses weithredu.

# ATODIAD C ASESIAD EFFAITH PRAWF GWLEDIG

Ein hamcanion polisi ar gyfer y Bil arfaethedig yw ategu a gwella'r fframwaith polisi a deddfwriaeth amgylcheddol bresennol drwy wneud y canlynol:

IV. Gwreiddio cyfres o Egwyddorion Amgylcheddol yng nghyfraith Cymru, a fydd yn cael eu hystyried wrth wraidd penderfyniadau llunio polisïau a chynigion deddfwriaethol.

V. Sefydlu Corff Llywodraethiant amgylcheddol newydd, a fydd yn goruchwylio effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol yng Nghymru, yn ogystal â dwyn awdurdodau cyhoeddus Cymru i gyfrif am unrhyw ddiffyg cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, gan gynnwys trwy gamau gorfodi.

VI. Creu fframwaith gosod targedau, sy'n cynnwys targedau bioamrywiaeth effeithiol a osodir drwy is-ddeddfwriaeth a chynllun adrodd a gwerthuso cadarn; gan sicrhau ein bod yn cymryd camau gweithredol i ddiogelu ac adfer bioamrywiaeth ledled Cymru.

Gyda'i gilydd, bydd y cynigion yn sbarduno gweithredu wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur trwy sbarduno gwelliant amgylcheddol o uchelgais a chreu polisi hyd at ddarparu trosolwg o'r holl ddeddfwriaeth amgylcheddol.

**1. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar bobl, busnesau a chymunedau gwledig.**

**Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar fywydau pobl wledig, naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol? Er enghraifft, fel defnyddwyr gwasanaethau, gweithwyr a defnyddwyr.**

- Mae'r Bil hwn, yn enwedig yr adran ar y targed bioamrywiaeth, yn ceisio darparu mecanwaith i osod targedau sy'n gyfreithiol rwymol i yrru'r gwaith o adfer bioamrywiaeth. Mae amcangyfrifon ar gyfer 2024 yn dangos bod 90%[69] a mwy o arwynebedd tir Cymru yn cael ei drosglwyddo i ddefnydd tir amaethyddol. Mae hyn yn cynnwys 1,775,200 hectar o dir ar ddaliadau a 180,300 hectar o dir pori **garw** cyffredin.

[69] Arolwg o'r Cyfrifiad Amaethyddiaeth a Garddwrol: Mehefin 2024

O'r tir ar ddaliadau, mae 62% yn laswelltir parhaol ac mae 14% yn dir pori garw. Mae glaswelltiroedd, er enghraifft, yn darparu gwasanaethau ecosystem pwysig sydd hefyd yn cynnig buddion lles i bobl[70], ac mae nifer o gynefinoedd glaswelltir penodol ar restr cynefinoedd blaenoriaeth Adran 7 y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu cyhoeddi o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'n debygol felly y bydd y targedau statudol a'r polisïau ategol yn gweithio i wella bioamrywiaeth yn y cynefinoedd hyn a chynefinoedd eraill sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd o dan ddefnydd tir amaethyddol. Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn gwneud darpariaethau i gefnogi Rheolwyr Tir i gefnogi'r gwaith o gynnal a gwella bioamrywiaeth (Amcan 3 o'r amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM)) Gweler asesiad Rheoli Tir yn Gynaliadwy (Tudalen 13)

- Mae bioamrywiaeth yn sail i weithrediad ecosystemau ac mae cael lefelau iach o fioamrywiaeth yn sicrhau bod ecosystemau'n darparu'r gwasanaethau[71] (e.e. rheoleiddio cylch dŵr neu iechyd pridd) yr ydym i gyd yn dibynnu arnynt. Nod terfynol y cynigion o fewn adran targedau bioamrywiaeth y Bil, yw cynyddu bioamrywiaeth ledled Cymru. Mae'n debygol y bydd pobl ledled Cymru yn elwa yn gadarnhaol ar amgylchedd iachach ac ecosystemau sy'n gweithredu'n well. Mae amgylchedd iachach yn gwella mynediad pobl i fyd natur trwy ddarparu aer glanach, dŵr mwy diogel a mannau gwyrdd wedi'u cynnal yn dda, gan annog gweithgareddau awyr agored a meithrin cysylltiad dyfnach â'r byd naturiol. Gall gwell mynediad i fannau gwyrdd o ansawdd uchel wella cysylltiadau â manteision llesiant, e.e. lefelau straen is a gwell iechyd meddwl[72]. Bydd yn arwain hefyd at well gwasanaethau ecosystem y mae llawer o ddiwydiannau amaethyddol yn dibynnu arnynt[73]. Ar ben hynny, gallai hyn roi cyfle i fusnesau amaethyddol sy'n awyddus i archwilio opsiynau arallgyfeirio[74]. Gall rheoli ac adfer cynefinoedd allweddol yn effeithiol sicrhau buddion lluosog fel dal a storio carbon

---

[70] Grassland Biodiversity, Current Biology, 2021

[71] Biodiversity and ecosystem services: a multilayered relationship

[72] Nature and mental health: An ecosystem service perspective | Science Advances

[73] !!Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol: !! !!Asesu bioamrywiaeth!!

[74] !!Cyd-ddylunio Cynllun Ffermio Cynaliadwy Adroddiad terfynol !!

sy'n hanfodol wrth sicrhau cyflenwad dŵr y genedl, cynyddu gwytnwch cymunedol a seilwaith i ddigwyddiadau tywydd garw, yn ogystal â'r cyfle i wella cyfraniad i'r economi trwy ecodwristiaeth, hamdden awyr agored a chyrchfannau diwylliannol.

- Fodd bynnag, gall cyflwyno targedau gael effeithiau negyddol yn dibynnu ar y cynigion polisi penodol. Bydd effeithiau llawn y targedau hyn yn cael eu hystyried yn nogfennaeth ategol y rheoliadau**.**
- Prif bwrpas Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru fydd cynyddu effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru drwy sicrhau bod buddion arfaethedig y gyfraith yn cael eu gwireddu'n llawn. Yn ogystal â sicrhau bod deddfwriaeth yn cael ei gweithredu'n briodol, bydd yn nodi unrhyw faterion gyda sut y gweithredir cyfraith amgylcheddol hefyd ac yn cynghori Gweinidogion Cymru ar sut i'w cywiro, sut i atal tor rheolau drwy gael presenoldeb goruchwylio gweladwy fel bod awdurdodau cyhoeddus yn gwybod y byddant yn cael eu dwyn i gyfrif. Ni ragwelir unrhyw wahaniaeth o ran effeithiau a buddion ar gyfer y rheini mewn cymunedau gwledig o gymharu ag o gymunedau eraill yng Nghymru a ledled Cymru.
- Drwy ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru roi sylw arbennig i'r egwyddorion wrth lunio polisïau, bydd hyn yn sicrhau y bydd agweddau allweddol ar ddiogelu'r amgylchedd yn cael eu hystyried fel rhan annatod o'r gwaith o lunio polisïau. Bydd yn sicrhau bod yr holl bolisïau'n cael eu datblygu mewn ffordd sy'n ceisio osgoi niwed amgylcheddol, fel nad ydynt yn cyfrannu'n andwyol at yr argyfyngau hinsawdd a natur. Ni ragwelir unrhyw wahaniaeth o ran effeithiau a buddion ar gyfer y rheini mewn cymunedau gwledig o gymharu ag o gymunedau eraill yng Nghymru a ledled Cymru.

**A fydd mynediad yn broblem i bobl wledig? Os felly, beth fydd yn cael ei wneud i oresgyn rhwystrau o ran mynediad?**

O ran bioamrywiaeth, Gweinidogion Cymru fydd yn ysgwyddo'r prif faich o gyflawni'r cynigion yn y Bil. Gellir dynodi awdurdodau cyhoeddus eraill mewn rheoliadau targed a bydd effeithiau o'r fath yn cael eu hasesu yn y ddogfennaeth ategol. Bydd y cynllun adran 6, sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn nodi polisïau a chamau gweithredu a gymerir i gyflawni'r targedau, yn ogystal â mesurau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn eu gweithredu i gydymffurfio â'u dyletswydd adran 6. Bydd y polisïau hyn yn cael eu cefnogi gan ymgynghoriadau cyhoeddus a

fydd yn ystyried materion mynediad sy'n benodol i bolisïau. Er mwyn sicrhau bod pobl wledig **yn cael eu hysbysu o'r holl ddatblygiadau sy'n deillio o'r** ddeddfwriaeth hon, bydd yr holl ddatganiadau ac adroddiadau a gynhyrchir ar gael mewn sawl cyfrwng a byddant yn glynu wrth safon y Gymraeg ar gyfer dogfennau cyhoeddus. Wrth osod y targedau bioamrywiaeth statudol drwy is-ddeddfwriaeth, a'r canllawiau i gefnogi'r Egwyddorion Amgylcheddol, bydd Gweinidogion Cymru yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ac yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod llais pobl wledig yn cael ei glywed yn ddigonol.

Bydd Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru ei hun yn darparu llwybr mynediad at gyfiawnder i bob dinesydd (gan gynnwys pobl wledig) yn rhinwedd derbyn sylwadau a wneir gan unrhyw bersonau mewn perthynas ag effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol, neu ddiffyg cydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus â chyfraith amgylcheddol. Bydd gofyn i Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru ddilyn safonau'r Gymraeg mewn perthynas â'i ymgysylltiad â'r cyhoedd, gan gynnwys ei ddogfennau cyhoeddus.

**Sut y mae'r cynnig wedi ystyried anghenion pobl cefn gwlad e.e. y boblogaeth hŷn, diffyg tai fforddiadwy, gofynion ieithyddol?**

- Yn ystod yr ymgynghoriad, cafodd barn pobl hŷn a siaradwyr Cymraeg eu ceisio yn bwrpasol gan yr ymchwilwyr trydydd parti a gyflogwyd i ofyn am farn allanol ar gynigion y polisi. Recriwtiodd yr ymchwilwyr nifer o siaradwyr Cymraeg i weithdy ar-lein gyda chyfle i’r cyfranogwyr roi adborth ar gynigion y polisi. Ymgorfforwyd canlyniadau'r gweithdy hwn yn yr adroddiad ymgynghori yr oedd Llywodraeth Cymru yn ymateb yn swyddogol iddo. Ym mharagraff 10, gellir dod o hyd i ragor o fanylion ar sut y cafodd cynigion polisi eu teilwra i ymateb i bryderon pobl wledig.

**A yw’n ofynnol prynu neu ddefnyddio tir o dan y polisi? A ydych wedi ystyried ffactorau gwledig fel gwerth tir, faint ohono sydd ar gael neu ddynodiadau cyfyngol?**

- Nid yw darpariaethau'r Bil ynghylch yr Egwyddorion Amgylcheddol yn ei gwneud yn ofynnol prynu neu ddefnyddio tir.
- Bydd Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn gorff newydd a sefydlwyd yng Nghymru, ac o'r herwydd bydd angen digon o ofod swyddfa arno i weithredu'n

effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r polisi yn ei gwneud yn ofynnol prynu neu ddefnyddio tir at y diben hwn, a bydd yr opsiynau'n cael eu hystyried wrth eu gweithredu er mwyn archwilio cydleoli a defnyddio gofod swyddfa presennol at ddibenion y corff.

- Ni fydd darpariaethau'r Bil ar fioamrywiaeth yn ei gwneud yn ofynnol prynu tir. Fodd bynnag, gall is-ddeddfwriaeth a grëwyd drwy'r fframwaith hwn arwain at newidiadau i ddefnydd a rheolaeth tir. Yn ogystal, o ystyried ymrwymiad presennol y Gweinidog i ddiogelu 30 y cant o'n tir, ein dŵr a'n moroedd erbyn 2030, mae'n debygol y bydd y fframwaith yn arwain at ddynodi rhagor o safleoedd gwarchodedig. Fodd bynnag, bydd effaith rhagor o ddynodiadau yn cael ei hystyried os cyflwynir yr is-ddeddfwriaeth berthnasol neu pan ymgynghorir arni.

A yw’r cynnig yn berthnasol i fusnesau bach a chanolig neu i ficrofusnesau? Os felly, sut ydych chi wedi ystyried eu sefyllfa hwy? A yw’r cynnig yn disgwyl i fusnesau allu cael mynediad at gymorth? (Gall hyn fod ar ffurf cyngor, hyfforddiant, cyllid ac ati.) Os ydyw, pa rwystrau y bydd busnesau gwledig yn eu hwynebu a sut y caiff y rhwystrau hyn eu goresgyn?

- **Bydd prif faich cyflawni'r cynigion yn y Bil yn fater i Weinidogion Cymru.**

Er bod yr un rhesymau wrth wraidd tlodi mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol, gallai’r profiad o amddifadedd fod yn wahanol mewn ardaloedd gwledig. Tlodi tanwydd (gan gynnwys tanwydd gwresogi a thanwydd trafnidiaeth), tlodi mewn gwaith, mynediad at wasanaethau ac allgáu digidol yw rhai o’r prif faterion sy’n cyfrannu at dlodi mewn ardaloedd gwledig. Sut mae eich cynnig yn helpu i drechu tlodi mewn ardaloedd gwledig?

Disgwylir i'r cynigion sy'n gysylltiedig â llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol gael effaith gymedrol, anuniongyrchol a chadarnhaol ar unigolion a chymunedau gwledig, gan gynnwys cefnogi trechu tlodi. Byddant o fudd i bobl sy'n byw ac yn gweithio mewn ardaloedd llai poblog trwy gryfhau'r fframweithiau amgylcheddol sy'n darparu bywoliaethau cynaliadwy i gymunedau sy'n dibynnu ar adnoddau naturiol am eu hincwm a'u diogelwch bwyd

- Ymhellach, bydd amgylchedd naturiol iach a chynaliadwy yn gwella'r broses o greu swyddi gwyrdd a buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy, amaethyddiaeth a choedwigaeth gynaliadwy, a diwydiannau ecogyfeillgar eraill. Bydd hyn yn arbennig o bwysig mewn mannau gwledig a gwyrdd presennol.

- Fodd bynnag, disgwylir i'r effeithiau hyn fod yn anuniongyrchol yn bennaf oherwydd bydd yr effaith i'w gweld ar bolisïau a deddfwriaethau presennol (trwy gymhwyso'r egwyddorion) a sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth (trwy Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru)
- Bydd y darpariaethau bioamrywiaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod targedau er mwyn atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth. I wneud hynny, bydd angen i Weinidogion Cymru ac Awdurdodau Cyhoeddus ymgysylltu â thirfeddianwyr a rheolwyr safleoedd gwarchodedig ledled Cymru. Mewn ymdrech i adfer ein tirwedd naturiol, mae cyfle i gynyddu swyddi gwyrdd ar gyfer ymyriadau tirwedd, cynyddu gwaith monitro amgylcheddol a chael rhagor o staff rheoli er enghraifft. O ystyried y patrymau yng Nghymru o ran defnyddio tir, bydd cyfran fawr o'r ymyriadau hyn wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig. Felly, mae'n debygol y gallai camau a gymerir i gyflawni'r targedau ddarparu mwy o gyflogaeth a hyfforddiant sgiliau i ardaloedd gwledig Cymru. Bydd y camau gweithredu penodol, a'u heffeithiau, yn cael eu hasesu drwy'r polisïau a'r rheoliadau dilynol. Mae'r canlyniad hwn yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru hefyd i feithrin yr economi werdd ac ehangu'r gwaith o greu swyddi gwyrdd yng Nghymru a nodir yng Nghynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net[75].
- Adlewyrchir pwysigrwydd gwybodaeth leol wrth gyflawni dros fioamrywiaeth yng ngeiriad Fframwaith[76] Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal a Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Frodorol[77]. Mae'r ddau ohonynt yn cydnabod pwysigrwydd ymgorffori gwybodaeth leol gyda dulliau sy'n cael eu gyrru gan ddata. Bydd gan fusnesau bach a chanolig ran hanfodol wrth gefnogi'r gwaith ar lawr gwlad o gyflawni'r polisïau a fydd yn cael eu creu gan y Bil hwn. Er bod y cynigion yn y Bil hwn yn canolbwyntio ar bolisïau ar lefel genedlaethol, byddant yn cael eu cyflawni'n lleol. Bydd Awdurdodau Cyhoeddus, tirfeddianwyr a rheolwyr tir yn dibynnu ar wybodaeth draddodiadol a dealltwriaeth leol busnesau bach a chanolig gwledig wrth gyflawni eu hymrwymiadau o dan y targedau bioamrywiaeth.

---

[75] Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net Llywodraeth Cymru

[76] Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal

[77] Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Frodorol

Pa gyswllt fu rhyngoch a rhanddeiliaid gwledig? Disgrifiwch yn fras unrhyw ddigwyddiadau sydd wedi'u targedu at randdeiliaid gwledig neu unrhyw ymgysylltu a fu rhyngoch chi a rhanddeiliaid gwledig er mwyn ymgynghori â hwy. A godwyd unrhyw faterion eraill yn sgil ymgysylltu â rhanddeiliaid neu unrhyw ymgynghoriad ynghylch y cynnig hwn? Os do, beth oedd y materion hynny a sut ydych chi wedi diwygio eich cynnig i'w cadw mewn cof?

- Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliodd ymchwilydd trydydd parti ddau weithdy personol i gael adborth ar gynigion y polisi (yn ogystal â thri gweithdy ar-lein arall) gan gymunedau penodol, gan gynnwys cymunedau gwledig. Wrth recriwtio ar gyfer y gweithdai wyneb yn wyneb hyn, targedwyd yn benodol y lleisiau na chlywir yn aml mewn ardaloedd gwledig, pobl hŷn a defnyddwyr nad ydynt wedi ymuno â'r byd digidol. Gellir dod o hyd i'r manylion llawn yn y Crynodeb o'r Ymatebion o'r Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethu a Thargedau bioamrywiaeth: Papur Gwyn[78].

| **Pwyntiau a godwyd yn y gweithdai** | **Ymateb** |
|---|---|
| **Egwyddorion Amgylcheddol – cost gweithredu** | Fel rhan o broses y Bil, mae swyddogion polisi wedi cynnal dadansoddiad cost a budd llawn er mwyn deall yn well y costau gweithredu. Gellir dod o hyd i ganlyniadau llawn y dadansoddiad hwn yn yr asesiad effaith rheoleiddiol. |
| **Corff Llywodraethiant – pa** gyrff cyhoeddus y dylai'r corff wneud cais iddynt | Mae'r Bil wedi egluro ei safbwynt ar yr awdurdodau cyhoeddus y dylai **Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru** eu goruchwylio drwy gyfeirio at y rhestr o awdurdodau cyhoeddus sydd o fewn cymwyseddau |

[78] Canlyniad ymgynghoriad – Egwyddorion Amgylcheddol, Targedau llywodraethu a bioamrywiaeth: Papur Gwyn

| | |
|---|---|
| | deddfwriaethol Gweinidogion Cymru fel yr awdurdodwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. |
| Corff Llywodraethiant – sut y bydd y corff yn gorfodi dyfarniadau heb ddirwy ariannol | Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n caniatáu pwerau gorfodi priodol i Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru. Trafodwyd maint y pwerau hyn yn helaeth gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid. Bydd Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn gallu cyfeirio unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio â'u hysbysiadau cydymffurfio i'r llysoedd hefyd, a fydd yn penderfynu pa gamau unioni y dylai'r awdurdod cyhoeddus eu cymryd, a all gynnwys cosbau ariannol. |
| Corff Llywodraethiant – dryswch ynghylch sut mae'r corff yn rhyngweithio â chyrff presennol ac a fyddai'r corff yn wirioneddol annibynnol | Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i sefydlu Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru a lefel briodol o annibyniaeth. Trafodwyd y darpariaethau hyn yn helaeth gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid. |
| Targedau Bioamrywiaeth – Cymorth ond pryder hefyd am uchelgais y prif darged. Rhai o'r pryderon yn cynnwys y ffaith nad oedd yn ddigon uchelgeisiol ond hefyd beth fyddai'n digwydd pe na bai'r targed yn cael ei gyrraedd. Roedd yna rywfaint o bryder | Tynnwyd prif darged yr uchelgais o'r cynigion oherwydd adborth tebyg cyson. Diben y fframwaith gosod targedau yn awr yw atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth, tra bod y darpariaethau yn eu cyfanrwydd yn cyd-fynd â **dyletswydd Adran 6** |

| | |
|---|---|
| hefyd ynghylch a oedd targed 2030 yn ymarferol neu a fyddai'n well ei nodi fel ymrwymiad i weithredu | presennol Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i gynnal a gwella bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau. |
| Targedau Bioamrywiaeth – Roedd y teimladau ynghylch y strategaeth yn gymysg o ystyried perfformiad canfyddedig Llywodraeth Cymru yn y gorffennol ar gyflawni ei strategaethau. | Gan gydnabod yr awydd am fwy o weithredu, mae’r cynigion wedi eu crynhoi o ran cylch gwaith i ganolbwyntio ar adran 6 a'i chyflawni'n effeithiol. Bydd cynllun Adran 6 nawr yn canolbwyntio ar nodi'r polisïau a'r camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni'r targedau bioamrywiaeth a grëwyd drwy is-ddeddfwriaeth. Er mwyn sicrhau y gellir cyflawni, mae'r Bil yn cyflwyno adroddiad sy'n gwerthuso effaith a gwerth am arian y polisïau sy'n ffurfio'r strategaeth. Bydd hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru, a'r cyhoedd, ddwyn i gyfrif y camau a gymerwyd drwy'r Bil a deall a yw'r camau hynny ar y trywydd iawn i gyflawni uchelgeisiau'r targedau. |
| Targedau Bioamrywiaeth – Pryderon ynghylch pa awdurdodau cyhoeddus sy'n gorfod cyfrannu at ba dargedau. Cafodd cymeradwyaeth bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus gyfrannu ei leddfu gan bryder mewn perthynas â | Y rhestr o awdurdodau cyhoeddus y mae'n rhaid iddynt ystyried y targedau bioamrywiaeth yw'r cyrff hynny y mae gan Weinidogion Cymru awdurdod datganoledig drostynt. Mae rhestr lawn o'r cyrff perthnasol i'w gweld yn Atodlen 9A o Ddeddf Cymru 2017. Wrth osod |

| | |
|---|---|
| chynigion i lunio cynllun lleol i adfer natur lleol. | targedau trwy reoliadau, bydd Gweinidogion Cymru yn cynnig rhagor o arweiniad ynghylch pa awdurdodau cyhoeddus sy'n gorfod cyfrannu tuag at dargedau penodol. Er mwyn lleihau'r gofynion adrodd ar yr awdurdodau cyhoeddus, rhaid iddynt roi manylion eu camau gweithredu yn eu cynlluniau bioamrywiaeth fel sy'n ofynnol yn ôl adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Nod hyn yw lleihau baich ychwanegol drwy symleiddio'r gofynion i gynllunio ac adrodd mewn perthynas â'r adran 6 bresennol, ac mae'n cydnabod yr angen i ganolbwyntio ar gyflawni yn hytrach nag adrodd ychwanegol, a oedd yn bryder a amlygwyd gan y grŵp ffocws gwledig. |

**Pa dystiolaeth y gwnaethoch ei defnyddio i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan bobl cefn gwlad neu eu cynrychiolwyr?**

- Fel y disgrifir uchod, cynhaliodd sefydliad ymchwil trydydd parti weithdai wedi'u targedu yn ystod y cyfnod ymgynghori er mwyn casglu barn o gymunedau gwledig. Y tu hwnt i'r gweithdai hynny, roedd swyddogion polisi yn ymgysylltu'n uniongyrchol â chynrychiolwyr o undebau'r ffermwyr, byrddau gwasanaethau cyhoeddus, cynghorau sir, Cyfoeth Naturiol Cymru, a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ymhlith eraill. Yn ogystal, bu swyddogion polisi yn ymgysylltu'n uniongyrchol â ffermwyr a thirfeddianwyr yn ystod nifer o ddigwyddiadau gweithdy a bord gron, gan gynnwys bord gron Gweinidogol a gynhaliwyd yn Sioe Fawr 2024.

### Pa dystiolaeth arall fyddai'n llywio'r asesiad?

- Comisiynodd Llywodraeth Cymru drydydd parti i asesu costau a buddion y cynigion. Mae'r asesiad hwn wedi llywio'r broses o wneud penderfyniadau polisi a'r Dadansoddiad Cost a Budd a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Bil, gan edrych ar effeithiau cynigion y polisi a llywio asesiad effaith rheoleiddiol y Bil. Bydd yr adroddiad hwn, yn rhannol, yn ystyried yr effeithiau ar gymunedau gwledig a'r costau a'r buddion y byddai'r ddeddfwriaeth hon yn eu darparu.

### Asesiad Effaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy

*Mae'r Asesiad Effaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy hwn yn ofyniad ar wahân i'r Asesiad Effaith Prawf Gwledig ac mae'n ymwneud yn benodol â chymorth neu reoleiddio sy'n effeithio ar Amaethyddiaeth, gweithgareddau eraill a gynhelir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, neu weithgareddau ategol, fel y'u deddfir o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.*

*O 17 Hydref 2023, mae gofyniad cyfreithiol, pryd bynnag y bydd Gweinidogion Cymru yn darparu cymorth ar gyfer amaethyddiaeth neu weithgareddau eraill a wneir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, neu weithgareddau ategol*[79]*, neu'n eu rheoleiddio, bod yn rhaid iddynt wneud hynny yn unol â'r ddyletswydd Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Mae'n hanfodol, felly, bod polisïau perthnasol yn cael eu datblygu a'u gweithredu yn unol ag amcanion a dyletswydd Rheoli Tir yn Gynaliadwy.*

*Cwestiynau i'w hystyried wrth benderfynu a oes angen i chi ystyried a / neu gwblhau Asesiad Effaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy:*

1. *A yw eich polisi / gweithgaredd yn effeithio ar Amaethyddiaeth?*

    a. Ydy

[79] Mae'n bwysig nodi bod gan "amaethyddiaeth" a "gweithgareddau ategol" ystyron penodol fel y'u diffinnir yn adrannau 51 a 52 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, yn y drefn honno. Maent yn cael eu darparu yn y Canllawiau Asesiad Effaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy hefyd er hwylustod cyfeirio.

2. *A yw'r polisi / gweithgaredd yn gysylltiedig â chymorth ar gyfer amaethyddiaeth, gweithgareddau eraill a wneir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, neu weithgareddau ategol?*

    a. Ydy

3. *A yw'r polisi / gweithgaredd yn gysylltiedig â rheoleiddio amaethyddiaeth, gweithgareddau eraill a wneir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, neu weithgareddau ategol?*

    a. Ydy

*Os ydych yn ateb "ydy" i unrhyw un o'r uchod, bydd angen i chi ystyried effaith eich polisi (cymorth neu reoleiddio) yn unol ag amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy a dyletswydd Rheoli Tir yn Gynaliadwy Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.*

**Asesiad Effaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy:**

**Cwestiwn 2:** Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar amaethyddiaeth, neu weithgareddau eraill a wneir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, neu weithgareddau ategol, yn erbyn amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

1. **Cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy**

- Bydd y fframwaith arfaethedig ar gyfer gosod targedau bioamrywiaeth a'r Egwyddorion Amgylcheddol yn effeithio'n sylweddol ar amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae'r fframwaith ar gyfer gosod targedau yn cael ei ddatblygu o Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal (GBF). Mae'r GBF yn pwysleisio defnydd tir cynaliadwy ac adfer ecosystemau, gan olygu bod angen symud tuag at arferion ffermio mwy ecogyfeillgar[80]. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, lleihau'r defnydd o gemegion niweidiol, mabwysiadu dulliau amaeth-ecolegol, a chadw cynefinoedd naturiol o fewn tirweddau amaethyddol. Bydd yr Egwyddorion Amgylcheddol arfaethedig, yn enwedig yr

[80] Local to Global: The Global Biodiversity Framework and what the UK needs to do to implement it, The Wildlife Trusts

egwyddor ragofalus, yr egwyddor ataliol a'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu yn gyrru'r newid hwn ymhellach. Bydd yr egwyddor ragofalus yn ysbrydoli polisïau a fydd yn annog ffermwyr i fabwysiadu arferion sy'n lleihau niwed posibl i'r amgylchedd, hyd yn oed yn absenoldeb tystiolaeth wyddonol ddiffiniol. Er enghraifft, efallai y bydd ffermwyr yn cael eu cymell i leihau'r defnydd o blaladdwyr neu fabwysiadu technegau dyfrhau mwy cynaliadwy. Bydd yr egwyddor ataliol yn hyrwyddo mesurau rhagweithiol i ddiogelu bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystem, fel creu coridorau bywyd gwyllt neu adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio. Yn olaf, bydd yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu yn dwyn ffermwyr i gyfrif am ddifrod amgylcheddol, gan eu cymell i fabwysiadu arferion cynaliadwy a lleihau eu hôl troed ecolegol. Drwy gyd-fynd â'r fframweithiau byd-eang a chenedlaethol hyn, gall amaethyddiaeth Cymru ddod yn fwy cynaliadwy, gwydn a chynhyrchiol. Bydd hyn nid yn unig o fudd i'r amgylchedd ond bydd yn sicrhau hyfywedd hirdymor y sector hefyd. Fodd bynnag, mae'n hanfodol darparu cymorth digonol i ffermwyr yn ystod y cyfnod pontio hwn, gan gynnwys cymhellion ariannol, cymorth technegol, a mynediad at farchnadoedd ar gyfer cynhyrchion cynaliadwy.

- Mae'n debygol y bydd aliniad agos rhwng y targedau bioamrywiaeth a grëwyd gan y Bil hwn a'r targedau a grëwyd o dan yr amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Fel y nodwyd eisoes, gellir dosbarthu 90% o dir daearol Cymru o dan ddefnydd tir amaethyddol. Mae dominyddiaeth y defnydd o amaethyddiaeth yn golygu y bydd ffermwyr yn allweddol wrth gyflawni'r targedau bioamrywiaeth. Felly, yn debyg i'r Egwyddorion Amgylcheddol, bydd y polisïau sy'n cefnogi targedau bioamrywiaeth yn golygu rheidrwydd i symud tuag at arferion ffermio mwy cynaliadwy a chyfeillgar i natur. Bydd swyddogion polisi yn gweithio ar y cyd â swyddogion Rheoli Tir yn Gynaliadwy er mwyn sicrhau bod targedau a pholisïau'r dyfodol yn ategu ei gilydd.
- Bydd gan Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru rôl allweddol wrth oruchwylio'r fframwaith cyfreithiol amgylcheddol yng Nghymru, a fydd yn cefnogi'r canlyniadau a fynegir uchod, yn ogystal â chanlyniadau deddfwriaethol ehangach a nodir mewn deddfwriaeth amgylcheddol, fel Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

## 2. Lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo

- Bydd gan y fframwaith arfaethedig ar gyfer gosod targedau bioamrywiaeth a'r Egwyddorion Amgylcheddol ran hanfodol hefyd wrth liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar amaethyddiaeth Cymru. Trwy hyrwyddo arferion rheoli tir cynaliadwy, gall y fframweithiau hyn helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o amaethyddiaeth. Er enghraifft, gall mabwysiadu arferion amaeth-goedwigaeth wella lefelau atafaelu carbon mewn priddoedd[81], tra gall lleihau dibyniaeth ar wrteithiau cemegol leihau allyriadau ocsid nitrus[82]. Ar ben hynny, gall y cynigion polisi hyn helpu i gynyddu gwytnwch amaethyddiaeth Cymru i'r newid yn yr hinsawdd. Trwy arallgyfeirio systemau ffermio a hyrwyddo dulliau amaeth-ecolegol, gall ffermwyr leihau eu bregusrwydd i ddigwyddiadau tywydd eithafol, fel sychder a llifogydd. Er enghraifft, gall plannu cnydau gorchudd helpu i wella iechyd pridd a'r broses o gadw dŵr, gan wneud ffermydd yn fwy gwydn i gyfnodau sych neu gyfnodau o law trwm [83]. Yn ogystal, gall arallgyfeirio cylchdro cnydau leihau'r risg y bydd cnydau'n methu oherwydd plâu, afiechydon, ansawdd pridd gwael, neu newidiadau i amodau hinsoddol. Efallai y bydd manteision masnachol hefyd o ymgymryd â dulliau o'r fath, a dangoswyd bod enillion masnachol yn cynyddu trwy leihau allbynnau[84]. Trwy dderbyn yr egwyddorion a'r fframweithiau hyn, gall amaethyddiaeth Cymru bontio tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy a gwydn o ran yr hinsawdd. Bydd hyn nid yn unig o fudd i'r amgylchedd ond bydd yn sicrhau hyfywedd hirdymor y sector hefyd, gan ddarparu diogelwch bwyd i Gymru a chyfrannu at ymdrechion byd-eang i frwydro yn erbyn y newid yn yr hinsawdd.
- Mae cymhwyso'r Egwyddorion Amgylcheddol yn mynd i gael ei lunio gan 'Amcan Amgylcheddol', sydd â'r nod o sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn gweithio tuag at sicrhau lefel uchel o ddiogelwch i'r amgylchedd a gwella'r amgylchedd yng Nghymru. Mae'r amcan hwn hefyd yn pwysleisio lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddynt, fel canolbwynt allweddol wrth gymhwyso'r egwyddorion

[81] The Economics of Biodiversity: The Dasgupta Review

[82] Greenhouse gas mitigation in agriculture

[83] Optimising cover crop practices as a sustainable solution for global agroecosystem services

[84] Farming at the Sweet Spot

- Yn ehangach, bydd Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn cefnogi ymdrechion i liniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd drwy fod â rôl allweddol wrth oruchwylio'r fframwaith cyfreithiol amgylcheddol yng Nghymru, a fydd yn cefnogi'r canlyniadau a fynegir uchod, yn ogystal â chanlyniadau deddfwriaethol ehangach a nodir mewn deddfau amgylcheddol, megis Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

3. **Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu**

- Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau yw egwyddor graidd yr Egwyddorion Amgylcheddol a'r fframwaith ar gyfer gosod targedau bioamrywiaeth a gyflwynwyd gan y Bil hwn. I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at Adran F yr asesiad effaith integredig hwn.
- Bydd cymhwyso Egwyddorion Amgylcheddol yng Nghymru yn cael ei arwain gan "Amcan Amgylcheddol." Nod yr amcan hwn yw sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn ymdrechu i gael lefel uchel o ddiogelwch amgylcheddol ac yn gwella'r amgylchedd. Yn hanfodol, mae'n pwysleisio cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'u buddion, ynghyd â chyfrannu at atal a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth. Ar ben hynny, bydd gan Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru ran hanfodol wrth oruchwylio fframwaith cyfreithiol amgylcheddol Cymru, gan gefnogi ymdrechion i liniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Bydd yr oruchwyliaeth a ddarperir gan y corff hwn nid yn unig yn cyfrannu at y canlyniadau amgylcheddol uchod, ond nodau deddfwriaethol ehangach a amlinellir mewn deddfau amgylcheddol hefyd, gan gynnwys deddfau fel Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

4. **Cadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â hwy, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni.**

- Am effeithiau ar y Gymraeg, cyfeiriwch at Adran E yr asesiad effaith integredig hwn.

**Cwestiwn 3:** Ystyriwch sut y bydd eich polisi yn cael ei weithredu yn y ffordd sy'n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (i'r graddau sy'n gyson ag arfer y swyddogaeth yn briodol).

### 1. Cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy

- Drwy gyflwyno Egwyddorion Amgylcheddol a gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw i'r egwyddorion hyn wrth lunio polisi, bydd y ddeddfwriaeth hon yn helpu i sicrhau nad yw polisi'r dyfodol yn effeithio'n niweidiol ar yr amgylchedd. Gan fod gweithgarwch amaethyddol yn sbardun mawr i ddirywio amgylcheddol, bydd yr egwyddorion hyn yn arwain polisïau a chymorthdaliadau amaethyddol yn y dyfodol i gyfeiriad sy'n lleihau neu'n lliniaru effeithiau amaethyddol ar yr amgylchedd[85]. Mae lleihau'r effeithiau hyn yn bwysig er mwyn sicrhau parhad ein cyflenwad bwyd a gallu ein sector ffermio i addasu i'r hinsawdd sy'n newid. Mae lleihau effeithiau niweidiol i'r amgylchedd hefyd yn unol â'r uchelgais a nodir gan yr egwyddorion hyn ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy.
- Yr hyn sy'n ategu ymhellach yr Egwyddorion Amgylcheddol yw'r fframwaith ar gyfer gosod targedau bioamrywiaeth, sy'n cynnwys maes blaenoriaeth ar gyfer rheoli ecosystemau yn effeithiol y mae'n rhaid gosod targed penodol yn ei erbyn. Er mwyn cyflawni'r targed hwn, bydd angen i Weinidogion Cymru sicrhau bod arferion amaethyddol, coedwigaeth a physgodfeydd yn atal dirywiad ecosystemau ac yn hyrwyddo eu hadferiad. Mae hyn yn amlygu'r cysylltiad uniongyrchol rhwng y fframwaith ar gyfer gosod targedau bioamrywiaeth a'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Bydd y ddau fecanwaith deddfwriaethol hyn yn gweithio ar y cyd er mwyn sicrhau bod system fwyd Cymru yn gynaliadwy nawr ac yn y dyfodol.

### 2. Lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo

- Trwy gyflwyno Egwyddorion Amgylcheddol a gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ystyried yr egwyddorion hyn wrth lunio polisi, bydd y ddeddfwriaeth hon yn helpu i sicrhau bod polisi'r dyfodol yn cefnogi cynaliadwyedd amgylcheddol. O ystyried y gall gweithgarwch amaethyddol effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd, bydd yr egwyddorion hyn yn arwain polisïau amaethyddol a chymorthdaliadau yn y dyfodol tuag at arferion sy'n lleihau neu'n lliniaru newid yn yr hinsawdd a niweidiau amgylcheddol eraill. Mae lleihau'r effeithiau negyddol hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor

---

[85] Food system impacts on biodiversity loss, UNEP

ein cyflenwad bwyd a gwytnwch ein sector ffermio yn wyneb y newid yn yr hinsawdd. Mae ecosystemau iach, sy'n gyfoethog mewn bioamrywiaeth, yn fwy gwydn i effeithiau newid yn yr hinsawdd[86]. Gallant barhau i ddarparu gwasanaethau ecosystem hanfodol, fel peillio, ffrwythlondeb pridd, a rheoleiddio dŵr, hyd yn oed yn wyneb hinsawdd cynyddol amrywiol a digwyddiadau tywydd eithafol. Mae ystyriaethau ychwanegol ar sut y bydd y cynigion hyn yn adeiladu gwytnwch hinsawdd wedi'u nodi'n fanwl yn Adran F yr asesiad effaith integredig hwn.

- Bydd gan Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru rôl allweddol i oruchwylio'r fframwaith cyfreithiol amgylcheddol yng Nghymru, a fydd yn cefnogi'r canlyniadau a fynegir uchod, yn ogystal â chanlyniadau deddfwriaethol ehangach a nodir mewn deddfau amgylcheddol, fel Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**3. Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu**

- Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau yw egwyddor graidd yr Egwyddorion Amgylcheddol a'r fframwaith ar gyfer gosod targedau bioamrywiaeth a gyflwynir gan y Bil hwn.
- Bydd cymhwyso Egwyddorion Amgylcheddol yng Nghymru yn cael ei arwain gan "Amcan Amgylcheddol." Nod yr amcan hwn yw sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn ymdrechu i gael lefel uchel o ddiogelwch amgylcheddol ac yn gwella'r amgylchedd. Yn hanfodol, mae'n pwysleisio cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'u buddion, ynghyd â chyfrannu at atal a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth. Ar ben hynny, bydd gan Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru ran hanfodol wrth oruchwylio fframwaith cyfreithiol amgylcheddol Cymru, gan gefnogi ymdrechion i liniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Bydd yr oruchwyliaeth a ddarperir gan y corff hwn nid yn unig yn cyfrannu at y canlyniadau amgylcheddol uchod, ond nodau deddfwriaethol ehangach hefyd a amlinellir mewn deddfau amgylcheddol, gan gynnwys deddfau fel Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
- I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at Adran F yr asesiad effaith integredig hwn.

[86] Declining resilience of ecosystem functions under biodiversity loss

**4. Gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â nhw, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni.**

- Am effeithiau ar y Gymraeg, cyfeiriwch at Adran E yr asesiad effaith integredig hwn. Drwy gyflwyno Egwyddorion Amgylcheddol a gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw i'r egwyddorion hyn wrth lunio polisïau, bydd y ddeddfwriaeth hon yn helpu i sicrhau nad yw polisi'r dyfodol yn cael effaith andwyol ar ein cefn gwlad. Gan fod yr amgylchedd naturiol yn nodwedd allweddol o'n cefn gwlad ac yn darparu adnoddau diwylliannol pwysig, bydd yr egwyddorion hyn yn sicrhau bod polisi'r dyfodol yn cymryd agwedd ragofalus tuag at yr amgylchedd naturiol. Bwriad hyn yw diogelu ein tirwedd wledig ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Gyda'r targedau bioamrywiaeth, ysbrydolwyd y ddeddfwriaeth hon gan y GBF. Agwedd allweddol ar y GBF yw cydnabod cymunedau lleol a'u hawl i'r amgylchedd naturiol. Drwy gyflwyno targedau a ysbrydolwyd gan GBF, bydd Cymru'n parhau â'r gwaith a gychwynnwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd is-ddeddfwriaeth a pholisïau a gyflwynwyd gan y fframwaith ar gyfer gosod targedau bioamrywiaeth yn diffinio ymhellach yr uchelgais o wella mynediad i gefn gwlad a'r gwasanaethau a ddarperir gan natur. Nodir ystyriaethau ychwanegol ar sut y bydd y cynigion hyn yn gwarchod ac yn gwella cefn gwlad ac yn hyrwyddo mynediad yn Adran F yr asesiad effaith integredig hwn.
- Bydd gan Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru rôl allweddol i oruchwylio'r fframwaith cyfreithiol amgylcheddol yng Nghymru, a fydd yn cefnogi'r canlyniadau a fynegir uchod, yn ogystal â chanlyniadau deddfwriaethol ehangach a nodir mewn deddfau amgylcheddol, fel Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**Gellir dod o hyd i fanylion am gyd-destun polisi pob un o'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Ddeddf, ym mharagraffau 3.42 – 3.64 yn gyfan.**

## ATODIAD D SGRINIO ASESIAD O'R EFFAITH AR DDIOGELU DATA

Nid yw'r cynnig hwn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynnal Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data a bennir gan Erthygl 35(1), 35(3) a 35(4) o GDPR y DU.

## ATODIAD E – ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

Cyflwyniad

Diben ein hamcanion polisi ar gyfer y Bil arfaethedig yw ategu a gwella'r fframwaith polisi a deddfwriaeth amgylcheddol presennol trwy wneud fel a ganlyn:

VII. Gwreiddio cyfres o egwyddorion amgylcheddol sylfaenol yng nghyfraith Cymru, egwyddorion a fydd wrth wraidd penderfyniadau ar bolisi a chynigion deddfwriaethol.
VIII. Sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol newydd, a fydd yn dwyn awdurdodau cyhoeddus Cymru i gyfrif am unrhyw ddiffyg cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, gan gynnwys drwy gamau gorfodi.
IX. Creu fframwaith gosod Targedau, sy'n cynnwys targedau bioamrywiaeth effeithiol trwy is-ddeddfwriaeth a chynllun adrodd a gwerthuso cadarn; sicrhau ein bod yn cymryd camau gweithredol i ddiogelu ac adfer bioamrywiaeth ledled Cymru.

Bydd y cynigion hyn, o'u gweithredu gyda'i gilydd, yn fodd i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur trwy ysgogi gwelliant amgylcheddol o ganfyddiad cyntaf y polisi hyd at ddarparu trosolwg ar draws yr holl ddeddfwriaeth amgylcheddol.

*Cymraeg 2050* yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr ymroddedig i'r strategaeth newydd, gyda tharged o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu Mae iaith Gymraeg ffyniannus hefyd yn cael ei chynnwys fel un o'r 7 nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.


Mae gennym hefyd rwymedigaeth statudol i ystyried effaith lawn ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut y mae ein polisïau yn effeithio ar yr iaith a sut y gallant orau gefnogi'r gwaith o hyrwyddo a hwyluso'r iaith. Mae deall yr effaith nid yn unig ar y rhai sy'n siarad Cymraeg, ond hefyd ar y rhai sy'n ei dysgu neu'n dymuno ei dysgu yn y dyfodol yn ein helpu i nodi goblygiadau polisi iaith Gymraeg sy'n gadarnhaol, yn negyddol a niwtral.

Mae tair thema i *Cymraeg 2050*:

Mae'r penawdau o dan bob thema yn amlinellu'r gwahanol fathau o weithgareddau a allai effeithio ar yr iaith.

Yn gyffredinol, os yw'n bosibl y gallai eich polisi gael effaith ar bobl, bydd yn cael rhyw fath o effaith ar siaradwyr Cymraeg ac ar y Gymraeg.

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (a gwblhawyd gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost: Safonau.Standards@llyw.cymru):



**A yw'r cynnig yn cysylltu'n glir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg – Cymraeg 2050, Miliwn o Siaradwyr a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2021-2026? Cymraeg 2050 rhaglen waith 2021-2026**

Cefndir

Mae amgylchedd naturiol Cymru wedi effeithio'n fawr ar ddatblygiad y Gymraeg. Mae'r tirweddau garw, gan gynnwys mynyddoedd, dyffrynnoedd ac arfordiroedd, wedi ynysu cymunedau ar hyd y blynyddoedd, gan olygu bod y Gymraeg wedi datblygu tafodieithoedd hynod ac unigryw[87]. Mae harddwch naturiol Cymru hefyd wedi ysbrydoli traddodiad cyfoethog o farddoniaeth a llenyddiaeth Gymraeg, gan wreiddio'r iaith yn ddwfn yn hunaniaeth ddiwylliannol y genedl. Mae cysylltiad agos rhwng ymdrechion i ddiogelu'r Gymraeg â pholisïau amgylcheddol, oherwydd gwelir bod rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn hanfodol ar gyfer cynnal treftadaeth ddiwylliannol a lles cymunedau ledled Cymru gan gynnwys cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Ystyried yr effeithiau

Ni fydd y cynigion a welir yn y Bil sy'n ymwneud â chyflwyno egwyddorion amgylcheddol i gyfraith Cymru yn cefnogi nac yn amharu ar Thema 2, Cymraeg 2050. Mae'r dyletswyddau ar Weinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i ystyried yr egwyddorion amgylcheddol wrth lunio polisi, ac integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth lunio polisïau, yn gyfochrog â'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau ehangach, gan gynnwys o ran y Gymraeg.

Bydd y cynigion yn y Bil sy'n ymwneud â sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol yn cefnogi Thema
2, Cymraeg 2050.

Dyma'r rhesymau:

a) Bydd disgwyl i **Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru** gynnig cyfleoedd a gwasanaethau sy'n darparu gwasanaeth dwyieithog yn rhagweithiol fel rhan o'i gweithrediadau, fel nad oes rhaid i unigolion ofyn am y Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Wrth ymgymryd â gwaith ar ran Gweinidogion Cymru, bydd y corff llywodraethiant amgylcheddol yn cydymffurfio â Safonau perthnasol y Gymraeg, a amlinellir yn Hysbysiad Cydymffurfio – Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae disgwyl y bydd aelodau'r cyhoedd yn gallu cyfathrebu â'r corff yn Gymraeg a Saesneg ac y bydd dogfennau pwysig fel adroddiadau ymchwiliadau a dogfennau strategaeth a ysgrifennwyd gan y corff ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac yn cydymffurfio â Safonau perthnasol y Gymraeg.

[87] Hanes y Gymraeg | Croeso Cymru

b) Bydd Bwrdd Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn cynnwys grŵp amrywiol o arbenigwyr. Bydd gofyn i o leiaf un o aelodau'r Bwrdd allu cyfathrebu drwy'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth dwyieithog yn gryf ac y gellir ei ystyried yn briodol ar lefel strategol. Mae hyn yn cynnwys ystyried y galw tebygol am wasanaethau er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn gallu bodloni'r dewis iaith sylfaenol. Bydd swyddogion polisi yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid y Gymraeg i benderfynu ar ofynion y rôl yn unol â safonau Cymwyseddau'r Gymraeg. Rhagwelir y bydd angen rhuglder ar draws y setiau sgiliau Gwrando, Darllen, Siarad ac Ysgrifennu (W5). Bydd asesiad pellach o'r effaith ar y Gymraeg yn cael ei gynnal wrth i'r polisi ddatblygu a bydd yr Asesiad Effaith hwn yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r dadansoddiad hwnnw maes o law. Bydd y Bwrdd yn cydymffurfio â Safonau perthnasol y Gymraeg.

c) Bydd swyddogion yn gweithio gyda rhanddeiliaid y Gymraeg i nodi'r strategaeth recriwtio fwyaf effeithiol er mwyn sicrhau bod swyddi'r Bwrdd yn hygyrch i gronfa gref o siaradwyr Cymraeg ac yn cytuno ar ddull wrth gefn os na fydd y rhai sy'n cael eu cyfweld yn bodloni'r safonau gofynnol. Bydd y broses hon yn cael ei chefnogi gan yr asesiad pellach o'r effaith ar y Gymraeg wrth i'r polisi hwn ddatblygu ac wrth i gynigion y Bil gael eu gweithredu.

Bydd y cynigion a welir yn y Bil sy'n ymwneud â sefydlu targedau bioamrywiaeth yn cefnogi Thema 2, Cymraeg 2050.

Mae hynny oherwydd

a) Bydd dogfennau, gan gynnwys adroddiadau, strategaethau a deunydd gwybodaeth, yn cael eu darparu yn y ddwy iaith.

b) Ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Bydd hyn yn hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg yn unol â disgwyliadau'r cyhoedd. Wrth ymgymryd â gwaith ar ran Gweinidogion Cymru, bydd swyddogion yn cydymffurfio â Safonau perthnasol y Gymraeg a amlinellir yn Hysbysiad Cydymffurfio – Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

c) Mae'r amgylchedd yn rhan annatod o dreftadaeth ddiwylliannol Cymru, ac mae'n rhan hanfodol o hanes, traddodiadau a hunaniaeth y genedl. Mae cynigion y Bil yn ceisio cryfhau mesurau sy'n diogelu'r amgylchedd ac adfer bioamrywiaeth. Yn hyn o beth, bydd yn diogelu treftadaeth naturiol Cymru, sy'n parhau i fod ynghlwm wrth dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog Cymru. Bydd ymdrechion i warchod ac adfer treftadaeth naturiol Cymru drwy gydgysylltiadau yn effeithio'n fawr ar warchod treftadaeth a hunaniaeth ddiwylliannol Cymru.

d) Bydd yr holl wybodaeth a gynhyrchir i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r targedau yn ddwyieithog ac yn cael ei chreu yn unol â Safonau'r Gymraeg er hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg.

Yn ogystal, mae'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang hefyd yn cydnabod pwysigrwydd amrywiaeth o ran diwylliant ac iaith yn y gwaith o adfer bioamrywiaeth. O dan Darged 22, mae'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang yn galw'n benodol ar lofnodwyr i sicrhau cyfranogiad pawb mewn penderfyniadau, a bod gan bawb yr hawl i gael cyfiawnder a gwybodaeth sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth. Mae ymgorffori diwylliant ac amrywiaeth ieithyddol hefyd yn rhan o Darged 21 sef sicrhau bod gwybodaeth ar gael ac yn hygyrch i arwain gweithredu ar fioamrywiaeth. Mae dyletswydd y Bil i godi ymwybyddiaeth (Adran X) yn deillio o darged 21.

## EFFEITHIAU AR GYMUNEDAU LLEOL

O ran sefydlu Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru, bydd y ddeddfwriaeth yn cael effaith gadarnhaol drwy ddarparu cyfathrebu dwyieithog a chynnwys o leiaf un aelod sy'n rhugl wrth gyfathrebu yn y Gymraeg ar y bwrdd. Yn ehangach, mae gweithredu'r gwaith o ddiogelu'r amgylchedd wedi'i blethu'n ddwfn â threftadaeth ddiwylliannol Cymru, ac yn chwarae rhan hanfodol yn hanes, traddodiadau a hunaniaeth y genedl. Mae cynigion y Bil yn ceisio cryfhau mesurau sy'n diogelu'r amgylchedd ac adfer bioamrywiaeth. Yn hyn o beth, bydd yn gwarchod treftadaeth naturiol Cymru ac wrth wneud hynny, bydd yn sicrhau bod ein treftadaeth ddiwylliannol hefyd yn cael ei chadw, gyda hynny o fudd anuniongyrchol i'r Gymraeg.

Trwy greu targedau uchelgeisiol ar gyfer bioamrywiaeth, bydd y darpariaethau'n cynyddu camau adfer amgylcheddol ledled Cymru. Bydd y gwasanaethau ecosystem a ddarperir gan amgylchedd iachach yn cael effaith gadarnhaol ar ein cymunedau lleol. Gall y manteision hyn gynnwys gwella llesiant, dyfroedd glanach, gwella iechyd pridd a chynyddu peillwyr, sy'n agweddau anuniongyrchol fuddiol i'r Gymraeg, trwy wella ansawdd bywyd yn ein cymunedau lleol.

## EFFAITH AR WASANAETHAU CYMRAEG

- Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?
- Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar addysg Gymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?
- Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar y gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? (ee iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth, tai, digidol, ieuenctid, seilwaith, amgylchedd, llywodraeth leol ac ati.)

- Sut y byddwch yn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a'u bod yn gallu cael mynediad atynt a'u defnyddio mor rhwydd â gwasanaethau Saesneg? Pa dystiolaeth / data y gwnaethoch eu defnyddio i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg neu grwpiau â diddordeb yn y Gymraeg?

Mae'r Bil yn cynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth. Gyda'r wybodaeth hon ar gael drwy'r Gymraeg, bydd y ddyletswydd hon yn helpu i wella cyswllt dinasyddion Cymru, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg â'u hamgylchedd naturiol ac ehangu eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd y byd naturiol gan helpu i gefnogi siaradwyr a dysgwyr i fynegi eu hunain yn y Gymraeg wrth drafod natur. Bydd hefyd yn hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg (drwy gyflwyno'r Gymraeg iddynt) a thrwy hynny bydd yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg ynghyd â hyrwyddo'r iaith.

O ran sefydlu Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru, bydd y Bil yn nodi bod angen gwasanaethau dwyieithog. Bydd y corff yn nodi'r dulliau cyflenwi a'r cynlluniau cyfathrebu pan gânt eu sefydlu. Bydd disgwyl i'r corff llywodraethiant amgylcheddol gyhoeddi'n agored ac amlwg ei wasanaethau Cymraeg gan hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Bydd swyddogion polisi yn sicrhau y bydd yr holl ddogfennau a gynhyrchir gan y cynigion yn y Bil hwn yn cyd-fynd â Safonau'r Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys y safonau penodol ar gyfer llunio polisi wrth ddrafftio'r rheoliadau y bydd y Bil hwn yn eu cyflwyno ynghyd â'r safonau gweithredol wrth gyflawni'r polisïau a fydd yn ategu'r gwaith o gyflawni uchelgeisiau'r targed. Mae swyddogion polisi wedi ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg drwy gydol y broses o ddatblygu'r Bil hwn a byddant yn parhau i wneud hynny wrth ddatblygu'r rheoliadau, y polisïau a'r adroddiadau y bydd y Bil hwn yn gofyn amdanynt.

O ran sefydlu Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru, bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol oherwydd bydd y corff yn darparu gwasanaeth dwyieithog fel rhan o'i weithrediadau. Mae disgwyl y bydd aelodau'r cyhoedd yn gallu cyfathrebu â'r corff yn Gymraeg a Saesneg, ac y bydd dogfennau pwysig fel adroddiadau ymchwiliadau a dogfennau strategaeth a ysgrifennir gan y corff ar gael yn Gymraeg a Saesneg, gan fodloni Safonau gofynnol y Gymraeg. Bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei oruchwylio gan fwrdd a fydd yn cynnwys o leiaf un cyfathrebwr Cymraeg rhugl (hyd nes y bydd dadansoddiad pellach fel rhan o adolygiad a diweddariad parhaus o'r Asesiad Effaith hwn)

Er bod y Bil yn ceisio gwella amgylchedd naturiol Cymru a chefnogi gwasanaethau ecosystem hanfodol fel dŵr croyw, nid yw'r Bil yn cyflwyno unrhyw wasanaethau newydd. Bydd unrhyw wasanaethau, a'u heffeithiau, yn cael eu creu drwy'r is-ddeddfwriaeth a gyflwynir gan bwerau'r Bil hwn a byddant yn cael eu hystyried yn y dogfennau ategol. Bydd adolygiad a diweddariad o'r Asesiad Effaith hwn yn cael ei gynnal wrth i'r polisi sy'n gysylltiedig â'r Bil hwn fynd rhagddo.

## YSTYRIAETHAU TYSTIOLAETH

- **Pa dystiolaeth arall fyddai'n eich helpu i gynnal asesiad gwell?**
- **Bydd angen i ni ystyried sut mae deddfwriaeth flaenorol i sefydlu Comisiynau i Gymru wedi darparu ar gyfer gwasanaethau dwyieithog.**
- **Sut y byddwch yn gwybod a yw eich polisi yn llwyddiant?**

Yn ystod yr ymgynghoriad bu'r ymchwilwyr trydydd parti a gyflogwyd i ofyn am farn allanol ar y cynigion polisi yn gofyn yn benodol am farn pobl hŷn a siaradwyr Cymraeg. Recriwtiodd yr ymchwilwyr nifer o siaradwyr Cymraeg i weithdy ar-lein gyda'r cyfranogwyr yn adrodd yn ôl ar y cynigion polisi. Mae canlyniadau'r gweithdy hwn wedi eu cynnwys yn y crynodeb o'r ymatebion[88] yr ymatebodd Llywodraeth Cymru iddynt yn swyddogol.

Byddwn yn parhau i adolygu'r Asesiad Effaith ar ôl cyflwyno'r Bil ac yn ystod cyfnodau craffu amrywiol y Bil, ac wrth i'r cynigion deddfwriaethol gael eu datblygu. Rydym yn cydnabod y bydd angen gwneud rhagor o waith ymgysylltu ac asesu effaith pan fydd polisïau o fewn y ddeddfwriaeth yn cael eu gweithredu, er enghraifft sefydlu Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru, a gosod targedau o fewn is-ddeddfwriaeth ar gyfer Bioamrywiaeth. Bydd yr hyn rydym wedi ei ddeall a'i ddysgu a'i gasglu yn yr asesiad hwn yn cael ei gadw mewn cof a'i ddefnyddio i lywio ein dull o asesu effaith gweithgareddau yn y dyfodol. Drwy gydol y cyfnod hwn, byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â rhanddeiliaid allweddol i lunio a datblygu adolygiad ôl-weithredol o'r newidiadau deddfwriaethol y bydd ein cynigion yn eu cyflwyno.

[88] Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar egwyddorion amgylcheddol, llywodraethu a thargedau bioamrywiaeth: Papur Gwyn

## ATODIAD F - ASESIAD O'R EFFAITH AR FIOAMRYWIAETH

Cynigion Polisi

Bydd y Bil yn ymdrin â thri maes allweddol (y Cynigion) a bydd pob un ohonynt yn cyfrannu at gyflawni ein huchelgais i gynnal a gwella bioamrywiaeth, cynyddu ei broffil ac annog ei integreiddio yn y broses o wneud penderfyniadau. Y tri Chynnig yw:

**d. Rhoi dyletswyddau ar Weinidogion Cymru a CNC i gymhwyso egwyddorion amgylcheddol wrth lunio polisi, ac awdurdodau cyhoeddus wrth gynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol.**

Y pedair egwyddor amgylcheddol yw:

- yr egwyddor ataliol,
- yr egwyddor ragofalus
- yr egwyddor cywiro yn y ffynhonnell,
- yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu.

Nod yr egwyddor ragofalus yw ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau ystyried rheoli risg megis rhoi mesurau amddiffynnol ar waith hyd yn oed mewn sefyllfaoedd lle nad yw'n glir y gallai polisi achosi niwed. Yn yr un modd, mae'r egwyddor ataliol yn ymwneud â rhoi mesurau ataliol ar waith i osgoi niwed i'r amgylchedd cyn iddo ddigwydd. Mae'r egwyddor cywiro yn y ffynhonnell yn mynnu bod llygredd yn cael ei drin lle mae'n digwydd, ac mae egwyddor y llygrwr sy'n talu yn rhoi'r cyfrifoldeb am y gost o unioni'r difrod ar y sefydliad/unigolyn a wnaeth ei achosi.

Cefnogir y ddyletswydd i gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol gan ddyletswydd bellach i integreiddio diogelu'r amgylchedd i'r gwaith o greu polisi. Bydd hyn yn pwysleisio ymhellach arwyddocâd yr amgylchedd ac, ochr yn ochr â chymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol eu hunain, bydd yn rhoi ei amddiffyn wrth wraidd gwaith llunio polisïau.

Mae cymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol i'w fframio gan 'Amcan Amgylcheddol', sydd â'r nod o sicrhau bod Gweinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus sy'n ymgymryd ag Asesiad Amgylcheddol Strategol yn gweithio tuag at gyflawni lefel uchel o amddiffyniad amgylcheddol a gwella'r amgylchedd yng Nghymru. Mae'r amcan hwn yn pwysleisio

agweddau allweddol hefyd sy’n rhyngweithio â’r egwyddorion amgylcheddol, gan gynnwys “cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a’u manteision”, yn ogystal â “chyfrannu at atal a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth”.

**e. Sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol parhaol, Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru, a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â’u dyletswyddau o dan gyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Rydym yn rhagweld y bydd gan Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru swyddogaethau craffu, cynghori, cwyno a gorfodi**

Fel rhan o’r UE, roedd Cymru yn ddarostyngedig i gorff goruchwylio ar gyfer cydymffurfio a gorfodi Cyfraith Amgylcheddol yr UE. Cynhaliwyd y gwaith hwn gan Gomisiwn yr UE ac roedd yn cynnwys monitro gweithredu cyfraith amgylcheddol, derbyn cwynion gan y cyhoedd a, lle bo angen, cymryd camau gorfodi yn erbyn aelod-wladwriaethau a oedd yn gweithredu’n groes i’w rhwymedigaethau. Ar ôl ymadael â’r UE, nid oedd Cymru’n atebol i gorff o’r fath mwyach, felly er mwyn mynd i’r afael â hyn penodwyd Asesydd Interim Diogelu’r Amgylchedd Cymru (IEPAW) ym mis Mawrth 2021 i fynd i’r afael â’r bwlch hwn dros dro. Mae ei rôl yn cynnwys ystyried materion yn ymwneud â gweithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru a chyflwyno adroddiadau ar faterion o’r fath i Weinidogion Cymru yn nodi ei argymhellion. Fodd bynnag, nid yw ei gylch gwaith yn cynnwys y trefniadau a oedd yn bodoli cyn ymadael â’r UE oherwydd, er enghraifft, nid oes gan yr Asesydd bwerau ymchwilio a gorfodi cyfreithiol ac felly ni all ystyried cwynion am gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus.

Felly, mae’r Bil yn ceisio mynd i’r afael â hyn drwy sefydlu Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru a fydd â mwy o bwerau nag Asesydd Interim Diogelu’r Amgylchedd Cymru, yn enwedig i gymryd camau gorfodi yn erbyn diffyg cydymffurfiaeth.

Bydd Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn cynyddu effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol yng Nghymru, gan arwain at lefelau uwch o ddiogelu a gwella’r amgylchedd. Bydd Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn cael ei gyfansoddi mewn ffordd sy’n caniatáu iddo ddwyn Gweinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus i gyfrif ar weithredu, a chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Drwy gyflawni’r swyddogaethau hyn, bydd Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn ceisio sicrhau bod manteision arfaethedig cyfraith amgylcheddol yn cael eu gwireddu’n llawn, a bod Gweinidogion Cymru

ac awdurdodau cyhoeddus yn atebol am effeithiau eu penderfyniadau a'u polisïau ar yr amgylchedd.

Pwrpas Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru, wrth arfer ei swyddogaethau, fydd cyfrannu tuag at gyflawni'r amcan amgylcheddol, a'i nod yw sicrhau lefel uchel o ddiogelwch a gwelliant i'r amgylchedd. Mae'r amcan yn pwysleisio cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'u manteision hefyd, ynghyd â chyfrannu at atal a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth. Fel rhan o hyn, bydd gan Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru rôl yn goruchwylio pob targed amgylcheddol, gan gynnwys y targedau bioamrywiaeth o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth hon.

**f. Sefydlu fframwaith sy'n gosod targedau ar gyfer targedau bioamrywiaeth (y targedau).**

Amcan trosfwaol y rhan hon o'r Bil yw rhoi pwerau i Weinidogion Cymru sefydlu targedau bioamrywiaeth. Bydd hyn yn cynnwys pŵer cyffredinol i osod targedau mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, sy'n cynnwys mynd i'r afael â phwysau a sbardunau colli bioamrywiaeth yng Nghymru ac, wrth wneud hynny, gyfrannu at atal a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth yng Nghymru. Bydd yn cyflwyno dyletswydd i Weinidogion Cymru gyrraedd y targedau bioamrywiaeth newydd a chyflwyno targedau mewn meysydd blaenoriaeth o fewn cyfnod penodol o amser.

Pwrpas targedau bioamrywiaeth yw diffinio llwybr a ddymunir i atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth yng Nghymru a chyfrannu at y ddyletswydd yn adran 6(1) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Dylai pob targed gyfrannu at atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth drwy gyfrannu at o leiaf un o'r canlynol:

- cynyddu toreithrwydd rhywogaethau,
- gwella cydnerthedd ecosystemau (fel y caiff ei fesur gan fframwaith DECCA[17]),
- cynyddu amrywiaeth genetig.

Rhaid i Weinidogion osod o leiaf un targed ym mhob un o'r pedwar maes blaenoriaeth o fewn tair blynedd i'r Bil dderbyn Cydsyniad Brenhinol. Datblygwyd y meysydd blaenoriaeth hyn yn dilyn blaenoriaethu helaeth o dargedau'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, gan sicrhau bod ystod o dargedau wedi'u gosod i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth. Gall

Gweinidogion osod targedau pellach ar wahanol bynciau yn y dyfodol. Mae'r meysydd blaenoriaeth hyn fel a ganlyn:

- lleihau'r risg o ddifodiant rhywogaethau brodorol;
- adfer ecosystemau ac ardaloedd gwarchodedig;
- lleihau llygredd, a
- gwybodaeth am fioamrywiaeth, mynediad ati a'i defnydd.

Er mai ar ysgwyddau Gweinidogion Cymru y bydd y cyfrifoldeb am fodloni'r targedau, mae angen gweithredu gan bob rhan o gymdeithas ac er mwyn annog hyn, bydd y Bil hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddynodi targedau unigol i awdurdodau cyhoeddus perthnasol y bydd yn ofynnol iddynt gyfrannu at eu cyflawni (dyletswydd darged awdurdod cyhoeddus). Dim ond awdurdodau cyhoeddus sy'n gallu gwneud cyfraniad sylweddol at darged penodol a fydd yn cael eu neilltuo i'r targed hwnnw.

Yn ogystal, bydd y Bil yn gosod dyletswydd newydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth a'r bygythiadau i fioamrywiaeth.

**Bioamrywiaeth – Y cyd-destun cyfredol**

Mae'r DU a'r gymuned fyd-eang yn wynebu argyfwng bioamrywiaeth sy'n cael ei yrru gan newid anthropogenig yn yr hinsawdd a'n harferion anghynaliadwy ni. Yn fyd-eang, amcangyfrifir bod bioamrywiaeth wedi dirywio, gyda gostyngiad o 69% yn nigonedd cymharol poblogaethau bywyd gwyllt rhwng 1970 a 2018[89]. Ers 1994, mae helaethrwydd rhywogaethau daearol a dŵr croyw yng Nghymru wedi gostwng 20%[90]. Mae angen gweithredu ar frys i atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth er mwyn atal dirywiad gwasanaethau ecosystem allweddol y mae bioamrywiaeth yn eu cefnogi. Mae'r gwasanaethau ecosystem hyn yn hanfodol er mwyn i ecosystemau weithredu, ac maent yn cynnwys ffurfio pridd, cylchdroi maetholion a dŵr, peillio a rheoleiddio'r hinsawdd.

[89] WWF, 2022.

[90] State of Nature 2023 - adroddiad ar fioamrywiaeth bresennol y DU

Er mwyn tynnu sylw at ddifrifoldeb y newid yn yr hinsawdd, cyhoeddodd y Senedd argyfwng natur yn 2021[91]. Nod hyn oedd dod â brys i'r camau i fynd i'r afael â bygythiadau newid yn yr hinsawdd i natur, ynghyd â'i risgiau i ehangder o sectorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr ydym yn dibynnu arnynt. Fodd bynnag, gall bygythiadau hirdymor i gyllid, blaenoriaethau sy'n gwrthdaro ac amharodrwydd gan randdeiliaid arwain at ansefydlogrwydd polisïau hirdymor sy'n natur-bositif. Yn fwy felly nawr nag erioed, mae angen integreiddio ystyriaethau bioamrywiaeth i brosesau gwneud penderfyniadau, a sicrhau bod pob awdurdod cyhoeddus yn mynd ati i weithio tuag at y targedau a osodwyd gan y gymuned ryngwladol, megis y rhai a amlinellir yn Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang (GBF) Kunming-Montreal [92] a'r ymrwymiadau a wnaed yn COP15[93].

**gwreiddio bioamrywiaeth drwy'r cynigion polisi**

Gan fod y Bil yn cyflwyno deddfwriaeth i wreiddio egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru, cryfhau llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru a chyflwyno fframwaith targedau bioamrywiaeth i fynd i'r afael â'r argyfwng natur parhaus, mae bioamrywiaeth wedi'i wreiddio yn y cynigion drwyddi draw. Bydd yr egwyddorion amgylcheddol a Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn berthnasol i gyfraith amgylcheddol a pholisi amgylcheddol ehangach ac nid i fioamrywiaeth yn unig, ond rhan allweddol o'r cynigion hyn fydd yr effaith gadarnhaol y byddant yn ei chael ar fioamrywiaeth.

*Egwyddorion Amgylcheddol*

Drwy ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru roi sylw arbennig i'r egwyddorion amgylcheddol wrth lunio polisïau, bydd hyn yn sicrhau y bydd agweddau allweddol ar ddiogelu'r amgylchedd (gan gynnwys bioamrywiaeth) yn cael eu hystyried wrth wraidd gwaith llunio polisïau. Bydd yn sicrhau bod pob polisi yn cael ei ddatblygu mewn ffordd sy'n ceisio osgoi niwed amgylcheddol, fel nad yw'n cyfrannu'n andwyol at yr argyfyngau hinsawdd a natur.

---

[91] The Nature Emergency: Climate Change – Gweithredu ar Newid Hinsawdd

[92] Paragraff 22 (Adran K) o'r GBF: Communication, education, awareness and uptake (cbd.int).

[93] Penderfyniad 15/6 COP15 dyddiedig 19 Rhagfyr 2022.

*Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru*

Prif bwrpas Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yw cynyddu effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru drwy sicrhau bod ei manteision arfaethedig yn cael eu gwireddu'n llawn. Yn ogystal â sicrhau bod deddfwriaeth yn cael ei gweithredu'n briodol, bydd hefyd yn nodi problemau gyda'r ffordd y gweithredir cyfraith amgylcheddol ac yn cynghori Gweinidogion Cymru ar sut i'w cywiro, yn atal achosion o dorri rheolau drwy bresenoldeb goruchwyliaeth weladwy fel bod awdurdodau cyhoeddus yn gwybod y byddant yn cael eu dwyn i gyfrif.

*Targedau*

Bydd gosod targedau cyfreithiol rwymol yn cael effaith sylweddol ar wreiddio bioamrywiaeth. Bydd y Bil yn gweithio law yn llaw ag adnewyddu ein Polisi Adnoddau Naturiol a chyhoeddi cynllun Adran 6 Gweinidogion Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod gennym fecanweithiau darparu polisi i gyrraedd ein targedau domestig newydd ac yn annog integreiddio ein polisïau i sicrhau'r buddion mwyaf posibl i fioamrywiaeth.

Bydd gan Weinidogion Cymru ddyletswydd i gyflawni'r targedau bioamrywiaeth a osodwyd ganddynt yn y Rheoliadau (sicrhau bod y safon yn cael ei bodloni erbyn y dyddiad gorffen). O ystyried bod bioamrywiaeth yn drawsbynciol, mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid ystyried yr uchelgais o fewn y targed gan sawl maes polisi ac felly bydd wedi'i wreiddio ar draws meysydd polisi.

Bwriad y ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus dynodedig i gyfrannu at dargedau yw darparu cysylltiad â'r Confensiwn Bioamrywiaeth[94] a chefnogi gweithredu'r GBF. Er mai dim ond i awdurdodau dynodedig y bydd dyletswydd darged awdurdodau cyhoeddus yn berthnasol, mae'n bosibl dylanwadu ar awdurdodau eraill nad yw eu maint na'u swyddogaethau yn gwarantu eu bod yn cael eu dyrannu i darged penodol ond a allai fod â'r gallu i wneud cyfraniad o hyd. Gellid cyflawni hyn drwy'r canllawiau a gyhoeddwyd yn unol ag adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mewn perthynas â'u dyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth. Bydd canllawiau adran 6 yn cael eu diwygio i gyfeirio at y targedau

[94] Erthygl 13 o'r Confensiwn Bioamrywiaeth.

pan gânt eu gosod i ddangos sut y gall awdurdodau cyhoeddus gymryd camau i gyfrannu at eu cyflawni. Felly, dylai hyn gael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth y tu hwnt i gwmpas dyletswydd targedau'r awdurdod cyhoeddus drwy ddylanwadu ar y rhai nad ydynt wedi'u dynodi mewn rheoliadau.

**Sut mae eich cynigion yn gwella dealltwriaeth ac yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth, gan annog eraill i weithredu?**

Prif bwrpas y darpariaethau sy'n ymwneud â thargedau bioamrywiaeth yw atal a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth a diogelu'r amgylchedd. Yr allwedd i gyflawni hyn yw gwella dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth a fydd yn cael ei annog drwy osod targedau a thrwy ddylanwad Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru. Bydd gan yr holl gamau gweithredu bioamrywiaeth sydd yn y Bil fanteision canlyniadol ar gyfer meysydd polisi eraill a byddant yn helpu i gyflawni ar draws gweithgareddau eraill Llywodraeth Cymru.

*Egwyddorion Amgylcheddol*

Bydd ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru flaenoriaethu egwyddorion amgylcheddol wrth lunio polisïau yn gosod diogelu'r amgylchedd wrth wraidd gweithgarwch y llywodraeth. Mae hyn yn sicrhau bod polisïau'n cael eu datblygu i osgoi niwed amgylcheddol a lleddfu cyfraniadau i'r argyfyngau hinsawdd a natur.

*Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru*

Bydd Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn cynyddu effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru drwy sicrhau bod ei manteision arfaethedig yn cael eu gwireddu'n llawn. Yn ogystal â sicrhau bod deddfwriaeth yn cael ei gweithredu'n briodol, bydd hefyd yn tynnu sylw at broblemau gyda'r ffordd y gweithredir cyfraith amgylcheddol ac yn cynghori Gweinidogion Cymru ar sut i'w cywiro, ac yn atal torri rheolau trwy bresenoldeb goruchwyliaeth weladwy fel bod awdurdodau cyhoeddus yn gwybod y byddant yn cael eu dwyn i gyfrif.

*Targedau*

Bydd targedau sy'n rhwymo'n gyfreithiol yn sbarduno gweithredu polisi a newid ymddygiad, yn annog cyfranogiad, cydweithio ac yn meithrin consensws ymhlith

awdurdodau cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill. Bydd cael targedau statudol y mae'r Gweinidogion wedi ymrwymo i'w cyflawni yn rhoi bioamrywiaeth ar yr agenda wleidyddol ac felly'n codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth. Bydd gosod targedau yn anfon neges gref i'r cyhoedd yng Nghymru, cenhedloedd eraill y DU ac yn rhyngwladol bod colli bioamrywiaeth yn flaenoriaeth allweddol i bob un ohonom. Drwy ddarparu targedau clir, penodol a mesuradwy dylai hyn helpu yn ei dro hefyd i sbarduno buddsoddiad gan y diwydiant mewn gwelliannau amgylcheddol, arferion a thechnolegau glanach, ac arloesedd i fynd i'r afael â chreu, adfer ac amddiffyn cynefinoedd ac i fynd i'r afael â cholli rhywogaethau.

Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd eisoes i sicrhau datblygu cynaliadwy o dan nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sef "Cymru gydnerth"[95], fodd bynnag nid oes dyletswydd i hyrwyddo ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth ar hyn o bryd. Yn hytrach na dibynnu ar eu disgresiwn i wneud hynny, mae'r darpariaethau'n cynnwys gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth a'r hyn sy'n sbarduno colli bioamrywiaeth. Bydd hyn yn mynd ati i wella dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth.

**Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n monitro**

Mae'r angen am well monitro ac adrodd ar statws bioamrywiaeth yn hollbwysig, yn enwedig yng nghyd-destun fframweithiau deddfwriaethol presennol megis adrannau 6, 8 a 9 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, adran 10 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, ac adran 4 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

*Egwyddorion Amgylcheddol*

Mae dyletswydd i integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth greu polisïau yn cyd-fynd â'r ddyletswydd i gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol. Disgwylir i hyn annog asesiad o sut y gallai gwahanol bolisïau effeithio ar ddiogelu'r amgylchedd, gan gynnwys bioamrywiaeth,

[95]Adrannau 2 i 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er mwyn hwyluso cyfeirio, y disgrifiad cysylltiedig o'r nod llesiant "Cymru Gydnerth' yw *"cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd)."*

a fydd yn gofyn am ddata a thystiolaeth bellach i gyd-fynd ag ef. Disgwylir hefyd i integreiddio diogelu'r amgylchedd i'r broses o greu polisïau, a'r angen am ddata a thystiolaeth bellach ynghylch sut mae polisïau'n effeithio ar yr amgylchedd, gefnogi dealltwriaeth bellach trwy gydweithio a rhannu gwybodaeth o fewn y llywodraeth (ar draws meysydd polisi) a gyda phartneriaid ehangach, gan arwain at ddealltwriaeth fwy cyfannol o ddiogelu'r amgylchedd, gan gynnwys bioamrywiaeth a'i gydgysylltiad â sectorau polisi eraill. Disgwylir i integreiddio diogelu'r amgylchedd i waith creu polisïau ehangach gefnogi datblygiad dulliau monitro polisi mwy cynhwysfawr hefyd, sydd nid yn unig yn olrhain 'prif effeithiau' y polisi, ond yr effeithiau ehangach hefyd a ystyrir trwy integreiddio diogelu'r amgylchedd (sy'n cynnwys bioamrywiaeth). Yn hyn o beth, bydd effaith gyfun y dyletswyddau (a'r amcan amgylcheddol uwch eu pennau, yn gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro bioamrywiaeth a diogelu'r amgylchedd yn gyffredinol.

*Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru*

Disgwylir i Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru gyfrannu tuag at wella tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro bioamrywiaeth mewn sawl ffordd:

1. Bydd yn dwyn Gweinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus eraill i gyfrif am eu cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys rhwymedigaethau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth (megis yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, ac a gynigir yn y Bil hwn, gan sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol.
2. Bydd yn darparu craffu a chyngor annibynnol mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol, cyhoeddi adroddiadau a rhoi cyngor i'r llywodraeth ar sut i wella ei pherfformiad amgylcheddol. Gall yr argymhellion hyn helpu i wella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth a llywio datblygiad a newidiadau mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol yn y dyfodol.
3. Bydd yn gwella tryloywder mewn perthynas â llywodraethu amgylcheddol trwy gyhoeddi gwybodaeth am ei weithgareddau a'i ganfyddiadau. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau ar effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol, ymchwiliadau i achosion posibl o dorri cyfraith amgylcheddol, ac argymhellion ar gyfer newidiadau i'r gyfraith yn y dyfodol. Trwy'r ymchwiliadau hyn, ymchwil a dadansoddi, gallai Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru gyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer bioamrywiaeth.

*Targedau*

Rhan allweddol o'r targedau bioamrywiaeth fydd y gofyniad i gryfhau "monitro ac adrodd cynnydd at gyflawni'r amcanion". Mae gwaith helaeth eisoes wedi'i wneud i nodi'r dystiolaeth orau sydd ar gael i lywio cynigion polisi. Fel rhan o'r broses o osod targedau bioamrywiaeth mae'n rhaid enwi dangosyddion. Bydd datganiad cynnydd Gweinidogion Cymru yn cael ei gyhoeddi hefyd fel rhan o'u hadroddiad fel sy'n ofynnol o dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, lle mae'n rhaid monitro cyflwr presennol targedau drwy gyfeirio at y dangosyddion a enwir. Ynghyd â monitro cyflwr bioamrywiaeth drwy gyfeirio at ddangosyddion, gellid gwireddu cyfleoedd i gynnwys ac asesu rhywogaethau a chynefinoedd adran 7 drwy dargedau a osodir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod dangosyddion yn caniatáu ar gyfer ail-ddadansoddi data presennol a gesglir gan sefydliadau allanol, megis Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a chyrff anllywodraethol amgylcheddol. Yma, mae'r cynigion yn ceisio cyfyngu ar y baich adrodd trwy ddefnyddio dangosyddion, data a chynlluniau adrodd sy'n bodoli eisoes. Mae'r dull cydweithredol hwn yn lleihau dyblygu ymdrechion ac yn lleihau costau sy'n gysylltiedig â chasglu data. Felly, bydd y cynigion hyn yn gwella ein dealltwriaeth o fioamrywiaeth yn sylweddol trwy wella'r asesiad o gynnydd tuag at dargedau bioamrywiaeth.

Bydd yn ofynnol hefyd i Weinidogion gynnal gwerthusiad o'r polisi a nodir yng nghynllun adran 6 gyda'r nod o hwyluso'r gwaith o gyflawni'r targedau. Bydd gwerthuso effeithiol yn parhau i wella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n monitro o fioamrywiaeth yng Nghymru.

**Ydych chi wedi defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am yr effeithiau allweddol ar fioamrywiaeth i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth?**

Fel y nodir uchod, gwnaed gwaith helaeth i nodi'r dystiolaeth orau sydd ar gael i lywio cynigion polisi. Mae hyn wedi cynnwys ymgynghoriad deuddeg wythnos ffurfiol ar y Papur Gwyn a gafodd ychydig dros 1000 o ymatebion, a gweithgareddau ymgysylltu â sefydliadau ac academyddion amgylcheddol allweddol. Ategwyd yr ymgynghoriadau ffurfiol hyn gan gasgliad o weithdai gyda rhanddeiliaid ac awdurdodau cyhoeddus.

Mae'r GBF wedi cael ei ddefnyddio i lywio datblygiad polisi ar gyfer y fframwaith gosod targedau bioamrywiaeth, yn ogystal â'r amcan amgylcheddol sy'n llywio'r gwaith o gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol a phwrpas Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru.

Mae’r fframwaith a gytunwyd yn rhyngwladol yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol o’r effeithiau allweddol ar fioamrywiaeth. Rydym yn cydnabod y gallai newidiadau i gytundebau a fframweithiau rhyngwladol presennol fel y GBF arwain at adolygu blaenoriaethau targed a bennir gan Weinidogion Cymru yn y dyfodol. Mae’r ddyletswydd i osod targedau yn hyblyg o ran ei natur, ar yr amod ei bod yn dilyn y diben arweiniol i atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth. Dylai’r hyblygrwydd hwn sicrhau bod cynigion a thargedau a osodir gan Weinidogion Cymru yn gallu ymdopi â newidiadau i gytundebau rhyngwladol.

Pwrpas darpariaeth gosod targedau’r Bil yw darparu fframwaith ar gyfer pennu targedau bioamrywiaeth ond nid y targedau eu hunain. Fodd bynnag, pan osodir targedau, mae’n rhaid i Weinidogion ystyried Egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy sy’n cynnwys hyrwyddo a chymryd rhan mewn cydweithio a chydweithredu, gwneud trefniadau priodol ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau, ac ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth mewn perthynas ag ansicrwydd. Bydd yr Egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn sicrhau bod y targedau’n seiliedig ar dystiolaeth. I gefnogi hyn, mae panel cynghori anstatudol (y Panel Cynghori ar Dargedau Bioamrywiaeth) wedi’i sefydlu sy’n cynnwys arbenigwyr o amrywiaeth o wahanol feysydd i ddarparu cyngor ac arweiniad ar y broses o osod targedau. Mae’r darpariaethau’n cynnwys bod yn rhaid i Weinidogion ofyn am gyngor arbenigol wrth osod targedau a bydd y grŵp hwn yn cynorthwyo gyda hyn.

O fewn y fframwaith gosod targedau mae’n rhaid i Weinidogion adolygu’r targedau er mwyn sicrhau bod yr uchelgais yn dal i fod yn addas. Gallai hyn arwain at newid neu ddiddymu targedau, gan ganiatáu i dystiolaeth sy’n newid gael ei hystyried ac i dargedau gael eu diwygio yn unol â hynny. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i’r broses er mwyn ystyried tystiolaeth newydd a newidiadau i bolisi i ymdrin â materion newydd neu faterion sy’n esblygu.

Bydd monitro gyda’r wybodaeth a’r data diweddaraf yn rhan bwysig o’r fframwaith gosod targedau oherwydd heb drefn fonitro effeithiol ar waith gellid cwestiynu eu defnyddioldeb a’u hygrededd. Felly, dim ond lle gellir mesur targedau yn effeithiol gydag o leiaf un dangosydd wedi’i neilltuo i darged unigol y bydd targedau’n cael eu gosod. Bydd data dangosyddion o fudd i fioamrywiaeth a byddant yn cyfrannu at ein gwybodaeth am fioamrywiaeth yng Nghymru.

## Cyflawni gweithredu ar fioamrywiaeth

### A all eich cynnig helpu i ddatblygu capasiti ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth, codi ymwybyddiaeth ac ysbrydoli eraill i weithredu?

Mae cynnwys grwpiau rhanddeiliaid wedi bod yn ystyriaeth allweddol drwy gydol proses gynllunio a datblygu'r Bil hwn. Ar gyfer ymateb ymgynghoriad cyhoeddedig y Papur Gwyn, cynhaliodd swyddogion polisi nifer o weithdai wedi'u targedu gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn ystod y cyfnod ymgynghori. Yn allanol roedd y gweithdai yn cynnwys cynrychiolwyr byd amaeth, cynghorau lleol, CNC, academyddion, cyrff anllywodraethol amgylcheddol a chwmnïau cyfleustodau. Cynhaliodd swyddogion polisi sesiynau un i un gyda sefydliadau hefyd gan gynnwys Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd a Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd. Mae'r gweithdai hyn wedi codi ymwybyddiaeth o'r Bil ac o'r problemau sy'n wynebu bioamrywiaeth yng Nghymru a bydd ymgysylltu â'r Bil yn parhau i wneud hyn.

*Egwyddorion Amgylcheddol*

Rhagwelir y bydd yr egwyddorion amgylcheddol yn cyfrannu at feithrin gallu ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth, ymwybyddiaeth ac yn ysbrydoli camau gweithredu drwy ddarparu fframwaith clir ar gyfer gwneud penderfyniadau sy'n pwysleisio diogelu'r amgylchedd. Yn ei dro disgwylir i hyn wella tryloywder ac atebolrwydd, meithrin cydweithredu a thynnu sylw at bwysigrwydd diogelu'r amgylchedd, gan gynnwys bioamrywiaeth.

*Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru*

Un o brif swyddogaethau Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru fydd adolygu a, lle bo'n briodol, ymchwilio i sylwadau gan aelodau'r cyhoedd. Bydd hyn yn rhoi gwell mynediad i ddinasyddion at gyfiawnder amgylcheddol trwy roi cyfle pellach i'r cyhoedd ymgysylltu â bioamrywiaeth yn eu cymuned leol a mecanwaith di-dâl i leisio pryderon neu broblemau a allai fod ganddynt mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â'r gyfraith a allai fod yn effeithio'n negyddol ar fioamrywiaeth.

*Targedau*

Bydd sefydlu targedau clir, penodol a mesuradwy, yn anfon arwydd clir at y cyhoedd yng Nghymru, cenhedloedd eraill y DU, a chymunedau rhyngwladol bod atal colli bioamrywiaeth yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Dylai cael targedau statudol annog camau gweithredu gan ddiwydiant a'r cyhoedd tuag at arferion a thechnolegau mwy gwyrdd, gan sicrhau'r buddion mwyaf posibl i fioamrywiaeth ledled Cymru.

Bydd cynigion y Bil yn ategu ac yn gwella'r gwaith o weithredu dyletswydd bioamrywiaeth a cydnerthedd ecosystemau adran 6 a ddylai wella'r gwaith o weithredu ar gyfer bioamrywiaeth. Mae adroddiadau diweddar gan Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd[96] ac Archwilio Cymru[97] wedi nodi bod angen gwella gweithredu dyletswydd adran 6 gan awdurdodau cyhoeddus. Er enghraifft, mae nifer yr awdurdodau cyhoeddus sydd wedi cyhoeddi cynlluniau ac adroddiadau fel sy'n ofynnol o dan y ddyletswydd yn gymharol isel – ar gyfer y cyfnod adrodd 2019-22: cyhoeddodd tua 38% o awdurdodau cyhoeddus a 25% o gynghorau tref a chymuned adroddiadau adran 6. O dan delerau'r ddyletswydd adran 6 rhaid i awdurdodau cyhoeddus roi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru a bydd y canllawiau hyn yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r targedau bioamrywiaeth. Dylai neilltuo targedau bioamrywiaeth i awdurdodau penodol roi mwy o ffocws i gamau priodol ar gyfer bioamrywiaeth, a'u sbarduno.

Rhaid i Weinidogion Cymru nodi sut y maent yn bwriadu cyflawni'r targedau, a chyhoeddir hyn yn y cynllun o dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Rhaid i'r cynllun, yn benodol, nodi pa gamau y bwriadant eu cymryd i sicrhau bod y targedau'n cael eu cyrraedd a phryd y maent yn bwriadu cymryd y camau hynny, a sut y bydd y targedau, os cânt eu cyrraedd, yn cyfrannu at atal neu wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Bydd y cynllun yn darparu'r mecanweithiau cyflawni polisi sy'n angenrheidiol i gyflawni'r targedau bioamrywiaeth. Wrth nodi'r uchelgais ar gyfer y targedau, y cynllun ar gyfer cyflawni targedau, a'r ffaith bod gan Weinidogion ddyletswydd i gyrraedd y targedau, bydd yn rhaid i Weinidogion ystyried sut y bydd y targed yn gweithredu dros fioamrywiaeth.

---

[96] Atal a gwrthdroi colli natur: Cynnydd tuag at y targed o 30 erbyn 30

[97] INSERT REF when published

Er y bydd cynigion y Bil yn effeithio'n uniongyrchol ar y sector cyhoeddus, drwy eu swyddogaethau efallai y bydd effeithiau ar y sector preifat hefyd. Er enghraifft, gall targedau arwain at greu polisïau sy'n ei gwneud yn ofynnol i rai busnesau sy'n ddibynnol ar adnoddau naturiol addasu eu ffynonellau deunyddiau crai[98]. Gall y targedau a'u canllawiau ddarparu ffyrdd i gwmnïau preifat gymryd rhan weithredol mewn materion bioamrywiaeth a gallai hyn gryfhau'r berthynas â chwsmeriaid, buddsoddwyr a rheoleiddwyr mewn cyfnod lle mae'r cyhoedd yn dod yn fwy ymwybodol o golli bioamrywiaeth yn ogystal â'r argyfwng hinsawdd. Gall Gweinidogion ddefnyddio gosod targedau i gefnogi amrywiaeth o fentrau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd buddiol y gall busnesau a sefydliadau eraill gyfrannu'n uniongyrchol atynt drwy ddarparu llafur neu wybodaeth, megis datblygiadau hamdden, addysg ac atal llifogydd. Yn yr un modd, gall targedau sbarduno newidiadau mewn polisi cynllunio megis mynnu bod cynigion datblygu yn ymgorffori camau priodol i gyd-fynd â thargedau bioamrywiaeth penodol. Fodd bynnag, nodwn nad yw targedau a'u manylion penodol wedi'u datblygu eto.

**Ydych chi wedi cofnodi penderfyniadau a chamau gweithredu i gynnal a gwella bioamrywiaeth?**

Mae cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth wraidd cynigion y Bil ac felly mae'r holl benderfyniadau a chamau gweithredu a wnaed wrth ddatblygu'r cynigion wedi ystyried hyn.

*Egwyddorion Amgylcheddol*

Bydd y dyletswyddau mewn perthynas â'r egwyddorion amgylcheddol yn sicrhau bod pob polisi yn cael ei wneud gan ystyried yr egwyddorion amgylcheddol a'n bod yn integreiddio diogelu'r amgylchedd ac yn ceisio atal niwed i'r amgylchedd yn ystod y cam cynllunio polisi.

*Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru*

Mae meysydd penodol y disgwylir iddynt gael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth yn cynnwys:

---

[98] Manteision economi gylchol gref i fioamrywiaeth — Asiantaeth yr Amgylchedd Ewropeaidd

- sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth amgylcheddol a'i bod yn effeithiol, gan helpu i sicrhau bod y buddion amgylcheddol a fwriadwyd yn cael eu gwireddu;
- darparu mecanwaith am ddim i'r cyhoedd roi gwybod yn hawdd am awdurdodau cyhoeddus sy'n torri cyfraith amgylcheddol a allai arwain at niwed i'r amgylchedd neu iechyd y cyhoedd a chynyddu cyfranogiad y cyhoedd wrth gyflawni amcanion amgylcheddol;
- nodi problemau gyda gweithrediad cyfraith amgylcheddol a chynghori Gweinidogion Cymru ar sut i'w cywiro;
- atal achosion o dorri'r gyfraith drwy bresenoldeb goruchwyliaeth weladwy fel bod awdurdodau cyhoeddus yn gwybod y byddant yn cael eu dwyn i gyfrif;
- atal achosion o dorri'r gyfraith drwy roi cyngor i awdurdodau cyhoeddus ar y gyfraith a'i chymhwyso;
- os bydd achos o dorri'r gyfraith yn digwydd, ei nodi a'i gywiro'n gyflym, gan atal niwed pellach i'r amgylchedd ac iechyd pobl; a
- darparu dulliau gorfodi effeithiol.

*Targedau*

Caiff Gweinidogion Cymru osod targedau mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n ymwneud â bioamrywiaeth yng Nghymru a dim ond os ydynt yn fodlon y byddai ei fodloni yn cyfrannu at gynnal a gwella bioamrywiaeth neu atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth y dylent osod targed.

### A yw'r cynigion yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth <u>yn y lle cyntaf</u>?

Nod cyffredinol y targedau sy'n rhan o'r Bil yw cynnal a gwella bioamrywiaeth a chreu fframwaith sy'n gosod targedau i atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth, ac felly dylai unrhyw gamau a gymerir mewn perthynas â'r cynigion hyn gael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth. Bydd Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru a'r egwyddorion amgylcheddol yn cyfrannu at gynnal a gwella bioamrywiaeth trwy eu swyddogaethau hefyd.

### Cynyddu gwyTnwch ein hamgylchedd naturiol ac integreiddio gydag ymrwymiadau presennol

*Cyffredinol*

Fel y nodwyd uchod, nod sylfaenol y fframwaith pennu targedau bioamrywiaeth yn y Bil yw cynnal a gwella bioamrywiaeth ac atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth, a rhan allweddol o'i ddatblygiad fu cydnabod ac integreiddio deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes.

Bydd y Bil yn cyfrannu at gyflawni nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (2015) - '*Cenedl sy'n cynnal a gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach, gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd)*', ac ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i wreiddio bioamrywiaeth ym mhopeth a wnawn.

Mae'r Bil yn cysylltu â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac yn ei hategu, yn enwedig y ddyletswydd bioamrywiaeth a cydnerthedd ecosystemau (adran 6). Bydd y Bil yn cryfhau'r ddyletswydd adran 6 sydd â'r prif nodau o integreiddio a gwreiddio bioamrywiaeth a'i ddiogelu a'i wella ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r ddyletswydd adran 6 yn gosod rhwymedigaeth ar awdurdodau cyhoeddus i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol. Mae'r ddyletswydd adran 6 yn berthnasol i amrywiaeth eang o sefydliadau sy'n cynnwys Gweinidogion Cymru, awdurdodau parciau lleol a chenedlaethol, byrddau iechyd, prifysgolion, cwmnïau cyfleustodau a sefydliadau fel Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Archwilio Cymru. Mae'n berthnasol i bob cyngor tref a chymuned hefyd.


Mae llawer o awdurdodau cyhoeddus yn cymryd camau priodol i helpu bioamrywiaeth ac felly'n cydymffurfio â'r ddyletswydd adran 6 bresennol, ond mae mwy y gellid ei wneud gan gynnwys mynd i'r afael â'r broblem nad yw llawer o awdurdodau wedi cyhoeddi cynlluniau a/neu adroddiadau adran 6 fel sy'n ofynnol o dan y ddyletswydd. Byddai cynigion y Bil yn mynd beth o'r ffordd i fynd i'r afael â'r materion hyn gan y byddai gan Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru bwerau i ymchwilio a dwyn awdurdodau i gyfrif lle nad ydynt wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd, megis methu â chyhoeddi cynllun neu adroddiad adran 6. Yn fwy cyffredinol, bydd y Bil a deddfu ei gynigion yn helpu i godi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth ac yn cynyddu ei amlygrwydd ar sawl lefel. Gan fod dyletswydd adran 6 yn lefel uchel, bydd gosod targedau'n darparu cyfeiriad a phenodoldeb pellach i awdurdodau cyhoeddus ddatblygu eu cynlluniau a'r camau y gallant eu cymryd i gydymffurfio â'r ddyletswydd adran 6. Bydd y targedau'n helpu'r awdurdodau cyhoeddus i nodi camau

gweithredu y gallant eu cymryd trwy ddarparu camau penodol a mesuradwy yn y canllawiau targed cysylltiedig.

Mae'r Bil yn cysylltu â'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy hefyd, a sefydlwyd yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, Polisi Cynllunio Cymru a Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024. Mae Ffigur 1 yn dangos bod y cysylltiadau rhwng gwahanol Ddeddfau, polisïau a chynlluniau Cymru yn cysylltu â'r 23 targed GBF.

Y Cynllun Gweithredu Adfer Natur yw ein Strategaeth a'n Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cenedlaethol sy'n ofynnol o dan ein hymrwymiad i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, strategaeth fyd-eang Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer bioamrywiaeth. Mae'n egluro ein hymrwymiad i fioamrywiaeth yng Nghymru, y problemau y mae angen i ni fynd i'r afael â nhw ac amcanion i gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer adfer natur, gan gynnwys y rhai sydd eu hangen i gyflawni ein nodau Cymru Gydnerth ein hunain (gweler isod) a'n hymrwymiadau rhyngwladol i atal colli bioamrywiaeth. Mae'r NRAP yn rhestru chwe amcan sydd â'r nod o wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth. Bydd y Bil yn cyflawni'r amcan cyntaf o ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth yn y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel drwyddi draw. Drwy'r camau gweithredu y bydd targedau a osodir o dan fframwaith gosod targedau yn eu sbarduno, bydd amcanion NRAP eraill yn cael sylw hefyd. Er enghraifft, bydd targed y bwriadwyd iddo fod o fudd i rywogaeth adran 7 o brif bwysigrwydd yn bodloni amcan 2 (diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o brif bwysigrwydd a gwella eu rheolaeth), amcan 3 (cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd

naturiol drwy adfer cynefinoedd diraddiedig a chreu cynefinoedd) ac amcan 4 (mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd).




Ffigur 1 1 Mae mapio polisi Cymru yn dangos bod polisi Cymru'n cyd-fynd â'r 23 Targed Fframwaith Amrywiaeth Byd-eang. Nodir gwahanol strwythurau polisi yn y golofn chwith, gyda Deddfau Deddfwriaethol (gwyrdd) a chynlluniau a pholisïau (porffor).

## Sut y bydd unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu lliniaru?

*Yr Egwyddorion Amgylcheddol a Swyddfa Llywodraethu Amgylcheddol Cymru*

Mae cymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol a phwrpas y Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru ill dau ynghlwm wrth yr 'Amcan Amgylcheddol'. Nod yr amcan hwn yw sicrhau lefel uchel o amddiffyniad i'r amgylchedd a gwella'r amgylchedd yng Nghymru. Wrth wneud hynny, bydd angen i Weinidogion, Awdurdodau Cyhoeddus a Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru roi barn yn benodol ynghylch diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r buddion y maent yn eu darparu, lliniaru ac addasu i

newid yn yr hinsawdd, a chyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Yn hyn o beth, roeddem yn disgwyl i gynigion polisi effeithio'n gadarnhaol ar fioamrywiaeth ac nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth y bydd angen eu lliniaru.

*Targedau*

Mae'r Bil yn creu fframwaith gosod targedau, ni fydd targedau'n cael eu gosod ar wyneb y Bil. Nod y fframwaith gosod targedau yw cynnal a gwella bioamrywiaeth ac atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth ac felly nid ydym yn rhagweld effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth. Er mwyn osgoi unrhyw ganlyniadau anfwriadol gan y targedau a osodir yn y Rheoliadau ac i sicrhau bod y manteision cadarnhaol yn cael eu gwireddu, rhaid i ni sicrhau bod y fframwaith gosod targedau yn gadarn a bod targedau mor effeithiol â phosibl ac yn osgoi effeithiau negyddol. Mae darpariaethau'r fframwaith wedi'u drafftio i sicrhau bod y targedau'n gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol (CAMPUS) a'u bod yn seiliedig ar dystiolaeth gyda mewnbwn arbenigol trwy gydol y datblygiad. Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu targedau i sicrhau bod yr uchelgais yn dal i fod yn gyraeddadwy ac yn briodol, a bydd gwerthuso polisïau yn sicrhau bod digon, a'r camau cywir, yn cael eu cymryd i gyfrannu at gyrraedd y targedau. Bydd modd diwygio neu ddiddymu targed os penderfynir na fyddai'r targed presennol yn cyfrannu at atal neu wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, oherwydd newidiadau i'r dystiolaeth y mae Gweinidogion wedi ei hystyried wrth osod y targed presennol, na fyddai'n cyfrannu at atal neu wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, na fyddai cyrraedd y targed presennol yn cael unrhyw fudd sylweddol o'i gymharu â pheidio â'i gyrraedd neu â chyrraedd targed is, neu oherwydd newidiadau mewn amgylchiadau ers i'r targed presennol gael ei osod, y byddai costau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd neu gostau eraill ei fodloni yn anghymesur â'r buddion, neu nad oes modd cyrraedd y targed presennol mwyach. Bydd y broses hon yn sicrhau y gellir lliniaru unrhyw effeithiau negyddol sydd gan darged.

# ATODIAD G - ASESIAD O'R DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

## Cynnal yr asesiad effaith

**Pa dystiolaeth a ystyriwyd er mwyn deall sut mae'r cynnig yn cyfrannu at anghydraddoldeb canlyniadau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas ac mae'n cwmpasu amrywiaeth o ffactorau. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys incwm a chyfoeth, yn ogystal ag amddifadedd yn ymwneud â ffactorau fel gwaith, iechyd a'r amgylchedd ffisegol.

Mae'r cynigion yn y bil yn ceisio ategu dyheadau Llywodraeth Cymru ynglŷn â diogelu'r amgylchedd a gwrthdroi colledion bioamrywiaeth. Wrth wneud hynny, byddant yn cael effaith gadarnhaol fawr ar ddinasyddion ledled Cymru, yn cynnwys y rhai sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Hefyd, yn anuniongyrchol, bydd y cynigion yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i 'bontio'n deg' oddi wrth economi'r gorffennol sy'n dibynnu ar danwyddau ffosil tuag at ddyfodol carbon isel newydd, lle byddwn yn symud tuag at Gymru lanach, gryfach a thecach, heb adael neb ar ôl.[99]

Er y bydd y gwaith o gyflawni'r Bil yn ceisio gwella canlyniadau Amgylcheddol, cydnabyddir y bydd y darpariaethau'n golygu costau uwch/newidiadau ar raddfa fwy i awdurdodau cyhoeddus a lleol. Bydd ffactorau economaidd-gymdeithasol yn cael eu hystyried (yn cynnwys tegwch a dosbarthiad cyffredinol y buddion mewn dadansoddiad cost a budd) yn yr asesiad manwl o opsiynau posibl ar gyfer targedau bioamrywiaeth, cyn cynnal ymgynghoriad llawn. Bydd yr ystyriaethau hyn yn helpu i sicrhau bod y targedau arfaethedig yn deg, yn gyraeddadwy ac yn fforddiadwy, gan barhau i ysgogi'r newidiadau uchelgeisiol rydym eu hangen ar gyfer yr amgylchedd.

[99] Crynodeb o'r Fframwaith Pontio | LLYW.CYMRU

***Pa wybodaeth a gasglwyd drwy ymgysylltu â'r rhai y mae'r cynnig/penderfyniad yn effeithio arnynt ac, yn benodol, y rhai sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol?***

Cynhaliwyd cyfres o ymgynghoriadau cyhoeddus[100] a digwyddiadau ymgysylltu. Mae eu hallbynnau wedi helpu i lywio datblygiad y polisi.

Cydnabyddir mai'r rhai sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol yw'r rhai sy'n cyfrannu leiaf at yr elfennau sy'n ysgogi newid hinsawdd, ond maent yn fwy tebygol o ddioddef effeithiau negyddol. Yn yr un modd, mae grwpiau incwm is yn talu mwy, fel cyfran o'u hincwm, tuag at weithredu rhai ymatebion polisi, a nhw sy'n elwa leiaf ar y polisïau hynny; hefyd, tueddir i beidio â gwrando ar eu lleisiau wrth wneud penderfyniadau.[101]

Er y ceir cefnogaeth gyffredinol i bolisïau'r Bil, bydd angen ymgysylltu ymhellach ac yn fwy penodol gyda'r rhai sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol drwy gydol y broses o bennu targedau bioamrywiaeth penodol a hefyd wrth weithredu Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru, er mwyn sicrhau y bydd eu lleisiau'n cael eu clywed.

***A ystyriwyd nodweddion gwarchodedig?***

Do. Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gael rhagor o fanylion am y modd y bydd y Bil yn effeithio ar bobl â nodweddion gwarchodedig.

***A yw cymunedau buddiant a mannau o ddiddordeb wedi'u hystyried? (Gweler tudalen 8 y canllawiau statudol.)***

Mae Awdurdodau Lleol a Chyhoeddus yn cynrychioli cymuned buddiant sylweddol. Aethpwyd ati i ymgysylltu'n helaeth â'r grwpiau hyn drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r polisi, yn cynnwys cynnal cyfres o gyfarfodydd un-i-un gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Trwy weithio'n agos gyda'r grwpiau hyn, bu modd cael gwell dealltwriaeth

[100] Egwyddorion amgylcheddol, trefniadau llywodraethu a thargedau bioamrywiaeth: Papur Gwyn | LLYW.CYMRU

[101] Climate change and social justice: an evidence review | Joseph Rowntree Foundation

o'r effeithiau posibl y gallai'r darpariaethau yn y Bil eu cael ar y grwpiau hyn. Fodd bynnag, er y bydd effaith y Bil ar y bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol yn debygol o fod yn gadarnhaol, cydnabyddir y bydd angen ymgysylltu ymhellach ac yn fwy penodol gyda nhw er mwyn sicrhau y bydd modd cynyddu a gwireddu'r effeithiau cadarnhaol hyn.

Gellir dod o hyd i Asesiad llawn o'r Effaith ar Fioamrywiaeth yn Atodiad F.

***Pa wybodaeth a ystyriwyd o ran tueddiadau'r dyfodol?***

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd yn 2019 a chyhoeddodd y Senedd argyfwng natur yn 2021. Mae *Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol: Meysydd gweithredu mewn gwaith, hinsawdd a newid demograffig*[102] yn pwysleisio'r cysylltiad rhwng newid hinsawdd ac anghydraddoldeb. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi y disgwylir i'r poblogaethau tlotaf a'r rhai sydd wedi'u hymyleiddio fwyaf ddioddef waethaf yn sgil newid hinsawdd.

Gyda hyn mewn cof, trwy sicrhau bod deddfwriaeth yng Nghymru yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, bydd modd cael effaith gadarnhaol bwysig ar y rhai sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol yn ein cymdeithas. Mae aelwydydd sy'n dioddef amddifadedd yn debygol o'i chael hi'n anodd gwrthsefyll effeithiau newid hinsawdd yn y dyfodol – er enghraifft, methu â fforddio addasu eu cartrefi neu symud o ardal sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd. Unigolion sy'n dioddef amddifadedd iechyd yw'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf yn sgil ansawdd aer gwael.

***Pa ddata a ystyriwyd (cenedlaethol a lleol)?***

Rydym wedi ystyried amrywiaeth eang o ffynonellau data a ffynonellau tystiolaeth eraill drwy gydol ein hasesiadau effaith.[103] Bydd rhagor o ffynonellau data'n cael eu hystyried

[102] https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2021/11/FGCW_Equalities-Report_proof_08.pdf

[103] Enghreifftiau o ffynonellau data ar draws yr asesiadau effaith

| |
|---|
| wrth lunio'r Targedau Bioamrywiaeth fel rhan o is-ddeddfwriaeth. Bydd y Panel Cynghori ar Dargedau Bioamrywiaeth yn defnyddio ystod o dystiolaeth wrth ystyried Targedau penodol, yn cynnwys tystiolaeth yn ymwneud â manteision/effeithiau ar gymunedau sy'n dioddef amddifadedd economaidd-gymdeithasol yng Nghymru. Bydd ffynonellau data tebyg yn cael eu hystyried wrth weithredu Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru i ategu'r gwaith o ymgysylltu'n benodol â'r rhai sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. |
| *I'w ddarparu fel rhan o'r Is-ddeddfwriaeth* |

| |
|---|
| **Sut allai'r cynnig waethygu ymhellach yr anghydraddoldeb canlyniadau a brofir o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?**<br><br>Ni ddisgwylir i'r Bil effeithio ar neb mewn modd a fydd yn gwaethygu anghydraddoldeb canlyniadau a brofir o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol. Ar lefel strategol, bydd cynigion sy'n cryfhau mesurau diogelu'r amgylchedd, ac sy'n mynd i'r afael â'r elfennau sy'n ysgogi colledion bioamrywiaeth, yn cael effaith gadarnhaol ar yr anfantais economaidd-gymdeithasol. Fodd bynnag, bydd gwaith ymgysylltu manylach yn cael ei wneud wrth i'r Bil gael ei basio er mwyn sicrhau y bydd y dystiolaeth sy'n ategu'r cynigion penodol yn ystyried ffactorau economaidd-gymdeithasol a dosbarthiadol. |

'Social Dimensions of Climate Change'

'Final Report - The Economics of Biodiversity: The Dasgupta Review' - GOV.UK (www.gov.uk)

'State of Nature 2023' – sef adroddiad ar fioamrywiaeth y DU

Argyfwng Natur: Newid Hinsawdd a'r Camau Gweithredu - Gweithredu ar Hinsawdd Cymru

**Sut allai'r penderfyniad wella canlyniadau i'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Yn aml, mae cymunedau incwm isel yn wynebu baich anghymesur mewn perthynas â pheryglon amgylcheddol[104]. Gall hyn gynnwys dod i gysylltiad â llygredd aer a dŵr sy'n deillio o gyfleusterau diwydiannol, byw wrth ymyl safleoedd gwastraff peryglus, a diffyg mynediad at ddŵr yfed diogel a mannau gwyrdd. Mae'r ffactorau hyn yn cyfrannu at gyfraddau uwch o broblemau iechyd fel asthma, canser a chlefyd y galon yn y cymunedau hyn.

Bydd sefydlu Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn bwysig o ran lleihau peryglon amgylcheddol presennol ac atal baich peryglon newydd. Bydd Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn arwain at allu goruchwylio'n well achosion o dorri Cyfraith Amgylcheddol a bydd yn cynnig mwy o gymhelliant i gyrff cyhoeddus gadw at, a chanolbwyntio ar, ganlyniadau amgylcheddol cadarnhaol. Wrth wneud hyn, dylai baich y peryglon amgylcheddol leihau. Un o swyddogaethau allweddol y Corff fydd deall ble yn union mae'r Gyfraith Amgylcheddol bresennol yn ddiffygiol a dwyn Gweinidogion Cymru i gyfrif er mwyn sicrhau y cyflwynir gwelliannau i'r Gyfraith Amgylcheddol. Wrth wneud hyn, dylai peryglon newydd, a'u baich cysylltiedig, leihau.

Bydd y cynigion ar gyfer y Targedau Bioamrywiaeth yn cael eu cyflawni'n bennaf trwy ddatblygu is-ddeddfwriaeth. Bydd y dystiolaeth a fydd yn ategu'r cynigion yn ystyried ffactorau economaidd-gymdeithasol a dosbarthiadol.

*I'w ddarparu fel rhan o'r Is-ddeddfwriaeth*

**Sut fyddwch chi'n monitro effaith y penderfyniad hwn? (Ystyriwch ganlyniadau ehangach)**

[104] Disparities in the Impact of Air Pollution | American Lung Association

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad ôl-weithredu o’r ddeddfwriaeth o fewn pum mlynedd ar ôl i’r ddeddfwriaeth ddod i rym. Rhagwelir y bydd yr adolygiad yn asesu pa mor effeithiol fu’r polisi o ran cyflawni ei amcanion, sef gwella canlyniadau amgylcheddol trwy gyfrwng y canlynol:

iv. Gwreiddio egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru;
v. Llywodraethiant Amgylcheddol, yn cynnwys sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol ar gyfer Cymru; a
vi. Fframwaith targedau statudol ar gyfer diogelu ac adfer bioamrywiaeth yng Nghymru.

Nid yw manylion llawn yr adolygiad wedi’u pennu eto.